Profiad myfyrwyr blwyddyn gyntaf Cymru

Canllaw arfer

Karen Fitzgibbon

ac aelodau'r grŵp prosiect Profiad Blwyddyn Gyntaf Cymr

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Cynnwys o fentrau a geir yn y cyhoeddiad hwn neu ar y wiki 4

Mentrau a luniwyd i annog cymunedau o arfer

Ledled y sefydliad 6

Ledled Ysgol neu Gyfadran 12

Lefel Rhaglen, Cynllun neu Ddyfarniad 14

Mentrau a gynlluniwyd i annog ymgysylltiad academaidd myfyrwyr

Ledled y sefydliad 18

Ledled yr Ysgol neu'r Gyfadran 32

Lefel Rhaglen, Cynllun neu Ddyfarniad 35

Lefel modiwl neu bwn 38

Cyfeiriadau 40

Cyflwyniad

Mae'r Academi Addysg Uwch yng Nghymru'n cyfarfod yn rheolaidd â sawl grŵp ymgynghori o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru. Mewn un grŵp[1] o'r fath lleisiwyd yr awydd i rannu mentrau ac arferion cyfredol i gefnogi'r profiad blwyddyn gyntaf. Gwirfoddolodd Prifysgol Morgannwg gydlynu grŵp diddordeb arbennig ac enwebodd pob sefydliad aelod staff i ymuno â'r tîm prosiect. Daeth y prosiect i gael ei adnabod fel Cyfres Weithrediadau Profiad Blwyddyn Gyntaf ac yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mae cyfranogion wedi cydweithio i gyflwyno casgliad o fentrau i'w lledaenu'n ehangach.

Mae'r grŵp hefyd wedi sefydlu wiki (ceir mwy o fanylion yn nes ymlaen yn y cyhoeddiad hwn) a fydd bellach yn adnodd mynediad agored i'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y profiad blwyddyn gyntaf i ychwanegu eu mentrau eu hunain ac ymuno â'r trafodaethau bywiog y mae'r grŵp wedi'u mwynhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gobeithia'r grŵp y byddwch o'r farn bod y cyhoeddiad hwn a'r adnoddau ar y wiki yn ddefnyddiol ar gyfer gwella arfer ynghylch profiad myfyrwyr blwyddyn gyntaf.

Trosolwg a nod y prosiect

Roedd y grŵp Profiad Blwyddyn Gyntaf am i'r cyhoeddiad hwn fod yn arolwg agored a gonest o'r pethau sydd wedi gweithio a'r pethau a allai fod wedi mynd yn well! Ein nod cyffredinol oedd rhannu profiadau o ddatblygu mentrau a luniwyd i gefnogi a gwella profiad myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng Nghymru ac rydym wedi elwa'n fawr o ymagwedd gadarnhaol iawn holl aelodau'r grŵp wrth rannu profiadau da, drwg (a salw ambell waith) ar hyd y ffordd. Rydym yn gweld y cyhoeddiad hwn fel un sy'n cyfrannu i'r dystiolaeth o sut i wella Profiad Blwyddyn Gyntaf yn Addysg uwch yn y DU.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn yn bwriadu cynnwys pob menter profiad blwyddyn gyntaf sydd ar waith ar hyn o bryd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, ond i roi rhagflas o'r ystod eang o fentrau mewn sefydliadau - o rywbeth sy'n gweithio ar lefel modiwl i fentrau drwy sefydliad. Wrth gwrs, gellid uwchraddio neu israddio pob un o'r mentrau yn ddibynnol ar sut rydych am eu cymhwyso. Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau yn cynnwys enw cyswllt ond os na ddangosir enw, yna bydd aelod perthnasol o'r sefydliad yn barod i ateb ymholiadau. Yn y ffordd hon, gobeithia'r grŵp sefydlu rhwydwaith o farnau a rennir am y profiad blwyddyn gyntaf ledled Cymru a thu hwnt a gobeithiwn y byddwch yn ystyried y cyhoeddiad hwn yn fan cychwyn ar gyfer y rhwydwaith hwnnw.

Derbyniodd y grŵp fwy na deg a thrigain o fentrau a bu rhaid iddo fod yn ddewisol ynghylch y rhai a gynhwysid yn y cyhoeddiad hwn. Ni ddylid rhagdybio, felly, am ein bod wedi amlygu menter mewn un sefydliad nad oes gwaith tebyg iddo wedi cychwyn mewn sefydliadau eraill - roedd yn rhaid i ni roi terfyn yn rhywle! Mae'n wir dweud bod y mentrau sydd ar waith i gefnogi'r profiad blwyddyn gyntaf yn cynyddu o hyd ac mae'n anochel efallai bod AAU yn datblygu eu gwaith yn y maes hwn ar gyfraddau gwahanol. Nod y cyhoeddiad hwn yw cynnig rhywbeth i bawb ei ystyried i wella'r profiad blwyddyn gyntaf mewn addysg uwch.

1 Mae Grŵp Sefydliadau Cymru (WIG) sy'n cynnwys uwch gyswllt yr AAU a enwebwyd yn gyfrifol am ddysgu avc addysgu ym mhob SAU yng Nghymru

Pam canolbwyntio ar gymunedau o arfer ac ymgysylltu academaidd â myfyrwyr fel y ddwy thema?
Daeth yn glir yn gyflym iawn y byddai'n rhaid i'r grŵp gulhau canolbwynt ei waith er mwyn gosod canlyniadau y gellid eu cyflawni. Ar ôl peth trafodaeth ynghylch sawl elfen o gadw myfyrwyr a maint y gwaith a wneir yn SAUau ledled Cymru i atgyfnerthu'r profiad blwyddyn gyntaf, penderfynodd y grŵp ganolbwyntio ar gasglu enghreifftiau o arfer y gellir eu cysylltu â'r naill thema neu'r llall - cymunedau o arfer ac ymgysylltu academaidd â myfyrwyr.

Am lawer o flynyddoedd, mae'r llenyddiaeth ynghylch cadw myfyrwyr mewn addysg uwch wedi cydnabod pwysigrwydd integreiddio academaidd a chymdeithasol mewn llwyddiant myfyrwyr. Er mai canllaw arfer yw hwn, gall y rhai hynny sy'n ymddiddori mewn llenyddiaeth ynghylch cadw myfyrwyr ac yn y themâu o gymunedau o arfer ac ymgysylltu â myfyrwyr ystyried y canlynol yn fan cychwyn defnyddiol (Beder 1997, Tinto 1997, Rhodes a Nevill 2004, Wilcox, Winn a Fyvie-Gauld 2005, Crosling, Thomas a Heagney 2008).

Roedd yn amlwg bod enghreifftiau o arferion da, arloesol ac, efallai yn bwysicaf oll, yn seiliedig ar dystiolaeth a oedd yn cyfrannu i welliannau yn y profiad blwyddyn gyntaf. Roedd llawer o'r arferion hynny yn cynnwys mentrau a luniwyd i wneud myfyrwyr i deimlo'n gartrefol ac yn rhan o'r gymuned ddysgu roeddent yn ymuno â hi. Roedd eraill yn canolbwyntio ar wella ymgysylltu academaidd â myfyrwyr.

Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn
Mae'r mentrau wedi'u rhestru yn y ddwy thema ac yna'n cael eu cyflwyno yn drefn ganlynol:

— Mentrau a gyflwynir ledled y sefydliad;
— Mentrau a gyflwynir mewn un Ysgol neu Gyfadran;
— Mentrau ar lefel rhaglen, cynllun neu ddyfarniad;
— Mentrau ar lefel modiwl neu bwnc.

Gallwch weld graddfa'r cyflwyno wrth gael golwg sydyn ar y lliwiau. Lle y bo'n briodol, awgrymir darllen pellach hefyd.

Aelodau Grŵp Profiad Blwyddyn Gyntaf
Aberystwyth – John Powell
Caerdydd – Nythan Roberts
Bangor – Sue Niebrzydowski
Morgannwg – Karen Fitzgibbon (Arweinydd y Grŵp)
Glyndŵr – Bridgett Pugh
Casnewydd – Tony Rucinski
Y Brifysgol Agored yng Nghymru – Ceri Willoughby
Abertawe – Phil Brophy, Sarah Huws-Davies
Coleg y Drindod – Gwilym Dyfri Jones
UWIC – Nicola Poole

Wiki Profiad y Flwyddyn Gyntaf yng Nghymru
http://firstyearexperiencewales.wetpaint.com

Mae'r wiki yn cynnwys manylion y mentrau yn y cyhoeddiad hwn, yn ogystal â rhywfaint o ddeunydd ychwanegol a allai fod o ddiddordeb. Mae gan bob sefydliad ei dudalen ei hun a chroesewir cyfraniadau pellach.

Yn ystod paratoi'r astudiaethau achos, roedd y wiki ar gael ar gyfer aelodau'r grŵp yn unig, ond mae'n dda gennym y bydd hyn nawr yn mynd yn adnodd agored ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhannu eu harfer ac mewn gwella'r profiad yn y flwyddyn gyntaf yng Nghymru a'r tu hwnt iddi.

Cydnabyddiaethau
Dymuna'r Grŵp ddiolch i Gabriel Jezierski (Uwch Ymgynghorydd yr Academi Addysg Uwch yng Nghymru) am ei gefnogaeth i'r prosiect, ac i gydnabod ymrwymiad yr AAU i hyrwyddo arfer da ym mhrofiad blwyddyn gyntaf myfyrwyr. Mae pob aelod o'r grŵp wedi derbyn cefnogaeth eu cydweithwyr yn y sefydliad a dymuna aelodau'r grŵp ddiolch i'r cydweithwyr hynny am eu hymrwymiad parhaol. Mae cyfranwyr yr astudiaethau achos wedi rhoi eu hamser i baratoi'r deunyddiau a ddangosir yn y cyhoeddiad hwn a dymuna'r grŵp ddiolch iddynt am eu cefnogaeth hael. Yn olaf, dymuna Karen Fitzgibbon gydnabod aelodau'r grŵp am eu hysbryd o rannu'r hyn a ddaeth pob aelod i'r grŵp ac am eu hymdrechion am gasglu ystod mor drawiadol o astudiaethau achos.

Cynnwys o fentrau a geir yn y cyhoeddiad hwn neu ar y wiki

CYMUNEDAU O ARFER

Enw'r fenter	Lefel cyflwyno	Sefydliad	Tudalen	Cyfrannwr
Adfywio	Ledled y sefydliad	Aberystwyth	6	Cyswllt: John Powell
Gwasanaeth Ymgynghorol galw heibio ar gyfer Sgiliau Astudio	Ledled y sefydliad	Bangor	6	Delyth Murphy
Hyfforddiant llythrennedd gwybodaeth	Ledled y sefydliad	Caerdydd	7	Cathie Jackson
Clinig dysgu dilys	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Morgannwg	14	Kieran Vivian-Byrne
Modelu mathemategol drwy weithio mewn grŵp	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Morgannwg	15	John Hayward
Hyfforddi cymuned o arfer	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Morgannwg	17	Dean Parsons
Swyddogion cyswllt myfyrwyr	Ysgol neu Gyfadran	Glyndŵr	12	Bridget Pugh
Ymagwedd gydlynol at weithgareddau blwyddyn un	Ysgol neu Gyfadran	Casnewydd	13	Richard Clarke
Rhwydweithio cyn-ymrestru cym-deithasol drwy ddefnyddio NING	Ledled y sefydliad	Casnewydd	8	Allan Theophanides
Cysylltu â myfyrwyr cyn ymrestru	Ledled y sefydliad	Casnewydd	8	Kerry Bellamy
Prosiect Meddygon Arian	Ledled y sefydliad	Abertawe	9	Rob Ellis
Penwythnos dyfodiaid	Ledled y sefydliad	Abertawe	9	Simon Wright
Desg Gymorth i Lasfyfyrwyr	Ledled y sefydliad	Abertawe	10	Jenni Soper
Ymgynghorwyr Sgiliau Academaidd	Ysgol neu Gyfadran	UWIC	13	Alex Osmond

YMGYSYLLTU Â MYFYRWYR

Enw'r fenter	Lefel cyflwyno	Sefydliad	Tudalen	Cyfrannwr
Tiwtora personol – Tystysgrif mewn cefnogi myfyrwyr	Ledled y sefydliad	Aberystwyth	25	Caryl Davies, John Powell
Cod ymarfer ar gyfer asesu	Ledled y sefydliad	Bangor	21	Ioan Ap Dewi
Cynllun canllaw cymheiriaid	Ledled y sefydliad	Bangor	23	Kim Davies
Ymsefydlu myfyrwyr cartref	Ledled y sefydliad	Bangor	24	Fran Tate
Portffolio o Sgiliau Academaidd	Ysgol neu Gyfadran	Bangor	32	Martha Khan
CDP i fyfyrwyr israddedig	Ysgol neu Gyfadran	Bangor	25	Martha Khan

Enw'r fenter	Lefel cyflwyno	Sefydliad	Tudalen	Cyfrannwr
Gwella cefnogaeth fugeiliol	Ysgol neu Gyfadran	Bangor	37	Sue Peet
Grwpiau ffocws myfyrwyr ar asesu	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Caerdydd	36	Claire Wardle
Cyflogadwyedd a Datblygiad Proffesiynol	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Morgannwg	35	Sam Bairstow Mary Broomfield
Asesu cymheiriaid cyfrifiadurol	Modiwl neu bwnc	Morgannwg	38	Phil Davies
System gyfeillio wirfoddol	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	Morgannwg	36	David Byfield
Efelychiad myfyrwyr GlamStart	Ledled y sefydliad	Morgannwg	22	Martin Lynch
Pecyn cymorth dysgwyr ar-lein	Ledled y sefydliad	Morgannwg	22	Julie Prior Karen Fitzgibbon
Gweithdai i ddarpar-lasfyfyrwyr	Ledled y sefydliad	Glyndŵr	18	Bridget Pugh
Cefnogwyr cymheiriaid – canllawiau i fyfyrwyr newydd	Ledled y sefydliad	Glyndŵr	20	Bridget Pugh
Mecanweithiau cefnogi myfyrwyr	Ysgol neu Gyfadran	Casnewydd	32	Mike Simmons
Negeseuon testun SMS	Ledled y sefydliad	Casnewydd	21	Michael Webb
Ethos yr ysgol ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf	Ysgol neu Gyfadran	Casnewydd	32	Gary Pritchard
PASS	Modiwl neu bwnc	Abertawe	39	Sarah Huws-Davies
Bywyd drwy lens – prosiect ffoto ymsefydlu	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	UWIC	37	Nicola Poole
Mentora gan gymheiriaid	Rhaglen/Cynllun/Dyfarniad	UWIC	31	Nicola Poole
Prosiect disgwyliadau Myfyrwyr ac Aelodau Staff	Ledled y sefydliad	UWIC	26	Nicola Poole
Ystafell ddyddiadur UWIC	Ledled y sefydliad	UWIC	26	Nicola Poole
CDP drwy ddefnyddio Web 2.0	Ysgol neu Gyfadran	UWIC	33	Nicola Poole
Fodcast ymsefydlu llyfrgell	Ysgol neu Gyfadran	UWIC	33	Nicola Poole
Fforymau Cychwyn	Ledled y sefydliad	Y Brifysgol Agored yng Nghymru	27	Ceri Willoughby
Fforymau Gyrfaoedd a Wikis	Ledled y sefydliad	Y Brifysgol Agored yng Nghymru	28	Ellen Cocking Patrick Kelly Ceri Willoughby
Cefnogaeth Ragweithiol i Fyfyrwyr	Ledled y sefydliad	Y Brifysgol Agored yng Nghymru	29	Ceri Willoughby
Hyfforddiant Llyfrgell ar-lein	Ledled y sefydliad	Y Brifysgol Agored yng Nghymru	29	Helen Clough
Gwefan Sgiliau ar gyfer Astudio	Ledled y sefydliad	Y Brifysgol Agored yng Nghymru	30	Ceri Willoughby

Mentrau a luniwyd i annog cymunedau o arfer

Ledled y sefydliad

ADFYWIO
ABERYSTWYTH

Geiriau allweddol:
cymuned, cysylltu, perthyn

Gall yr ail dymor mewn prifysgol fod yn heriol i rai myfyrwyr, gyda chynnydd mewn myfyrwyr sy'n gadael a phroblemau cymdeithasol eraill. Daw'r tymor cyntaf â ffordd newydd o fyw ac mae llawer o fyfyrwyr yn colli'r cyfeillgarwch cychwynnol sy'n digwydd yn ystod yr wythnosau cyntaf gan eu bod yn ceisio dod i'r afael ag amserlenni, y campws, gadael eu cartref ac ati. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai mis ar ôl cychwyn y tymor cyntaf yn amser da i dargedu myfyrwyr a gollodd Ŵyl y Glasfyfyrwyr gan roi cyfle arall iddynt ofyn am wybodaeth a chyngor – penderfynasom hefyd ddefnyddio chwaraeon ac ymarfer corff fel modd i feithrin teimlad o berthynas â'r Brifysgol drwy feithrin cyfeillgarwch, hwyl a sbri. Gan fod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion fel unigrwydd a straen trwy gyfrwng cyfarfodydd cymdeithasol a chyfarfodydd grŵp nad oeddent yn cynnwys alcohol, roeddem yn gobeithio y byddai myfyrwyr yn magu hyder a theimlad o hunaniaeth â'r Brifysgol drwy gymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff, neu drwy ymagwedd fwy gwybyddol drwy gyflwyno ymlacio drwy gerddoriaeth neu'r theatr, ac yn olaf drwy roi cyngor maethol cadarn, e.e. sut i goginio pryd am £1, am ymagwedd gyflawn gyfannol.

Disgrifiad/ymagwedd:
Trefnwyd diwrnod "adfywio" (yn hytrach na diwrnod i Lasfyfyrwyr) yn yr urdd gan ddod â llawer o adrannau'r brifysgol at ei gilydd i annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd, i ofyn cwestiynau neu i gael myfyrwyr i roi eu cyngor eu hunain ynghylch sut i wneud cyfeillion ac ymgartrefu. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- "Ail feddwl?"
- Meddyg arian
- Canolfan Gerdd y Brifysgol
- Mynegbyst Mentora
- Canolfan Chwaraeon
- Dull Lleddfu Straen
- Cymdeithasau'r Undeb/Undeb Chwaraeon
- Bwyta'n Iach
- Canolfan y Celfyddydau
- Cerdyn Ar Hyd Aber (AHA)
- Cyfeillion rhyngwladol
- Tri chyfrifiadur wedi'u rhwydweithio er mwyn i fyfyrwyr brofi eu sgiliau cyllido a goroesi fel myfyrwyr
- Gwobrau am y syniadau gorau - wal o nodiadau 'post it' gan ddewis yr enillwyr ar y diwedd.

Canlyniadau a ddisgwylir
Gostyngiad ym mhroblemau myfyrwyr yn yr ail dymor, e.e. llai o straen.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Ddim yn siŵr!

Myfyrio/effaith
Adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr hynny a gymerodd ran. Mae dechrau'r tymor yn brysur iawn ac roedd yn dda cynnal hyn ar ôl ychydig wythnosau o'r tymor ar gyfer y rhai hynny a fethodd y cyfle y tro cyntaf. Hefyd roedd yn beth da cysylltu ag adrannau eraill. Dilynodd hyn yr Ymgyrch Ffit ac Iach i aelodau staff yn yr haf ac yna'n arwain i fis Ffit ac Iach i aelodau staff a myfyrwyr yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2009. Mae cynnydd o 10% ymhlith myfyrwyr sy'n defnyddio'r Ganolfan Chwaraeon o gymharu â'r llynedd.

GWASANAETH YMGYNGHOROL GALW HEIBIO AR GYFER SGILIAU ASTUDIO
BANGOR

Geiriau allweddol
cefnogaeth, cadw, cyflawni potensial

Nod y fenter hon oedd cynorthwyo cadw myfyrwyr drwy ddarparu cefnogaeth astudio well ar ffurf gwasanaeth ymgynghorol galw heibio wythnosol: trwy ddarparu cefnogaeth mewn sgiliau astudio cyffredinol, mathemateg ac ystadegau. Roedd y gefnogaeth hon ar gael, ac mae'n parhau i fod ar gael, yn Gymraeg ac yn Saesneg i holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor.

Disgrifiad/ymagwedd
Ar ôl cynnal mentrau sgiliau astudio gwahanol rhagbrofol, mae gwasanaeth ymgynghorol galw heibio wedi'i gyflwyno. Oherwydd y galw gan gydweithwyr a myfyrwyr sefydlwyd sesiynau wythnosol pellach yn fuan iawn ar gyfer cefnogaeth mewn mathemateg ac ystadegau. Yn seiliedig ar Ddysgu Gydol Oes, mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth wythnosol gyfrinachol un-i-un i fyfyrwyr sy'n cael sgiliau astudio academaidd yn her gychwynnol, yn ogystal ag i'r myfyrwyr hynny sydd am wella eu perfformiad a chyflawni eu potensial. Cyflwynir adroddiadau, fel y bo'n berthnasol, i'r Grŵp Uwch Diwtoriaid ac i'r Grŵp Gorchwyl Ehangu Mynediad a Chyfranogiad.

Canlyniadau a ddisgwylir
— Cynnydd mewn hyder a hunan-barch, felly'n hyrwyddo cadw myfyrwyr;
— Gwelliant yn sgiliau astudio academaidd myfyrwyr ac yn nealltwriaeth o fathemateg/ystadegau, gan arwain at farciau gwell.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
— Adborth gan fyfyrwyr yn dynodi marciau gwell a mwy o hyder;
— Adborth gan ddarlithwyr yn dynodi sgiliau gwell ymhlith myfyrwyr.

Disgrifiad/ymagwedd:
Ar ôl rhoi prawf i opsiynau sgiliau astudio eraill ac o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, teimlwyd mai'r gwasanaeth ymgynghorol galw heibio yw'r dull mwyaf effeithlon ac effeithiol o ddarparu cefnogaeth astudio y mae gwir angen amdani ar gyfer y myfyrwyr hynny y mae ei hangen arnynt. Mae codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth hwn ymhlith myfyrwyr ar draws y brifysgol yn her ond mae'r galw yn cynyddu'n raddol. Mae gan gydweithwyr swyddogaeth allweddol ddylanwadol i chwarae wrth gyfeirio myfyrwyr at y gwasanaeth. Mae seilio'r gwasanaeth yn Nysgu Gydol Oes, lle mae gan y tiwtoriaid lawer o brofiad mewn cefnogi ac addysgu sgiliau astudio, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael cyngor cyfrinachol y tu allan i'r yr Ysgol lle maent wedi cofrestru. Mae'r cyfrinachedd hwn yn bwysig, gan fod myfyrwyr ambell waith yn pryderu os eu gwelir yn gofyn am gymorth, y cânt eu hystyried yn fyfyrwyr 'gwan'. Mae'r prosiect hwn yn ychwanegu at rymuso ac ymreoli myfyrwyr gan eu bod hwy eu hunain yn gallu penderfynu pryd a faint o gefnogaeth astudio y mae arnynt ei hangen.

HYFFORDDIANT LLYTHRENNEDD GWYBODAETH
CAERDYDD

Geiriau allweddol
llythrennedd gwybodaeth

I ddatblygu llythrennedd gwybodaeth israddedigion ac ôl-raddedigion a ddysgwyd, i'w cyfarparu ar gyfer bywyd academaidd. Mae'r addysgu wedi'i deilwra i'r cwricwlwm ac wedi'i sefydlu'n gadarn ynddo ar sail fesul cwrs a llunnir cyfleoedd dysgu gan arweinwyr modiwlau mewn partneriaeth â llyfrgellwyr pwnc.

Disgrifiad/ymagwedd
Mae llyfrgellwyr pwnc yn ceisio cydweithio â phob cwrs a ddysgir nid i gyflawni cyfeiriadedd i'r llyfrgell ac adnoddau ar-lein yn unig ond hefyd i ymgorffori datblygiad llythrennedd gwybodaeth i'w hastudiaethau.

I gefnogi tiwtoriaid a llyfrgellwyr pwnc wrth iddynt greu deunyddiau addysgu llythrennedd gwybodaeth, mae'r Banc Adnoddau Llythrennedd Gwybodaeth ar y we yn cynnig gwrthrychau dysgu arloesol, rhyngweithiol a diddorol. Mae pob gwrthrych dysgu yn damaid bach a gellir ei ailddefnyddio'n hawdd yn unrhyw ddisgyblaeth a gellir addasu'r rhan fwyaf i'w defnyddio gydag e-ddysgu a deunyddiau argraffedig. Mae ymarferion rhyngweithiol, cwisiau, cartwnau, diagramau, rhannau wedi'u hanimeiddio a phodlediadau i gyd ar gael. Mae'r testunau yn cynnwys osgoi llên-ladrad, dyfynnu a chyfeirio, gwerthuso gwybodaeth a thechnegau chwilio ymhlith eraill.

Canlyniadau a ddisgwylir
Trwy ymgorffori addysgu'r llyfrgell yn y cwricwlwm academaidd, caiff myfyrwyr ddealltwriaeth well o'r math o wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer ymchwil, gallant ddod o hyd i wybodaeth briodol sy'n berthnasol i'w disgyblaeth a'i defnyddio â gonestrwydd academaidd i gyflawni canlyniadau'r rhaglen astudio.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae'r fenter yn tyfu o un flwyddyn i'r llall, gyda 55% o'r israddedigion a'r ôl-raddedigion bellach yn cael eu darparu ag addysgu llythrennedd gwybodaeth wedi'i ymgorffori yn eu cwricwlwm, sef cynnydd ar ffigur y llynedd, sef 48% a 39% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r addysgu integredig hwn yn adeiladu ar gyfeiriadedd i'r llyfrgell ac adnoddau ar-lein a ddarperir eisoes gan lyfrgellwyr pwnc i 93% o fyfyrwyr.

Myfyrio/effaith
Mae'r cynnydd i ymgorffori llythrennedd gwybodaeth yn ddibynnol ar y gwerthoedd a rennir a deialog llwyddiannus rhwng arweinydd y modiwl a'r llyfrgellydd pwnc perthnasol.

Mae'r strategaeth o ymgorffori hyfforddiant llythrennedd gwybodaeth mewn rhaglenni unigol yn gofyn am ystod eang o strategaethau addysgu a hyblygrwydd mewn ymagweddau addysgu gan y llyfrgellydd pwnc, ac addasu canlyniadau dysgu i anghenion y myfyrwyr a'r rhaglen. Mae angen i lyfrgellwyr pwnc gael eu cefnogi yn y broses hon. Mae enghreifftiau o fecanweithiau cefnogol ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynnwys Banc Adnoddau Llythrennedd Gwybodaeth, Llawlyfr Addysgu Llythrennedd Gwybodaeth (www.cf.ac.uk/insrv/educationandtraining/infolit/hilt) a rhannu deunyddiau pwnc llwyddiannus rhwng llyfrgellwyr pwnc.

RHWYDWEITHIO CYN-YMRESTRU CYMDEITHASOL DRWY DDEFNYDDIO NING!
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
Disgwyliadau myfyrwyr, technoleg dysgu, cysylltu â myfyrwyr, ymgysylltu â myfyrwyr, rhwydweithio cymdeithasol

Mae'r Brifysgol wedi lansio gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol yn bwrpasol ar gyfer myfyrwyr sydd naill ai wedi derbyn lle i astudio'r rhai hynny a wnaeth gais yn hwyr drwy'r system glirio, neu'r rhai hynny sy'n meddwl am ddod – http://newportstudents.ning.com

Mae'r gwasanaeth yn gyfleuster rhwydweithio cymdeithasol cynhwysfawr yn seiliedig ar feddalwedd am ddim gan www.ning.com ac yr oedd yn gymharol hawdd i'w ffurfweddu a'i sefydlu mewn cyfnod byr o amser.

Canlyniadau a ddisgwylir
Y nodau oedd cyflwyno cyfle i fyfyrwyr, cyn iddynt fynychu'r Brifysgol, ddod yn rhan o'r sefydliad a gwneud cyfeillion, cyfarfod â chymheiriaid a gofyn cwestiynau dipyn cyn iddynt gyrraedd yn gorfforol. Byddai'r safle yn caniatáu i broffiliau unigol gael eu teilwra â lluniau a gwybodaeth, sefydlu grwpiau trafod arwahanol a ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Er na roddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r cynllun peilot cyntaf, gwnaeth mwy na 700 o fyfyrwyr newydd danysgrifio a chymryd rhan yn weithredol cyn dechrau'r sesiwn academaidd newydd. Ynghyd â'r myfyrwyr hyn, ymunodd aelodau o'r staff academaidd a'r staff gweinyddol a mentoriaid myfyrwyr i ddatblygu llu o weithgareddau rhithwir a ffrindiau newydd. Trafodwyd testunau a ffurfiwyd grwpiau yn ymwneud â phynciau o "Pa lety y dylwn wneud cais amdano" i drafodaethau yn ymwneud â chyrsiau – a hyd yn oed hoffter am gartwnau'r 1980au (neu i'r gwrthwyneb)!

Myfyrio/effaith: I'n syndod a'n pleser, gwelwyd bod llawer o ddefnyddwyr (aelodau staff a myfyrwyr) yn cymryd rhan nad oeddent wedi defnyddio cyfleuster rhwydweithio cymdeithasol o'r blaen. Ymddengys bod atyniad parhaus i'r safle oherwydd ei fod yn hawdd ei ddefnyddio, yn hyblyg ac yn un-pwrpas - ynghyd â'r ffaith mai pinc oedd y lliw mwyaf amlwg ynddo! Serch hynny, bwriad y safle oedd, ac yw o hyd i fod yn gam ar y ffordd i ddefnyddio cyfleusterau dysgu rhithwir "prif ffrwd" y Brifysgol gan gynnwys blogiau Ysgolion, wikis, fforymau ar-lein ac wrth gwrs yr Amgylchedd Dysgu a Reolir (MLE).

CYSYLLTU Â MYFYRWYR CYN YR WYTHNOS GROESAWU
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
mentoriaid myfyrwyr, ymgysylltu â myfyrwyr cyn ymrestru

Nod
Rhoi'r holl fyfyrwyr israddedig amser llawn cyn-ymrestru mewn cyswllt â myfyrwyr eraill (mentoriaid) cyn ymrestru, ac felly'n llyfnhau'r trawsnewid i'r sefydliad a chynorthwyo i reoli disgwyliadau.

Disgrifiad/ymagwedd
Mae Mentoriaid Myfyrwyr ar hyn o bryd yn ffonio ymgeiswyr sydd wedi derbyn lle i astudio yn y Brifysgol cyn iddynt ddod i'r campws ar ddechrau'r tymor cyntaf. Gwneir hyn yn ystod yr haf wrth i bobl dderbyn lle. Yn ogystal, mae Mentoriaid Myfyrwyr yn ymwneud â diwrnodau cyfweliadau ac mae menter newydd sy'n cynnwys anfon cerdyn llongyfarchion oddi wrth y mentoriaid ynghyd ag unrhyw lythyr i gynnig lle a anfonir gan Dderbyniadau, yn cynnig cysylltu â Mentoriaid Myfyrwyr trwy gyfrwng neges e-bost os oes gan fyfyrwyr ymholiadau ynghylch unrhyw beth cyn iddynt gyrraedd. Mae Mentoriaid hefyd yn weithredol ar "Newspace" (gweler menter rhwydweithio gymdeithasol) yn ystod yr haf.

Canlyniadau a ddisgwylir
Bwriad cysylltiad cyfeillgar gan rywun "sydd wedi bod yno ac wedi gwneud hynny" yw rhoi sicrwydd i fyfyrwyr newydd o safbwynt cynnes a chyd-deimladwy. Nod hyn yn ei dro yw cynorthwyo'r myfyriwr i oresgyn unrhyw rwystrau dros dro wrth iddynt symud i AU a'u cynorthwyo o ran beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cyrraedd a sut y gallant addasu i'r amgylchedd newydd.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Cysylltwyd â sawl cant o fyfyrwyr trwy gyfrwng mentrau'r mentoriaid a grybwyllwyd uchod ac, er ei bod yn rhy gynnar i weld tueddiadau pendant o wybodaeth ystadegol o ran dylanwad y gweithgaredd hwn dros amser, mae'r adborth gan y myfyrwyr ynghylch ymagwedd y mentoriaid wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt ac mae wedi derbyn croeso da.

Myfyrio/effaith
Gan fod gennym amrywiaeth o fyfyrwyr ac agenda flaenllaw i ehangu mynediad, mae'r fenter yn fuddiol i unrhyw fyfyrwyr a all fod yn teimlo'n anesmwyth neu'n ansicr ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ôl derbyn lle yn y Brifysgol. Gosodwyd pwysigrwydd ar y defnydd o ddulliau cyfathrebu a chyfryngau gwahanol er mwyn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf eang â'r cynllun – ffôn, llythyr, e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

MEDDYGON ARIAN
ABERTAWE

Geiriau allweddol
Cyllido, Cyngor am Ddyledion, Gorddrafftiau, Costau Banc, Cardiau Credyd, Cymorth Statudol i Fyfyrwyr, Cyfrifoldebau Ariannol a Galluoedd Ariannol.

Nod
Dewiswyd Prifysgol Abertawe gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn 'Ddatblygwr Cynnar' o'r cynllun 'Meddygon Arian', sef rhaglen arloesol i gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu sgiliau rheoli arian.

Mae'r rhaglen yn cynnig sesiynau gweithdai a chyngor i gynorthwyo myfyrwyr wynebu dyledion, rheoli eu harian a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Meddygon Arian bellach yn rhan o fodiwl achrededig mewn rhai rhaglenni gradd blwyddyn gyntaf yn yr Ysgol Fusnes ac Economeg a'r Ysgol Gelfyddydau.

Y gynulleidfa darged yw myfyrwyr y brifysgol a phobl ifanc cyn iddynt gyrraedd y Brifysgol.

Disgrifiad/ymagwedd
— darlithiau yn rhan o fodiwlau "sgiliau astudio" mewn ysgolion leithoedd a Busnes;
— diwrnodau agored y brifysgol;
— digwyddiadau yn y brifysgol â'r nod o geisio ymgysylltu â myfyrwyr i feddwl am eu harian;
— cyflwyniadau rhyngweithiol i fyfyrwyr newydd a darpar fyfyrwyr yn y Brifysgol neu golegau AB neu Ysgolion;
— sesiynau cynghori 1 i 1, i gynorthwyo myfyrwyr i gyllido neu yn rhan o wasanaeth cynghori ar ddyledion.

Canlyniadau a ddisgwylir
— gwella hyder, gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ynghylch cyllid personol;
— cynorthwyo myfyrwyr i reoli, gwneud dewisiadau a pheidio ag esgeuluso problemau arian oherwydd ofn neu chwithigrwydd;
— annog galluoedd ariannol am oes.

Myfyrio/effaith
— mae darlithiau wedi tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli arian yn gynnar a gwybodaeth well am y cymorth sydd ar gael, ar sail statudol ac anstatudol fel ei gilydd;
— nid yw pob ysgol yn y Brifysgol wedi cydsynio i ddarlithiau fel rhan o'r modiwlau "sgiliau astudio" yn eu cyrsiau;
— defnyddiwyd gwefan i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a gynigir ac mae'r defnydd o Fwrdd Du i'w ddatblygu yn ystod y misoedd sydd i ddod er mwyn gwella mynediad at wybodaeth;
— mae'r gallu i ryngweithio â myfyrwyr ar sail 1 i 1 yn cynorthwyo i gyfleu'r neges, sef y gellir defnyddio mesurau syml i reoli cyllidebau.

PENWYTHNOS DYFODIAID
ABERTAWE

Geiriau allweddol
Cyfarfod a Chyfarch; anerchiadau croesawu; sgyrsiau anffurfiol; myfyrwyr a rhieni; gwybodaeth; sicrwydd; cyfle rhwydweithio cymdeithasol; cyfeiriadedd; stondinau diwylliannol, ffydd a gwybodaeth; digwyddiad croesawu myfyrwyr rhyngwladol.

Nod
— croesawu myfyrwyr newydd i'r Brifysgol;
— rhoi cyfle i rieni gymryd rhan mewn digwyddiad croesawu ac i gael egwyl am luniaeth cyn dychwelyd adref;
— galluogi'r Isganghellor ac aelodau allweddol o staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i groesawu myfyrwyr a

darparu gwybodaeth allweddol iddynt;
- darparu gwybodaeth, cymorth a sicrwydd i newydd-ddyfodiaid;
- galluogi myfyrwyr newydd gyfarfod a'i gilydd a'u cynorthwyo i ymgartrefu;
- cychwyn y broses o gyfeiriadedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol newydd;
- darparu croeso dinesig i fyfyrwyr rhyngwladol newydd.

Disgrifiad/ymagwedd
Cynhelir digwyddiadau i ddyfodiaid ar y prif gampws ac ym mhentref y myfyrwyr. Gwahoddir myfyrwyr newydd a'u rhieni i'r prif gampus i gael lluniaeth am ddim ac i gymysgu ag aelodau staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Ceir anerchiadau croesawu gan yr Isganghellor, cynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr a'r Undeb Chwaraeon. Mae aelodau o staff Gwasanaethau Myfyrwyr wrth law i roi gwybodaeth a chyngor ac mae ystod o adnoddau gwybodaeth ar gael a chynigir taith o amgylch y prif gampws.

Mae'r Gwasanaeth Ymgynghori Myfyrwyr Rhyngwladol yn trefnu ffair ddiwylliannol, ffydd a gwybodaeth a theithiau lleol. Mae'r penwythnos yn dod i ben â Digwyddiad Croesawu i Fyfyrwyr Rhyngwladol ar nos Sul. Darperir bwffe ac adloniant diwylliannol a llywyddir y noson gan yr Isganghellor ac Arglwydd Faer Abertawe.

Canlyniadau a ddisgwylir
Bod myfyrwyr yn ymgartrefu'n haws a bod y trawsnewid i astudio yn Abertawe yn llyfn. Adnabyddir pryderon ac anawsterau a chânt eu cyfeirio'n briodol ar y cyfle cyntaf. Mae ystod o adnoddau gwybodaeth defnyddiol ar gael. Bod myfyrwyr yn dynodi ffynonellau priodol o gymorth yn gynnar.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Dengys adborth ar lafar gan rieni bod y digwyddiad yn rhoi cyfle derbyniol iddynt ymgysylltu â'r sefydliad, i gyfarfod ag aelodau allweddol o'r staff a theimlo sicrwydd wrth wahanu wrth y bobl ifanc y byddant yn gadael ar ôl.

Newidiadau mewn Boddhad Dyfodiaid rhwng hydref 2007 a hydref 2008:
Yr elfennau lle y bu'r gwelliant mwyaf ymhlith newydd ddyfodiaid (gwelliant mewn boddhad o 5 pwynt canrannol neu fwy):

Cyfeillion Eraill – cynnydd mewn boddhad o 14.5 pwynt canrannol
Cyfarfod ag Aelodau Staff – cynnydd mewn boddhad o 11.2 pwynt canrannol
Cyfeiriadedd Lleol – cynnydd mewn boddhad o 10.4 pwynt canrannol
Croeso – cynnydd mewn boddhad o 9.1 pwynt canrannol
Cofrestru – cynnydd mewn boddhad o 7.2 pwynt canrannol
Synnwyr o Astudio – cynnydd mewn boddhad o 6.7 pwynt canrannol
Swyddfa Ariannol – cynnydd mewn boddhad o 6.6 pwynt canrannol
Croeso Ffurfiol – cynnydd mewn boddhad o 5.6 pwynt canrannol
Cyfartaledd ynghylch Cyrraedd – cynnydd mewn boddhad o 5.7 pwynt canrannol

Yr elfennau cyrraedd lle bu'r gostyngiad mwyaf mewn lefelau boddhad (gostyngiad mewn boddhad o 5 pwynt canrannol neu fwy):

Gweithgareddau Cymdeithasol – gostyngiad mewn boddhad o 5 pwynt canrannol

---

DESG GYMORTH GLASFYFYRWYR
ABERTAWE

Geiriau allweddol
Glasfyfyrwyr, dyfodiaid, desg gymorth, croeso cynnes, wyneb cyfeillgar, rhoi gwybod, cynghori a chynorthwyo, egluro'r gweithdrefnau, teithiau ar y campws/ yn y llyfrgell/ un-i-un, man codi gwybodaeth - argraffedig ac ar lafar, atebion i 'sut wyf yn' a 'lle gallaf'.

Nod
I fod yn bresenoldeb gweladwy iawn – bod 'yno' trwy gydol penwythnos y newydd ddyfodiaid ac wythnos y Glasfyfyrwyr er mwyn croesawu pawb i Brifysgol Abertawe yn ystod dechrau'r tymor, gan gynnwys myfyrwyr newydd / rhieni / cyfeillion / perthnasau a all fod yn dod â myfyrwyr newydd i ymuno â ni.

I sgwrsio a hyrwyddo wyneb cyfeillgar (a chofiadwy) Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, i roi gwybod i bobl am ein bodolaeth (pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud) ac argaeledd ein gwasanaeth, drwy gael atebion boddhaol i unrhyw fath o ymholiad wyneb yn wyneb, waeth mor fawr neu fach y gall y broblem fod.

Disgrifiad/ymagwedd
Stondin yn un o'r safleoedd mwyaf blaenllaw yn y Brifysgol, gan sicrhau y caiff ein presenoldeb ei weld gan gymaint o bobl

ag y bo modd, gan gynnwys ymwelwyr penodol â'r ddesg a phobl sy'n mynd heibio at ei gilydd. Elwa i'r eithaf ar y cyfle i roi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau cymorth unigol, eu hargaeledd a sut y mae'r gwasanaethau yn rhyngweithio ac yn gweithio fel siop un stop (i staff yn ogystal â myfyrwyr), trwy daflenni, byrddau arddangos / posteri a stondinau arddangos.

Mae desg gwybodaeth / cymorth yno i ateb unrhyw ymholiad a cheir aelodau o'r Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr a Llysgenhadon Myfyrwyr (tua 15) a gyflogir a'u hyfforddi gennym ni ar gyfer pethau penodol a Recriwtio Myfyrwyr ar gyfer materion mwy cyffredinol yn ymwneud â'r Brifysgol. Darperir cwestiynau cyffredin a baratoir ymlaen llaw i Lysgenhadon fel rhan o'r paratoadau.

Rydym yn cysylltu â sefydliadau lleol / canolfannau croeso am ddeunyddiau "am ddim" a fydd yn denu pobl i'r stondin ond a fydd hefyd yn ddefnyddiol i fyfyrwyr, er enghraifft, Llawlyfr Bras Bychan ar Gymru, mapiau teithio eraill (trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau seiclo), blwyddiadur mur gan gynnwys cynghorion defnyddiol am ddiogelwch, rhoi alcohol arall mewn diod, larymau personol a phiniau UV gan yr Heddlu a phartneriaethau diogelwch perthnasol - mae eu haelodau staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt yn bresennol yn eu lifrau am ran fechan o'r cyfnod deng niwrnod.

Caiff llysgenhadon staff hyfforddiant arbenigol os bydd ei angen. Er enghraifft, yn ymwneud â'r nifer o fyfyrwyr anabl a dderbynnir os bydd y nifer yn uchel ar gyfer y flwyddyn honno – h.y. gweithio gyda myfyrwyr sydd â nam ar y golwg.

Rhoddir llwybrau a nodiadau ar gyfer teithiau ar y campws ac yn y llyfrgell. Fodd bynnag, mae dewis personol 'un i un' ar gael ar adegau llai prysur, h.y. bydd teithiau chwaraeon, teithiau penodol i ysgol neu gwrs ar gael ar gais.

Mae 'sut i wneud' gweithgareddau arbenigol yn digwydd yn ystod yr wythnos, er enghraifft, ymrestru - amserlenni ymrestru a gynhelir wrth y ddesg sy'n cynnwys gwybodaeth lle mae'n rhaid i fyfyrwyr fod a phryd y dylent fod yno, canllawiau ar beth fyddant yn ei wneud yn ystod y broses er mwyn sicrhau eu bod wedi cyflawni bob cam yn llwyddiannus.

Mae gosod lle yn benodol hefyd yn gweithio yn benodol ar gyfer grwpiau sy'n gweithio ochr yn ochr â chi, h.y. yr Heddlu a Phartneriaethau Diogelwch.

Man codi Pecyn Croeso ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn byw ar y campws.

Canlyniadau a ddisgwylir
Mae pawb sy'n dod i'r ddesg gymorth a / neu'n cyfarfod a'i staff yn cael ateb boddhaol (naill ai ar unwaith neu efallai yn y man ar gyfer ymholiadau mwy cymhlethes) i unrhyw gwestiwn / ymholiad sydd ganddynt ac maent yn dysgu rhywfaint am Wasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr (pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud).

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Myfyrwyr newydd yn dod nôl dro ar ôl tro yn ystod y deg diwrnod er mwyn defnyddio ac ailddefnyddio gwasanaethau'r ddesg a'r staff, i gael atebion ac i ddatrys problemau ac ymholiadau. Gwelir myfyrwyr yn symud o amgylch y campws, yn cario neu'n defnyddio ein llenyddiaeth er mwyn gweld ble i fynd. Myfyrwyr yn dod yn ôl i'r ddesg er mwyn siarad â llysgenhadon / aelodau staff ar y campws, neu'n dod i'r swyddfa i ddatgan eu diolch.

Myfyrio/effaith
Gwelwn fod yr aelodau staff sydd wrth y ddesg a newydd ddyfodiaid fel ei gilydd yn gwneud cyfeillion yn ystod yr wythnos, mae'r ffactor o deimlo'n dda yn beth ardderchog ar gyfer ysbryd y myfyrwyr newydd, gan efallai nad ydynt yn adnabod neb arall ar y campws - mae'r gwasanaeth am ddim, yn dda ar gyfer ysbryd y myfyrwyr ac nid yw'n effeithio o gwbl ar yr amgylchedd.

Mae llysgenhadon yn derbyn hyfforddiant / yn dysgu sgiliau y gallant eu defnyddio rhywle arall. Cânt weithio oriau mwy cymdeithasol a chael cyflog gwell nag y byddent yn ei gael mewn rhan fwyaf o swyddi a anelir at fyfyrwyr. Mae'n bosibl y bydd eu hymdrechion yn golygu y cânt eu hargymell i weithio ar ddigwyddiadau, neu wneud tasgau yn ystod gweddill y flwyddyn.

Dosberthir llawer o wybodaeth twristiaid, nid ar gyfer Abertawe yn unig ond ar gyfer De Cymru gyfan.

Mae cyfle gan yr Heddlu i groesawu pobl wyneb yn wyneb – gan eu gwneud yn fwy hygyrch pe bai'r angen yn codi.

Maer gan Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr gyflenwad da i lysgenhadon myfyrwyr i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r niferoedd sy'n defnyddio'n gwasanaethau yn cynyddu fesul blwyddyn ac rydym yn parhau i fod yn adran lwyddiannus a ddefnyddir yn aml ac sydd ag enw da iawn am gynnig gwasanaeth ardderchog.

Ledled Ysgol neu Gyfadran

SWYDDOGION CYSWLLT MYFYRWYR GLYNDŴR

Geiriau allweddol

Cyswllt myfyrwyr – olrhain a monitro, presenoldeb myfyrwyr, cynnydd myfyrwyr, cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr.

Cynhaliwyd y cynllun peilot cychwynnol ar gyfer Swyddogion Cyswllt Myfyrwyr ym mis Chwefror 2008 yn y maes cwricwlwm ar gyfer Amgylchedd Adeiladu, rhan o'r Ysgol Wyddoniaeth a Thechnoleg. Ym mis Gorffennaf 2008, ehangwyd y swyddogaeth i gynnwys Gwyddoniaeth a Pheirianneg. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno'r fenter hon i Ysgolion Busnes, a Chyfrifiaduraeth/Technolegau.

Nod

Nod cyswllt myfyrwyr yw sicrhau y caiff myfyrwyr eu monitro o ran presenoldeb a chyflwyno aseiniadau, er mwyn ymyrryd yn gynnar ar ran y rhai hynny a all fod yn cael anawsterau. Cyflawnir y swyddogaeth hon gan swyddog cyswllt myfyrwyr sy'n monitro presenoldeb myfyrwyr a chyflwyno aseiniadau. Y grŵp targed yw israddedigion blwyddyn gyntaf yn bennaf, ond gellir cynnwys myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn.

Disgrifiad/ymagwedd

Yn dilyn cyfweliad llwyddiannus penodwyd un unigolyn i fod yn Swyddog Cyswllt Myfyrwyr ym mis Chwefror 2008 a'i swydd yw monitro presenoldeb myfyrwyr a chysylltu â'r rhai hynny nad ydynt yn mynychu darlithiau ac sy'n methu â bodloni dyddiadau ar gyfer cyflwyno aseiniadau. Mae'r sawl a benodwyd yn gweithredu fel swyddog cyswllt rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid academaidd, ac yn ceisio sicrhau y caiff myfyrwyr eu cyfeirio at y gefnogaeth briodol, neu eu bod yn gallu cyfarfod â'r tiwtor er mwyn cael cyngor academaidd. Yn haf 2008, ehangwyd y swyddogaeth i ddarparu cynllun cefnogaeth haf i olrhain a monitro myfyrwyr 'mewn perygl' y mae'n rhaid iddynt ailgyflwyno aseiniadau neu ailsefyll arholiadau yn dilyn byrddau asesu Mehefin/Gorffennaf.

Canlyniadau a ddisgwylir

O ganlyniad i fonitro rheolaidd ac ymyrraeth gynnar, y canlyniadau a ddisgwylir yw gwelliant yng nghynnydd myfyrwyr blwyddyn gyntaf a llai o fyfyrwyr yn gorfod ailsefyll asesiadau. O'r myfyrwyr hynny y bydd yn rhaid iddynt ailsefyll arholiadau, trwy gyswllt rheolaidd, disgwylir y bydd y tebygrwydd o ddychwelyd i astudio yn cynyddu gan osgoi dadrithio a gadael.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol

Nid yw swyddogaeth cyswllt myfyrwyr wedi'i sefydlu'n ddigonol eto i allu barnu effeithiau tymor hwy ar gynnydd myfyrwyr. Er hynny, mae'r dystiolaeth o fonitro a chefnogaeth ychwanegol a wnaed yn ystod Gorffennaf/Awst 2008 yn awgrymu bod y swyddogaeth yn cael rhywfaint o effaith ar fyfyrwyr 'mewn perygl'.

Mae tystiolaeth y data yn awgrymu cydberthynas rhwng y swyddogaeth fonitro hon a'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr a ddychwelodd yn dilyn gofynion ailsefyll arholiadau neu ail-wneud blwyddyn byrddau asesu haf 2008. Ym mis Medi 2008, ymddengys y bu cynnydd o 13% (fel canran o'r nifer a ymrestrodd) yn y math hwn o fyfyriwr a ddychwelodd i astudio ail flwyddyn y cwrs. Ymddengys hefyd fod cydberthynas uniongyrchol rhwng y math o gyswllt a'r tebygrwydd bod myfyrwyr yn mynd i ddychwelyd. Monitrwyd y grŵp myfyrwyr, ac o'r rhai hynny lle bu cyswllt personol llwyddiannus a darparwyd arweiniad, dychwelodd 85% ohonynt i barhau â'u hastudiaethau, o gymharu â 51% o'r myfyrwyr hynny y cysylltwyd â hwy drwy gyfrwng e-bost, a 41% o'r myfyrwyr hynny ni allwyd cysylltu â hwy. Bydd tystiolaeth tymor hwy o ganlyniadau yn parhau i gael ei monitro.

Myfyrio/effaith

Mae swyddogaeth Cyswllt Myfyrwyr yn ddatblygiad cyfundrefnol newydd yn y brifysgol a allai fod yn fodd i bontio bwlch mewn cefnogaeth i fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i staff addysgu a gweinyddol ganolbwyntio ar eu prif swyddogaeth - aelodau staff academaidd gydag asesu addysgu ac ymchwil ac aelodau staff gweinyddol yn cefnogi'r anghenion clercaidd a chyfundrefnol hynny yn eu cyrsiau penodol. Teimlir bod y swyddogaeth cyswllt myfyrwyr yn mynd ar goll gyda'r canlyniad posibl o fyfyrwyr yn gadael cwrs yn gynnar. Cytunwyd ar yr angen am fan cyswllt cyntaf ar gyfer myfyrwyr sy'n cael trafferthion, a phan gaiff swyddogaeth y cyswllt myfyrwyr ei sefydlu gellid ei chynnwys yn rhan o'r system diwtora ar gyfer israddedigion blwyddyn gyntaf. Byddai myfyrwyr yn derbyn cyngor a'r arweiniad ychwanegol y mae ei angen a gallai'r arloesedd fod yn hanfodol i wella profiad myfyrwyr yn ogystal ag effeithio'n uniongyrchol ar lwyddiant myfyrwyr.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r swyddogaeth hon yn bellach a phenodi unigolion ym meysydd Busnes a Chyfrifiaduraeth/Technoleg Cyfathrebu.

CYDLYNIAD BLWYDDYN UN MEWN ADDYSG A DYNIAETHAU DRWY DDEFNYDDIO BLOGIAU
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
Disgwyliadau myfyrwyr, technoleg dysgu, blogiau, arfer proffesiynol, dysgu myfyriol, cyfathrebu â myfyrwyr, ymgysylltu â myfyrwyr.

Disgrifiad/ymagwedd
Gwahoddir myfyrwyr newydd sy'n mynychu lleoliadau addysgu yn bell o'r Brifysgol i gysylltu yn natblygiad dyddlyfrau myfyriol ar-lein (blogiau) ynghyd â gweddill y garfan ac aelodau o'r staff academaidd.

Canlyniadau a ddisgwylir
Yn aml, gall treulio sawl wythnos i ffwrdd o'r Brifysgol ar leoliad ac i ffwrdd o gyfeillion newydd a chefnogaeth academaidd fod yn brofiad sy'n rhoi myfyrwyr addysgu newydd dan bwysau a'u bod yn colli cyswllt a'u hamgylchedd. Nod y gweithgaredd hwn oedd defnyddio technolegau dysgu i gynnal yr awyrgylch o gr**ŵ**p cefnogol gwaeth beth yw'r rhaniadau daearyddol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Er y gobeithiwyd y byddai blogiau ar-lein (a oedd yn disodli dyddlyfrau myfyriol ysgrifenedig mwy confensiynol) yn caniatáu i bob aelod o'r garfan deimlo nad oeddent ar eu pennau eu hunain ynghylch beth oeddent yn ei wneud, teg yw dweud na ddisgwyliodd neb ar y gr**ŵ**p yn wirioneddol graddfa'r canlyniadau cadarnhaol a ddilynodd. Elwodd llawer o'r myfyrwyr ar y cyfle i rannu syniadau addysgu, pryderon, ceisio cyngor wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd ac, yn gyffredinol, mwynhau'r cyfle i drafod eu profiadau mewn amser real. Canlyniad y rhyngweithio oedd ymarfer myfyriol dyfnach na fyddai wedi digwydd fel arall. Gellir gweld gwerth y gweithgaredd yn bennaf yn y defnydd o'r dyddlyfrau fel offer dysgu ffurfiannol wedi'u rhannu yn hytrach na myfyrdod unigol ar brofiad.

Myfyrio/effaith
Caniataodd offeryn ar-lein weddol syml greu gofod democrataidd i fyfyrwyr rannu syniadau a phrofiadau cyffredin mewn modd nad oedd yn bosibl fel arfer oherwydd cyfyngiadau ar yr amser y gallent dreulio gyda'i gilydd yn y Brifysgol. Roedd myfyrwyr o gefndiroedd pwnc tebyg yn gallu rhannu syniadau mewn modd ad-hoc ac anffurfiol a wnaeth yn ddiau wella eu hymagwedd at arfer yn yr ystafell ddosbarth.

DOSBARTHIADAU SGILIAU ACADEMAIDD YN YSGOLION ADDYSG A GWYDDOR IECHYD
UWIC

Geiriau allweddol
Sgiliau Academaidd, Blwyddyn Gyntaf, Blwyddyn Sylfaen, Sgiliau Allweddol, Sgiliau Astudio, arddull academaidd, paratoi ar gyfer arholiadau, Adolygu, Dyfynnu, Cyfeirio, Gwneud cyflwyniadau effeithiol.

Sut y cyflwynwyd y fenter
Digwyddodd y fenter - gwersi ar sgiliau academaidd allweddol - yn Ysgolion Addysg a Gwyddorau Iechyd yng nghwrs sylfaenol yn cynnwys myfyrwyr amser llawn a rhan-amser o'r ddwy Ysgol a myfyrwyr Addysg Gymunedol, yr Ysgol Addysg. Lluniwyd y gwersi yn dilyn proses weddol safonol fel y dangosir yn y diagram isod.

Nod
Testunau'r gwersi oedd: dyfynnu a chyfeirio, gwneud cyflwyniadau effeithiol, adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau, ac arddull academaidd. Y nod oedd gwella ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r lefel sgiliau a ddisgwylir ganddynt mewn sefydliad Addysg Uwch, a rhoi hyder iddynt mewn meysydd sgiliau gwahanol.

Y Broses

1. Darlithydd yn cysylltu â'r tîm sgiliau academaidd
Cynhelir cyfarfod i benderfynu sut y gall y tîm fodloni'r canlyniad dymunol, e.e. a ydym yn datrys problem ddysgu, yn dysgu sgil newydd, neu'n atgyfnerthu un sy'n bodoli eisoes? Mae'r agweddau logistaidd yn cynnwys cael dyddiad a lle addas yn y cwricwlwm (fel arfer ym modiwl sgiliau astudio/ ymchwilio neu CDP).

2. Trafodir/Penderfynir y fformat priodol ar gyfer gwersi, e.e. wyneb yn wyneb, e-ddysgu, dysgu cyfunol
Unigryw neu gyfres fel y gwnaed ar gyfer Addysg Gymunedol. Amgylchiadau yn penderfynu e.e. darlithfa fawr a gr**ŵ**p mawr, lle mewn stiwdio neu ystafell ddosbarth.

3. Cynllunio
Pa ddeunydd presennol y gellir ei ddefnyddio? Llunnir y gwersi yn rhai penodol i bwnc gan ddefnyddio deunydd a ddarperir gan Arweinwyr Rhaglenni Cwrs e.e. hen waith myfyrwyr, cwestiynau arholiad, ambell waith gwneir ymchwil gan aelodau tîm sy'n ysgrifennu deunydd.

Defnyddir ymagwedd ar sail tasg bron bob tro, gan

ganolbwyntio ar ddysgwyr yn gwneud tasgau darganfod dan arweiniad ac adborth ar ôl mewnbwn byr gan yr hyfforddwr. Bydd dysgwyr bob tro yn mynd â thaflen waith wedi'i chwblhau gyda hwy i'w defnyddio yn y dyfodol: rydym yn ceisio peidio â darparu taflenni at ddibenion cyfeirio yn unig.

4. Deunydd a gyflwynwyd i'w ddilysu gan Arweinwyr Rhaglenni Cwrs.

5. Cyflwyno.

6. Adborth gan diwtoriaid/myfyrwyr
Daw hyn mewn dulliau gwahanol e.e. e-bost, gr**ŵ**p ffocws anffurfiol.

7. Penderfynu ar gyfer y dyfodol
Penderfynu p'un a ddylid defnyddio'r un wers â charfan blwyddyn nesaf, a pha welliannau y mae angen eu gwneud i'r deunydd.

8. Cadw'r deunydd yn llyfrgell ddogfennau'r tîm.
Disgrifiad/ymagwedd: Roedd yr holl wersi naill ai'n sesiynau awr neu ddwy awr, ac ar ôl cyfnod byr o addysgu gennyf i, rhannwyd y myfyrwyr mewn grwpiau i gwblhau tasgau amrywiol. Cwblhawyd y tasgau ar daflen waith yr oedd y myfyrwyr yn mynd â hi o'r sesiwn.

Canlyniadau a ddisgwylir
Gwelliant yn ansawdd y Sgiliau Academaidd a drafodwyd yn y sesiynau, ac yn yr ymwybyddiaeth ohonynt.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Prif ddangosydd y llwyddiant oedd adborth y myfyrwyr i dasgau yn y sesiynau, a oedd yn bennaf, yn gadarnhaol iawn. Fel arfer roedd y tasgau'n mynd yn anoddach drwy'r sesiwn, ac awgryma'r ffaith bod myfyrwyr yn parhau i ymateb yn dda fod eu hymwybyddiaeth a'u hyder gyda'r sgiliau fel ei gilydd yn gwella.

Myfyrio/effaith
Mae'n ymddangos nad yw llawer o'r myfyrwyr sy'n dod i Brifysgol yn gwbl gyfforddus ynghylch y sgiliau a ddisgwylir ganddynt; gall p'un a gyflwynir y sgiliau hyn iddynt mewn sesiynau wyneb-yn-wyneb amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Gall ymwybyddiaeth o'r sgiliau hyn 'o'r gwaelod i fyny' ond gwella perfformiad trwy gydol y cwrs gradd, wrth fod angen sgiliau mwy cymhleth (ymchwil a meddwl beirniadol, er enghraifft). Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymateb yn dda yn y sesiynau, ac ategir hyn gan dystiolaeth gan y tiwtoriaid sy'n gofyn i ni sefydlu'r sesiynau hyn, ac sydd, wrth gwrs, yn asesu gwaith y myfyrwyr.

Lefel Rhaglen, Cynllun neu Ddyfarniad

BSC CYNGHORI CLINIG DYSGU DILYS
MORGANNWG

Geiriau allweddol
Dysgu dilys; cydweithio; gwaith tîm; practicwm

Nod
Nod y fenter yw: "Symud tuag at ymwybyddiaeth mwy ymgorfforedig o 'gynghori' fel arfer yng nghymuned o arferion".

Beth yw Clinig Dysgu Dilys?
Amgylchedd ffug yw Clinig Dysgu Dilys a sefydlir at y diben o gynnig profiad o arfer i fyfyrwyr sy'n debyg i brofiad clinigol gwirioneddol ac sy'n isomorffig*.

(*Isomorffig o'r Roeg isos = cydradd a morph = ffurf. Golyga hyn fod y rhannau ohono a'r prosesau yn debyg o ran ffurf a pherthynas).

Pwy yw'r cleient?
Chwaraeir rhannau'r cleientiaid gan fyfyrwyr sy'n chwarae'r rôl (h.y. y rhan gymdeithasegol) a'r cymeriad (h.y. y cyflwyniad seicolegol – neu'r "elfennau meddyliol a moesol sy'n nodedig i unigol" Geiriadur Rhydychen) mewn cyd-destunau ymarfer o'u dewis eu hunain.

A yw'r myfyriwr yn defnyddio ei ddeunydd personol ei hunan?
Nac ydy.

Ond mae'r myfyriwr yn rôl y cleient yn defnyddio'i ddychymyg ei hunan ac ar sail ymchwil, mae'n defnyddio hanesion a phersonoliaeth rôl y cleient maent yn ei chwarae. Bydd y myfyriwr yn creu sefyllfaoedd yn seiliedig ar ystod o ffynonellau. Gall ymchwil yn y cyd-destun hwn olygu astudiaethau achos mewn llenyddiaeth yn ymwneud ag astudiaethau achos cleientiaid ag anawsterau yn ymwneud â themâu penodol, e.e. camddefnyddio cyffuriau ac alcohol; problemau bwyta, anawsterau mewn perthynas; neu chwedlau o gelfyddyd, llên, ffilmiau a'r teledu neu gymysgedd o brofiadau bywyd.

Pwy yw'r cynghorydd?
Y myfyriwr sy'n ymarfer yw cynghorydd. Caiff pob myfyriwr gyfle i ymarfer yn 'fyw' mewn clinig Dysgu Dilys ynghyd â'r fantais o fewnbwn gan eu tiwtor Ymarfer a'u tîm Caiff pob sesiwn eu recordio fel y gall y myfyriwr ddadansoddi ei ymarfer yn fanwl ar ôl y digwyddiad.

A asesir y CDDau?
Na.

Gweithdy dysgu yn unig yw'r CDD. Cynhelir asesiadau ar gyfer ymarfer mewn Cyflwyniadau o Achosion, sy'n digwydd ar adegau allweddol yn y cwrs (yng nghanol ac ar ddiwedd Blwyddyn Un, diwedd Blwyddyn Dau a Blwyddyn Tri). Fodd bynnag, rydym yn ffyddiog y bydd CDD yn gwella gallu'r myfyrwyr i gyflawni cyflwyniadau achos llwyddiannus.

Beth yw swyddogaeth y tîm cynghori?
Mae'r tîm cynghori yn gweithio er mwyn elwa i'r eithaf ar ddysgu'r holl grŵp. Maent yn gyfrifol am gymryd rhan yn weithredol ar yr hyn y maent yn ei arsylwi drwy fyfyrio, cwestiynau, ac awgrymiadau a thrwy wneud cysylltiadau â'r syniadau damcaniaethol ehangach yn y maes a'u dealltwriaeth hwy eu hunain o'r broses gynghori.

Beth yw swyddogaeth y tiwtor ymarfer?
Mae'r tiwtor ymarfer yn gyfrifol am reoli'r holl broses ddysgu yn gyffredinol drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan ar nifer o lefelau gwahanol mewn perthynas â'r sefyllfa gynghori. Bydd hyn yn cynnwys addasu cyfleoedd hyfforddi gyda'r sawl sy'n chwarae'r prif rannau, gan ddefnyddio technegau a fydd yn cynorthwyo'r myfyrwyr i wneud cysylltiadau rhwng yr ymarferion a'r damcaniaethau.

Canlyniadau a ddisgwylir
1. Rydym yn disgwyl y bydd gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth mwy ymgorfforedig o gynghori fel arfer sy'n rhan o gymuned o arferion sy'n cynnwys eu cleientiaid, cydweithwyr a systemau sylweddol ehangach.
2. Rydym yn disgwyl y bydd myfyrwyr wedi datblygu digon o sgil a hyder drwy gymryd rhan mewn CDDau i fod yn ymarferwr 'ddigon cymwys a diogel' yn y lleoliadau ymarfer sy'n cychwyn ym Mlwyddyn Dau.
3. Rydym yn disgwyl y bydd myfyrwyr wedi datblygu ymwybyddiaeth, sgiliau a hyder wrth chwarae eu rolau yn y timau ymarfer.
4. Rydym yn disgwyl y bydd gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth fwy trwyadl o bwysigrwydd y berthynas rhwng damcaniaeth ac ymarfer a mwy o allu i drosglwyddo sgiliau yn ymarferion cynghori.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Rydym o hyd yn y cyfnod peilot – myfyrdodau a gwerthusiadau i ddilyn.

Ar ddiwedd pob dydd, caiff y myfyrwyr gyfle i werthuso eu profiad a'u cyfranogiad eu hunain trwy ddefnyddio'r cwestiynau canllaw canlynol:

Myfyriwch ar eich profiad o gymryd rhan yn y clinig dysgu drwy ddefnyddio'r penawdau canlynol (byddwch yn benodol):
- Pa syniadau damcaniaethol y gwnaethoch sylwi arnynt i chi a'ch cyd-fyfyrwyr ei arfer heddiw? Pa syniadau damcaniaethol y byddwch am eu harchwilio yn ddyfnach er mwyn gwneud mwy o synnwyr o'ch profiad?
- Beth wnaethoch sylwi arno yn y sesiynau ynghylch sut roedd y cleientiaid a'r cynghorwyr yn ymgysylltu â'i gilydd er mwyn datblygu perthynas therapiwtig ddefnyddiol? Pa dystiolaeth o ymgysylltu y gwnaethoch ei gweld neu y cawsoch brofiad ohoni?
- Pa oblygiadau moesegol y dylid eu hystyried efallai mewn perthynas â'r sesiynau? Pa faterion yn ymwneud â gwahaniaeth ac amrywiaeth oedd yn fwyaf amlwg i chi eu bod yn weithredol yn y sesiynau, e.e. rhyw, hil? Sut y gwnaeth y rhain ymddangos eu hunain?
- Beth yw'r goblygiadau i chi o ran beth y gwnaethoch ei brofi heddiw mewn perthynas â hunanymwybyddiaeth bersonol? Pa oblygiadau y gall hyn ei gael i chi ar gyfer eich dysgu a'ch datblygiad parhaus?
- Beth wnaethoch ei sylwi arno ynghylch sut roedd y tîm yn cydweithio heddiw? Sut y gallai'r tîm barhau i ddatblygu ei hun fel tîm ymarfer a dysgu?

MODELU MATHEMATEGOL DRWY WEITHIO MEWN GRŴP
MORGANNWG

Geiriau allweddol
Modelu Mathemategol, gweithio fel tîm, datrys problemau, arweinyddiaeth, cyfathrebu, hunanfyfyrio

Anelir y modiwl hwn at fyfyrwyr mathemateg israddedig blwyddyn gyntaf. Fe'i cynlluniwyd i'w cynorthwyo â'r berthynas rhwng mathemateg haniaethol eu hastudiaethau â phroblemau'r byd go iawn, gweithio mewn timau ac i gyfathrebu eu canlyniadau i bartïon sydd â diddordeb ynddynt. Felly mae'n ymgorffori datrys problemau, gweithio mewn tîm, cyfathrebu a dyheadau gyrfa yn un modiwl a addysgir. Fel y cyfryw mae'n creu teimlad ofod yn ddysgwyr gyda'i gilydd.

Disgrifiad/ymagwedd
Mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn timau o bedwar. Gosodir pedair problem / pedwar aseiniad iddynt yn ystod y flwyddyn sydd angen amrywiaeth o dechnegau mathemategol, casglu data a sgiliau datrys problemau yn gyffredinol. Rhestrir problemau nodweddiadol isod.

Wrth weithio ar y broblem gyda'i gilydd, bydd pob myfyriwr yn ei dro yn arweinydd, ysgrifennydd, awdur yr adroddiad a chyflwynydd yn ogystal â cheisio datrys y broblem. Felly ar ôl gorffen y pedair problem bydd pob myfyriwr wedi chwarae bob rôl unwaith. Felly cânt brofiad o sut i ryngweithio ag aelodau eraill yn y tîm ac i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, negodi ac arwain a sylweddoli nad rhywbeth a wneir ar wahân i'r byd yw mathemateg.

Pan fydd aseiniad wedi'i farcio, yna bydd y grŵp yn adrodd yn ôl ynghylch sut y credant y dylai'r marciau gael eu rhannu rhyngddynt, yn unol â'u cyfraniadau unigol.

Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i aelodau o bob grŵp ddysgu cydweithio a chefnogi ei gilydd. Gall y gefnogaeth fod ar ffurf gwneud tasgau unigol ac adrodd yn ôl, neu gynorthwyo aelodau eraill o'r tîm i ddysgu. Er enghraifft, yn un o'r aseiniadau modelu, cynhwysir cryn dipyn o waith cyfrifiadurol. Bydd yr unigolyn sydd gryfaf yn y maes hwn yn cymryd yr awenau i gynorthwyo aelodau eraill y grŵp i gyrraedd y safon mewn cyfrifiaduraeth. Gan fod hyn yn berthnasol i waith mewn man arall yn y cwricwlwm, mae manteision amlwg i'r myfyrwyr eraill o ran y cymorth a gânt.

Mae grwpiau yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos yn ystod amser dosbarth ac yn aml y tu allan i hynny. Defnyddir Bwrdd Du fel storfa deunydd cyffredin a defnyddir ffonau symudol a Facebook i gyfathrebu rhwng aelodau'r grŵp. Mae aelodau'r grŵp yn dod yn gyfeillion a gallant gefnogi ei gilydd drwy gydol yr wythnos. Felly nid yw dysgu gyda'i gilydd wedi'i gyfyngu i'r ystafell ddosbarth ond mae'n rhan o'u bywyd cymdeithasol.

Ar ddiwedd y modiwl mae'n rhaid i fyfyrwyr gynhyrchu CV a llythyr cais am swyddi enghreifftiol, gan gyfeirio at eu profiadau yn y modiwl hwn o weithio mewn tîm a modelu prosiectau. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu adroddiadau byr gan fyfyrio ar eu swyddogaethau fel arweinydd, ysgrifennydd, cyflwynydd a pha mor dda y gwnaethant weithio yn y grŵp.

Problemau enghreifftiol:

— Os byddwch yn gwneud cwlwm mewn llinyn pa mor fyrrach y bydd y llinyn?
— Beth fydd yr amser cyflymaf ar gyfer rhedeg y ras 100 metr?
— Pa mor aml mae angen gwacau biniau ailgylchu'r brifysgol?
— Pa mor gyflym y gellir cael pawb allan o Bloc G pan fydd y larwm dân yn canu?
— Sut gellir cynllunio medrydd dyfnder ar gyfer tanceri olew?
— Pa mor bell wrth ei gilydd y dylid gosod goleuadau stryd?

Canlyniadau a ddisgwylir
1. Gwelliant mewn sgiliau datrys problemau
2. Gwelliant yn y gallu i weithio mewn grŵp mewn amrywiaeth o swyddogaethau
3. Y gallu i fyfyrio ar sgiliau newydd a gafwyd
4. Teimlad o berthyn i'r cwrs ac i'w cyd-fyfyrwyr
5. Y gallu i gynorthwyo cyd-fyfyrwyr yn academaidd ac yn gymdeithasol
6. I allu derbyn cymorth
7. I wneud cyfeillion
8. Dod ar draws ffyrdd o ddysgu mathemateg drwy archwilio sy'n wahanol i'r dull "gwylio ac ailadrodd" o enghreifftiau wedi'u gwneud ac ymarferion
9. Bod yn fwy effeithiol i 'werthu' eu hunain i ddarpar gyflogwyr.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
— Gwelwyd 1 ac 8 yn eu gallu i ddatrys problemau gan ddefnyddio lefel o fathemateg na fyddai fel arfer yn rhan o'u cwrs. Gwaith a gyflwynwyd;
— Gwelwyd 2 a 3 yn eu hadborth a adroddwyd. Gwaith a gyflwynwyd;
— Gwelwyd 4 yn y lefel uchel o gadw. Dim ond 1 myfyriwr allan o 39 sydd wedi gohirio.
— Gwelwyd 4 yn y lefel uchel o bresenoldeb yn y modiwl. Cofrestr y dosbarth;
— Gwelwyd 4 yn yr ystafell waith mathemateg lle mae myfyrwyr yn dewis cydweithio ar eu liwt eu hunain. Arsylwi cyffredinol;
— Gwelwyd 7 yn lefel uchel y defnydd o Facebook ac arsylwi cyffredinol ar fyfyrwyr y tu allan i'r dosbarth;
— Gwelwyd 5 a 6 yng nghyfarfodydd grŵp y dosbarth. Arsylwi cyffredinol;
— Gobeithir y gwelir 8 yn y marciau a chyfradd pasio'r modiwlau eraill;
— Gobeithir y gwelir 9 yn ansawdd y swyddi a'r lleoliadau diwydiannol a geir.

Myfyrio/effaith
Cyflwynwyd y fenter yn ystod ailddilysiad diwethaf y rhaglen Fathemateg yn 2008 ar ffurf modiwl modelu mathemateg. Fe'i cefnogwyd yn frwd gan bennaeth yr isadran a chan eraill ar y tîm ail-ddilysu. Cefais gwbl rhyddid

i ddatblygu'r modiwl a'i gadarnhau yn ystod pob cam. Cefnogwyd y cais am amser dosbarth ychwanegol yn ddiymdroi hefyd. Mae'r aelodau staff sy'n addysgu pynciau eraill wedi bod yn gefnogol o ran darparu gwybodaeth am amserlenni dysgu fel y gallai'r modiwl mathemateg gynnal aseiniadau i weddu'r cwricwlwm cyffredinol.

Mae'r ymgais i greu amgylchedd gwaith cyfeillgar â theimlad o berthyn wedi gweithio. Roedd yn amlwg i mi ddisgwyl gormod ar y rhediad cyntaf. Mae angen nodau a chynlluniau marcio mwy eglur ar gyfer manylion fel cofnodion yr ysgrifennydd a myfyrdodau Wrth i'r ail dymor fynd yn ei flaen, mae peth o'r hwyl wedi diflannu gyda'r teimlad o "rydym wedi gweld hyn oll o'r blaen". Mae angen rhai syniadau ar gyfer creu teimlad o amrywiaeth rhwng yr aseiniadau ac felly i gadw'r ffresni. Dylai un o'r aseiniadau gynnwys alldeithiau allan o'r adeilad er mwyn casglu data. Efallai y dylai aseiniad arall fod yn adolygiad o waith pobl eraill.

Mae'n amlwg y bydd angen rhywfaint bychan o gyfarpar yn y dyfodol. Os gellir cadw hwn yn yr ystafell ddosbarth sydd yr un ystafell a ddefnyddir ar gyfer y dosbarth modelu – fel mae eu hystafell "hwy" yw hon – byddai hyn yn rhoi'r canlyniad deilliedig o gwblhau eu teimlad o berthyn. Dylai "canolfan" o'r fath barhau drwy gydol eu cwrs.

Gwneuthum dangyfrifo'n llwyr faint o farcio a rhesymoli o gynhyrchion terfynol myfyrwyr y byddai eu hangen. Efallai y byddai awtomeiddio electronig o farcio cyflwyniadau gan y grŵp cymheiriaid yn gymorth ar gyfer hyn.

DATBLYGU CYMUNED YMARFER O HYFFORDDI DRWY RYGBI

MORGANNWG

Geiriau allweddol

grymuso, ymreolaeth, ymagwedd at arloesedd.

Nod

Cydnabu Dringo'n Uwch (Ionawr 2005) ei bod yn hanfodol bod plant yn cael profiadau cadarnhaol mewn gweithgareddau corfforol er mwyn sicrhau y diogelir cymryd rhan yn iach ynddynt gydol oes. Ym mis Gorffennaf 2006 gwnaeth Dringo'n Uwch - Y Camau Nesaf fanylu ar y meysydd hynny i'w targedu, gan gynnwys y swyddogaeth bwysig y gallai hyfforddwyr a chwarae wrth gyfrannu i dargedau gweithgaredd corfforol. Yn ôl y ddogfen "rhaid i ni wella ar adnabod, hyfforddi, cymhwyso a chadw hyfforddwyr" ac mae angen ar chwaraeon llwyddiannus Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol cadarn ac effeithiol er mwyn darparu'r seilwaith chwaraeon priodol. Cyflawnir hyn drwy bartneriaethau effeithiol ag awdurdodau lleol ac addysg uwch. Felly nod y bartneriaeth yw sefydlu rhaglen gynaliadwy i gynyddu'n sylweddol ar ansawdd hyfforddi rygbi ar lawr gwlad yn Rhondda Cynon Taf (RCT) ac effeithio ar weithgaredd corfforol.

Disgrifiad/Ymagwedd

Sefydlwyd partneriaeth rhwng Prifysgol Morgannwg, datblygu chwaraeon RCT, Rygbi Cymunedol Gleision "y Dyfodol" Caerdydd ac Undeb Rygbi Cymru (URC) er mwyn cynyddu cymryd rhan mewn rygbi yn RCT. Fel rhan o'u Gradd Sylfaenol mewn Hyfforddiant a Pherfformiad Rygbi, gwnaeth tri ar ddeg o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf Prifysgol Morgannwg hyn mewn saith ysgol uwchradd a'i ysgolion cynradd clwstwr (31). Grymuswyd y myfyrwyr i feddiannu'r hyfforddi yn yr ysgolion a datblygu'r cysylltiadau presennol rhwng yr ysgolion a'r clybiau. Cafodd y myfyrwyr eu mentora gan hyfforddwr addysgwr URC lefel 3 o Brifysgol Morgannwg a Swyddogion Datblygu Rygbi RCT / Gleision Caerdydd. Anogwyd athrawon yn yr ysgolion i gydweithio ochr yn ochr â'r myfyrwyr. Cyflwynwyd yr hyfforddi drwy gyfuniad o raglenni seiliedig yn yr ysgol, chwe gŵyl rygbi "Tag", Gwyliau'r Urdd a chyn-ddigwyddiadau Cwpan Rygbi Ieuenctid y Byd trwy gydol y flwyddyn.

Canlyniadau a ddisgwylir

Ein bwriad oedd gwella ar dargedau "cyfranogaeth dorfol" Gleision Caerdydd rhwng 15% ac 20% trwy gyflwyno hyfforddiant o ansawdd da i gynulleidfa lawer mwy eang nag oedd yn bodoli ar hyn o bryd yn rhanbarth RCT.

Tystiolaeth i ganlyniadau gwirioneddol

Trwy sefydlu'r gymuned hon o ymarfer hyfforddiant, cyflwynwyd hyn i dros 6,000 o blant ysgolion cynradd ac uwchradd, bechgyn a merched fel ei gilydd. Bu hyn yn gynnydd o 60% yn nifer y plant yn cael mynediad at hyfforddiant o ansawdd da a gweithgaredd corfforol drwy gyfrwng rygbi yn RCT.

Myfyrio/effaith

Mae'r gymuned ymarfer hyfforddi yn mynd i'r afael â nifer o nodau polisi a nodwyd yn Dringo'n Uwch. Mae'r gymuned hon o ymarfer hyfforddi yn amlwg yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr, plant ifanc, mentoriaid ac athrawon i ymgysylltu â dysgu yn effeithiol ac yn ystyrlon drwy gymryd rhan. Bydd y rhaglen yn parhau i ddatblygu flwyddyn nesaf gyda rhwng 20 a 25 o hyfforddwyr newydd yn dod i'r rhaglen ac yn cael eu mentora gan yr hyfforddwyr ail flwyddyn.

Proffiliau Partneriaid

"Mae'r fenter hon nid yn unig yn rhoi cymwysterau mewn Gwyddor Chwaraeon yn unig ond hefyd yr offer a'r wybodaeth a gafwyd mewn sefyllfaoedd ymarferol"
medd John Schropfer, Rheolwr Addysg Cenedlaethol Hyfforddwyr Rygbi Cymunedol, Undeb Rygbi Cymru.

"Mae hwn yn gwrs i chwaraewyr a hyfforddwyr llawn dyhead sy'n awyddus i wneud cynnydd drwy lwybrau priodol, gan roi dewisiadau iddynt o ran eu datblygiad proffesiynol. Ni fydd rhai chwaraewyr a hyfforddwyr wedi ystyried prifysgol fel dewis, ond bellach gallant ennill cymhwyster a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n un academaidd ac yn un addysg hyfforddwr. Mae hwn yn gam sylweddol i broffesiynoli hyfforddwyr yn ein cymuned."
Richard Hodges, Rheolwr Datblygu Cymuned a Hyfforddi Gleision Caerdydd.

Mentrau a gynlluniwyd i annog ymgysylltiad academaidd myfyrwyr

Ledled y sefydliad

GWEITHDAI I DDARPAR LASFYFYRWYR GLYNDŴR

Geiriau allweddol
Ymgysylltu â myfyrwyr, Sgiliau Astudio, ymgyfarwyddo, gwaith grŵp, hyder, myfyrwyr yn closio i'w gilydd

Cyflwynwyd y fenter yn wreiddiol fel rhan o'r cymorth dysgu a oedd ar gael o fewn cylch gorchwyl gwasanaethau cefnogi myfyrwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r pwyslais wedi symud tuag at wella profiadau myfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf yn ogystal â mynd i'r afael â'r agenda cyfranogi sy'n ehangu ac felly gwella cadw myfyrwyr. Mae'r gweithdai'n agored i bob darpar fyfyriwr israddedig ar ôl cadarnhau eu cynigion, ac yn cynnwys ystod eang o grwpiau myfyrwyr o Wyddoniaeth a Pheirianneg (gan gynnwys myfyrwyr yr UE) i'r rhai sy'n bwriadu dilyn cyrsiau Celf a Dylunio.

Nod
Nod y gweithdai i ddarpar lasfyfyrwyr yw darparu cyflwyniad cadarnhaol a chroesawgar i fyfyrwyr newydd i addysg uwch, a'u cyfarwyddo â gwasanaethau'r brifysgol ac â'r staff cymorth. Y flaenoriaeth allweddol yw trefnu'r gweithdai hyn cyn i fyfyrwyr ddechrau eu dewis raglen astudio, er mwyn eu helpu i adnabod y sgiliau sydd eu hangen i weithio ar lefel Addysg Uwch. Mae'r ffaith y gall cyfranogwyr gyfarfod â myfyrwyr newydd eraill yn bwysig iawn, gan ei fod yn helpu goresgyn nerfusrwydd ar y diwrnod cyntaf, a hwyluso'r trawsnewid i addysg uwch.

Y gynulleidfa a dargedir yw pob darpar fyfyriwr blwyddyn gyntaf yn dilyn cadarnhau'r cynigion.

Disgrifiad/ymagwedd
Gan fod y gweithdai'n agored i bob myfyriwr newydd, caiff y wybodaeth ynghyd â ffurflenni archebu eu cynnwys yn y pecyn

ymsefydlu a'u dosbarthu o swyddfa dderbyniadau'r brifysgol yn dilyn y canlyniadau Safon A. Cynhaliwyd tri gweithdy un diwrnod yn ystod wythnos olaf mis Awst a phythefnos cyntaf mis Medi 2008 cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

Roedd y fformat ar gyfer y gweithdai un diwrnod yn cynnwys:

Bore
- Cyflwyniadau i staff cymorth allweddol – gwasanaethau myfyrwyr – tiwtoriaid sgiliau astudio – gwasanaethau llyfrgell – llysgenhadon o fyfyrwyr;
- Gweithgareddau i dorri'r garw – "Jyglo i Fyfyrwyr" – yn galluogi myfyrwyr i ddod i adnabod ei gilydd ac i ystyried a pharatoi ar gyfer gofynion bywyd fel myfyriwr;
- Cyflwyniad i Ddehongli Gwybodaeth;
- Taith fer o gwmpas y campws sesiwn Holi ac Ateb gyda myfyrwyr sy'n llysgenhadon.

Prynhawn
- gwaith grŵp – rhannwyd y myfyrwyr yn grwpiau a buont yn gweithio ar dasg ymchwil fach a oedd yn golygu ymchwil yn y llyfrgell a chynllunio a chyflwyno'r canlyniadau i'w cyfoedion gan ddefnyddio deunyddiau a seilir yn y dosbarth;
- cyflwyniadau – cyflwynodd grwpiau unigol ymchwil yn eu dewis fformat;
- sesiwn gwerthuso ac adborth;
- Holi ac ateb gydag aelodau o'r staff.

Canlyniadau a ddisgwylir
Erbyn diwedd y gweithdai disgwylir y bydd myfyrwyr yn teimlo'n fwy cyfarwydd â'r broses o astudio mewn addysg uwch a bydd ganddynt fwy o hyder ynglŷn â dechrau eu rhaglenni gradd yn y brifysgol. Bydd myfyrwyr wedi cael mewnwelediad i fywyd prifysgol a byddant wedi dechrau datblygu ymdeimlad o fod yn perthyn i Brifysgol Glyndŵr, sy'n golygu cyfnod trawsnewid llwyddiannus.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Roedd ffurflenni gwerthuso a gwblhawyd yn dilyn y gweithdai yn darparu mesur tymor byr a thystiolaeth o gyflawni'r canlyniadau a ddisgwyliwyd. Roedd adborth gan y myfyrwyr yn hynod o gadarnhaol gyda phob ymateb yn nodi 'cytuno' a 'cytuno'n gryf' pan ofynnwyd a oedd y sesiwn yn eu helpu i fagu hyder, a oeddent yn teimlo bod croeso iddynt, ac a ddarparwyd gwybodaeth ddefnyddiol.

Dyma rai o'r sylwadau:

"roedd y staff yn gyfeillgar ac yn galonogol ynglŷn â dechrau yn y brifysgol"

"roedd yn ddefnyddiol gwybod pa staff oedd ar gael i helpu "

"rwyf yn teimlo'n llawer mwy hyderus am yr 22ain"

"roedd yn dda defnyddio'r llyfrgell a gweld sut mae'n gweithio"

"roedd y cyflwyniad yn dda - yn fy ngorfodi i ryngweithio ac i fagu hyder"

Prif nod y gweithdai i ddarpar lasfyfyrwyr yw gwella eu profiad o'r flwyddyn gyntaf ac o ganlyniad gwella'r tebygolrwydd o gadw myfyrwyr. Mesur tymor hirach o gyflawni canlyniadau yw olrhain myfyrwyr yn tynnu'n ôl a mynychiad y gweithdai er mwyn gweld a oes cydberthynas rhwng y ddau ffactor. Disgwylir y gwneir hyn rhwng mis Mai a mis Mehefin 2009 er mwyn cael mesur mwy gwrthrychol am wir effaith y gweithdai i ddarpar lasfyfyrwyr.

Myfyrio/effaith
Gall gweithdai i ddarpar lasfyfyrwyr weithio ar ddwy lefel, fel gweithgaredd un dydd a digwyddiad cymdeithasol pleserus i fyfyrwyr newydd, neu fel menter sy'n gydnabyddedig fel rhywbeth sy'n cefnogi cadw myfyrwyr. Dangosodd y ffurflenni adborth bod y digwyddiad yn bleserus i fyfyrwyr, yn ogystal â chael rhywfaint o effaith ar y cam trawsnewid i addysg uwch. Mae cyfranogiad y myfyrwyr yn y gweithdai yn hyrwyddo grymuso gan eu bod yn annog hyder am ddechrau bywyd yn y brifysgol. Roedd arsyllu'r dyddiau gweithdy'n dangos ymdeimlad cryf o ymgysylltiad y myfyrwyr, ac wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen yn dangos ymdeimlad cynyddol o ymlacio i mewn i amgylchedd y brifysgol. Cafodd hyn hefyd y canlyniad bod rhai myfyrwyr yn barod i drafod eu hanghenion cymorth eu hunain ac i wneud apwyntiadau cynnar gyda'r gwasanaethau cymorth.

Mae angen cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu'r gweithdai ac i dargedu'r myfyrwyr sy'n anoddach eu cyrraedd nad ydynt o bosibl yn cydnabod gwerth y math hwn o weithgaredd. Y bwriad yw darparu dau weithdy ychwanegol ym mis Gorffennaf 2009 er mwyn ehangu'r rhwyd ac annog myfyrwyr na fyddant fel arfer o bosibl yn mynychu'r math hwn o weithgaredd i'w fynychu.

Darparwyd gweithdai i ddarpar lasfyfyrwyr gan y Rheolwr ar gyfer Ehangu Cyfranogiad (Cadw Myfyrwyr), Y Swyddog Cyswllt ar gyfer Myfyrwyr, a thri Thiwtor Sgiliau Astudio. Er bod gwerthusiadau'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn, gellid gwella'r gweithdai ymhellach drwy gael tiwtoriaid y flwyddyn gyntaf i gymryd rhan, ac felly gwella'r broses o ymgysylltu â myfyrwyr.

CEFNOGWYR CYFOEDION – TYWYSWYR AR GYFER MYFYRWYR NEWYDD
GLYNDŴR

Geiriau allweddol
Cefnogi cyfoedion, arweiniad a chyngor, ymsefydlu, trawsnewid i Addysg Uwch

Cyflwynwyd y fenter ym mis Medi 2007 mewn meysydd pwnc detholedig lle'r oedd aelodau staff yn teimlo y byddai myfyrwyr yn elwa ar gael eu cefnogi gan eu cyfoedion. Y meysydd rhaglen sy'n cymryd rhan mewn Cefnogi Cyfoedion yw'r Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Busnes, Nyrsio, Gwyddoniaeth, a Myfyrwyr Rhyngwladol.

Nod
Nod y cynllun yw darparu arweiniad a chefnogaeth i gyfoedion ar gyfer myfyrwyr newydd yn ystod cyfnod cyntaf ymgyfarwyddo â bywyd yn y brifysgol. Y prif bwrpas yw cefnogi'r trawsnewid i addysg uwch a rhoi dechreuad cadarnhaol i'r flwyddyn gyntaf o astudio yn y brifysgol.

Disgrifiad/ymagwedd
Rôl Cefnogwr Cyfoedion yw cynnig cefnogaeth a chyngor yn ystod y cyfnod cyntaf o ymgyfarwyddo ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig newydd. Bydd y cyfnod hwn fel arfer yn parhau am rhwng chwech a deuddeg wythnos pan fydd Cefnogwyr Cyfoedion yn helpu gyda gweithgareddau ymsefydlu a dod yn rhywun adnabyddadwy i fyfyrwyr ei fynd ato.

Rôl y Cefnogwr Cyfoedion yw:
- darparu pwynt cynnar o gyswllt i fyfyrwyr ar gyfer gwybodaeth a chyngor cyn dechrau;
- gweithredu fel tywysydd i fyfyrwyr newydd am bob mater ynglŷn ag ymrestru ac ymsefydlu;
- cynghori myfyrwyr newydd ar gyfleusterau ym Mhrifysgol Glyndŵr ac ardal Wrecsam sydd o'i chwmpas;
- darparu cysylltiad rhwng myfyrwyr newydd a thiwtoriaid academaidd;
- rhoi cyngor i gyfoedion ar reoli'r amser sydd ei angen ar gyfer astudio'n effeithiol;
- chwarae rôl weithgar yn ystod yr wythnos ymsefydlu i fyfyrwyr.

Caiff cefnogwyr cyfoedion eu recriwtio ym mis Mai yn dilyn cyfres o sgyrsiau rhoi gwybodaeth o'r Rheolwr ar gyfer Ehangu Cyfranogiad i fyfyrwyr cyfredol a fydd o bosibl eisiau ystyried eu hunain ar gyfer y rôl. Bydd tiwtoriaid academaidd yn cytuno ar addasrwydd myfyrwyr ar gyfer y rôl hon.

Rhinweddau a gydnabyddir er mwyn cyflawni'r rôl hon yw:

- Personoliaeth gyfeillgar ac allblyg;
- Sgiliau cyfathrebu da;
- Dibynadwyedd;
- Symbyliad;
- Y gallu i weithio gyda phobl;
- Y gallu i fod yn synhwyrol ac yn gyfrinachol.

Caiff rhaglen hyfforddi un dydd ei chyflwyno yn gynnar ym mis Medi pan fydd Cefnogwyr Cyfoedion yn ymgymryd ag ymarferion cyfathrebu, gwaith grŵp ar astudiaethau achos, trafodaethau ar osod ffiniau a 'phethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud'. Caiff logisteg yr wythnos ymsefydlu ei chadarnhau a bydd Cefnogwyr Cyfoedion yn cysylltu â thiwtoriaid y flwyddyn gyntaf am gyfarfod â myfyrwyr newydd a gosod amserau cyfarfod a sesiynau gwybodaeth. Mae'r galw am hyd yr amser sydd ei angen ar gyfer cefnogaeth weithgar yn amrywio rhwng meysydd pwnc - mae'r galw am gefnogaeth gyfoedion ar gyfer Busnes a Gwyddor Chwaraeon yn ymddangos yn llai na'r cyfnod o gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer myfyrwyr nyrsio sy'n ymgymryd â lleoliadau ymarfer chwe wythnos ar ôl dechrau eu rhaglen. Telir ychydig bach o arian am ymgymryd â'r rôl.

Y rhesymwaith ar gyfer defnyddio cefnogaeth i gyfoedion yw y bydd myfyrwyr newydd yn llai tebygol gael eu dychryn drwy ofyn am help gan fyfyrwyr presennol yn hytrach na gan diwtoriaid academaidd.

Canlyniad a ddisgwylir
Y canlyniad a ddisgwylir yw y bydd myfyrwyr newydd yn cael trawsnewid yn llyfn i addysg uwch drwy'r gefnogaeth i gyfoedion sydd ar gael a threulio llai o amser yn ymgyfarwyddo â'u rhaglen astudio. Fel canlyniad bydd myfyrwyr yn gallu canolbwyntio ar eu hastudiaethau'n gynharach, a datblygu cyfeiriadedd cadarnhaol tuag at gwblhau eu blwyddyn gyntaf o astudio'n llwyddiannus.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae cefnogaeth i gyfoedion wedi'i sefydlu ers 18 mis ac mae adborth gan diwtoriaid yn gadarnhaol iawn am ddefnyddio myfyrwyr at y diben hwn. Ceir mwy a mwy o geisiadau i sefydlu rhagor o Gefnogwyr i Gyfoedion erbyn mis Medi 2009. Mae canlyniadau'r arolwg I-grad diweddaraf yn dangos adborth da iawn am gyfnod ymsefydlu'r brifysgol, felly gellid credu bod y cynllun yn cyfrannu at y canlyniadau llwyddiannus hynny ac felly roedd canlyniad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae defnydd Cefnogwyr i Gyfoedion y tu hwnt i'r wythnos gyntaf ar ôl dechreuad newydd yn amrywiol (fel yr amlinellir isod) felly mae'n anodd mesur effaith yr un fenter hon ar wahân.

Myfyrio/Effaith
Mae rôl Cefnogwr i Gyfoedion yn hyrwyddo ymdeimlad o rymuso ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd rhan, yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a gall ychwanegu at CVau profiad

gwaith. Gall pob Cefnogwr i Gyfoedion, drwy eu gwaith gyda gweithgareddau ymsefydlu, ddefnyddio sgiliau a enillwyd yn ystod ei hamser yn y brifysgol, yn ogystal â gweithio fel pâr ychwanegol o ddwylo ar gyfer tiwtoriaid academaidd. Bydd myfyrwyr newydd yn ceisio am gymorth a chyngor yn rheolaidd yn ystod yr wythnos ymsefydlu yn benodol gan y rhai sy'n cefnogi myfyrwyr rhyngwladol. Yn dilyn y cam ymsefydlu mae'r effaith yn llai ac ar wahân i'r myfyrwyr a oedd yn cefnogi myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr nyrsio, roedd cyfoedion a oedd yn cefnogi mewn meysydd eraill yn adrodd gostyngiad sydyn o ran yr angen am gysylltiad y tu hwnt i'r wythnos ymsefydlu. Ni wnaeth unrhyw fyfyrwyr newydd fynychu'r sesiynau cefnogi 'galw i mewn' a drefnwyd ar gyfer pedair wythnos gyntaf y tymor ym meysydd Busnes, Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag cafodd y cyfoedion a oedd yn cefnogi'r myfyrwyr nyrsio ddigon o waith ar ôl yr wythnos ymsefydlu yn darparu cymorth a chyngor i fyfyrwyr a oedd yn gosod portffolios datblygiad proffesiynol, a chyrchu gwybodaeth o'r llyfrgell. Darparwyd Cefnogwyr i Gyfoedion i fyfyrwyr rhyngwladol hefyd ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth, yn darparu cefnogaeth wrth gefn gyda gwasanaethau llyfrgelloedd a thynnu sylw Arweinwyr Rhaglenni at faterion sy'n gysylltiedig â chyrsiau.

Yn gyffredinol gwelir bod myfyrwyr sy'n ymgymryd â rôl Cefnogwr Cyfoedion, myfyrwyr sy'n cyrraedd o'r newydd a thiwtoriaid academaidd fel ei gilydd yn elwa ar y cynllun Cefnogi Cyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu at les cyffredinol myfyrwyr newydd ac yn cael yr effaith o wella profiad y flwyddyn gyntaf. Fel canlyniad, cafodd cynlluniau eu sefydlu i ehangu'r rôl hon i feysydd eraill y cwricwlwm ar gyfer mis Medi 2009 lle bo'n bosibl.

ANFON NEGESEUON TESTUN Y GWASANAETH NEGESEUON BYR
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
Disgwyliadau'r myfyrwyr, Technoleg dysgu, cyfathrebu'r myfyrwyr

Disgrifiad/ymagwedd
Wedi'i fewnosod i'r Amgylchedd Dysgu a Reolir (MLE) mae dull y gall staff academaidd a gweinyddol anfon negeseuon testun gwib trwyddo at garfannau o fyfyrwyr sydd wedi rhoi rhifau eu ffonau symudol i'r Brifysgol at y diben hwn. Y syniad, yn syml, yw dull o roi mynediad prydlon i fyfyrwyr at newidiadau mewn amserlenni neu drefniadau eraill a all wedi digwydd heb rybudd blaenorol.

Canlyniadau a ddisgwylir
Yn achos newidiadau heb eu cynllunio neu rai anochel ar fyr rybudd i drefniadau amserlenni, mae'r Brifysgol eisiau bod mewn sefyllfa i gadw rhagoriaeth o ran ei brofiad i fyfyrwyr gan alluogi myfyrwyr i osgoi siwrneiau neu oedi dianghenraid, a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf amser real yn uniongyrchol i ffonau symudol y myfyrwyr neu i'w dyfeisiadau Cynorthwywyr Digidol Personol (PDA).

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Er y caiff newidiadau i'r cwricwlwm eu hosgoi gymaint â phosibl, weithiau maent yn anochel a gall hyn fod yn rhwygol - yn enwedig i fyfyrwyr newydd. Er bod y gwasanaeth yn gymharol newydd mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran gadael i'r Brifysgol gysylltu â myfyrwyr ar fyr rybudd pan fydd y digwyddiadau hyn yn digwydd. Mae ymateb y myfyrwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn tuag at ddefnyddio'r fath dechnoleg yn hytrach na dulliau hen ffasiwn megis rhoi arwydd ar ddrws y ddarlithfa!

Myfyrio/effaith
Ychwanegwyd at y gweithgaredd hwn gan dechnoleg arall sydd ar gael o fewn ardaloedd y Brifysgol megis safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a Twitter fel dull o fethodoleg cysylltu o'r fath negeseuon gwib. Mae'r Brifysgol wedi bod yn ofalus i ddefnyddio'r gwasanaeth Negeseuon Byr ar gyfer negeseuon brys yn unig er mwyn peidio ag anghymell myfyrwyr rhag datguddio gwybodaeth cysylltu bersonol o'r fath.

COD YMARFER AR GYFER ASESU
BANGOR

Geiriau allweddol
safoni, profiad ymarfer, asesu

Y nod oedd gwella ein harferion drwy gynhyrchu cod ymarfer cynhwysfawr sy'n ymwneud ag asesu. Targedu'r holl staff a myfyrwyr (israddedigion ac ôl-raddedigion).

Disgrifiad/ymagwedd
Cynhaliwyd y gwaith gan weithgor a oedd yn adrodd i'r pwyllgorau Sicrhau Ansawdd a Dysgu ac Addysgu. Cynhaliodd adolygiad trylwyr o arferion asesu, gan ystyried yr ystod o ddisgyblaethu sydd yn y Brifysgol.

Canlyniadau a ddisgwylir
Cynhyrchwyd Cod Ymarfer a cheir tystiolaeth o lynu at y cod drwy ein prosesau monitro Sicrwydd Ansawdd.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol:
Gwelir y cod fel dogfen werthfawr sy'n hwyluso yn hytrach nag yn cyfyngu ar fentrau a datblygiadau. Roedd yn llwyddiant arbennig i gael cod sy'n ddigon hyblyg i'w wneud yn berthnasol drwy gydol y Brifysgol.

EFELYCHIAD GLAMSTART I FYFYRWYR
MORGANNWG

Geiriau allweddol
Dysgu sy'n seiliedig ar gêmau, GBL, amlgyfrwng addysgol, chwarae gêmau, efelychiad, dysgu sy'n seiliedig ar efelychiadau, ymsefydlu, chwarae rôl, cefnogaeth i fyfyrwyr

Targedodd y fenter ymgeiswyr a myfyrwyr blwyddyn gyntaf a oedd wedi ymrestru yn mynd i mewn i'r sefydliad.

Disgrifiad/ymagwedd
Gall myfyrwyr sy'n ymrestru ym Mhrifysgol Morgannwg gael mynediad at gêm efelychiad sy'n ceisio syntheseiddio'r wybodaeth ymrestru a gawsant i un proffiad. Mae GlamStart yn cynnig i ddefnyddwyr ddewis o chwaraewr sy'n fyfyriwr i'w reoli dros brofiad pum diwrnod ffug. Gwahoddir y defnyddwyr i arwain eu myfyriwr o ymgnawdoliad a cheisio ennill pwyntiau. Dyfernir pwyntiau ar gyfer ymddygiad yn y cylchoedd academaidd, cymdeithasol ac ariannol, sy'n cael ei fodelu ar ymddygiad y gwyddys ei fod yn meithrin astudio a bywyd llwyddiannus mewn addysg uwch. Mae'r ymddygiad yn cynnwys mynychu darlithoedd a thiwtorialau academaidd yn rheolaidd, astudio ychwanegol, defnyddio adnoddau addysgol, yn ogystal â defnyddio cyfleusterau hamdden a chymdeithasol. Mae digwyddiadau dyddiol yn digwydd ar hap, gan ychwanegu neu ddidynnu pwyntiau. Gellir rhoi'r cyfansymiau o bwyntiau a gronnir ar hysbysfwrdd ar ddiwedd sesiwn chwarae a chynigir gwobrau (cofbinnau USB a chrysau T brand) am roi sgôr i fyny. Mae campws ffug ar gael i'r myfyrwyr ei fforio drwy fap rhyngweithiol a gellir cael mynediad at lawer o leoliadau yn y brifysgol sy'n cynnig gwybodaeth ychwanegol, erthyglau, cwestiynau cyffredin a chyfweliadau fideo gyda myfyrwyr sy'n adrodd eu 'hanesion goroesi'.

Canlyniadau a ddisgwylir
Drwy gyflwyno gwybodaeth ymsefydlu mewn cyd-destun gêm efelychu roeddem yn disgwyl mwy o ymgysylltu â'r wybodaeth. Roeddem hefyd yn disgwyl effaith gadarnhaol ar y canfyddiad o Forgannwg fel sefydliad cefnogol, cyfoes y gellir ymddiried ynddo.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae'r prosiect wedi rhedeg am ddwy flynedd a phob blwyddyn gwnaethom gynnal holiadur. Mae canlyniad y gwerthusiad wedi dangos i ni er bod y nifer sy'n defnyddio'r gêm yn is na'r disgwyl (defnyddiodd tua 15%-20% o fyfyrwyr newydd y gêm) mae'r defnyddwyr hynny'n cymeradwyo'r gêm yn fawr. Roedd y defnyddwyr yn gweld y wybodaeth gyfeiriadedd (drwy'r map) yn arbennig o ddefnyddiol a gwnaethant fynegi hoffter am yr amgylchedd cyfoethog o ran cyfryngau a gynigwyd gan y gêm fel dull o dderbyn y math hwn o wybodaeth ymsefydlu yn hytrach na defnyddio tudalen a thestun gwefan traddodiadol yn unig.

Myfyrio/effaith
Mae'r agwedd arloesol ar ddefnyddio gêm efelychu i hyrwyddo gwybodaeth ymsefydlu yn bwysig a chafodd ei chydnabod gan y prosiect a enillodd Dyfarniad Arloesedd Cymdeithas Genedlaethol Systemau Gwybodaeth Prifysgolion a Cholegau ac EDUSERVE 2008.

Roedd y broses datblygu a ddefnyddiwyd ar y prosiect yn bwysig. Roedd y gweithgor a oedd yn llywio'r prosiect yn cynnwys staff cymorth o ystod amrywiol o adrannau yn ymgysylltu â phrofiad y flwyddyn gyntaf. Roedd y grŵp hwn yn sicrhau bod y negeseuon allweddol yn briodol ac yn gyson â rhai eu hadran eu hunain ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y prosiect. Ceir tystiolaeth o fewn ein hadborth bod y profiad o ddefnyddio'r cymhwysiad wedi annog meddwl myfyriol ar gyfer llawer o ddefnyddwyr ac adroddodd llawer o ymatebwyr eu bod wedi ystyried eu dull o wneud penderfynu a rheoli eu hamser fel canlyniad i ddefnyddio.

OFFER CEFNOGI DYSGWYR AR-LEIN
MORGANNWG

Geiriau allweddol
cyfeiriadedd, integreiddio, cadw myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr

Disgrifiad/ymagwedd
Datblygwyd dau offeryn cefnogi dysgwyr ar-lein, un ar gyfer cyfeiriadedd yn ychydig o wythnosau cyntaf y tymor (Early Days) ac un yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd i annog myfyrwyr i asesu eu lefelau o ysgogiad ac i ba raddau maent wedi integreiddio â'u hastudiaethau (Study Health Check).

Cymerwyd y cwestiynau o ystod o staff academaidd profiadol a chawsant eu llywio gan holiadur Prosiect Profiad Blwyddyn Gyntaf Yorke a Longden (2007).

Datblygwyd yr offer ar-lein drwy ddefnyddio QuestionMark Perception a roddodd y cyfle i ni roi adborth wedi'i bersonoli'n syth i'r myfyrwyr.

Canlyniadau a ddisgwylir
Rydym eisiau annog myfyrwyr i geisio am gymorth os ydynt yn teimlo y byddant yn elwa arno, yn ogystal ag i ddefnyddio'r offer i ddarparu gwybodaeth a fydd yn helpu eu cyfeiriadedd

at Addysg Uwch ac i ddatblygu arferion astudio da.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol:
Mae tua 1200 o fyfyrwyr wedi cael mynediad at y ddau offeryn cefnogi dysgwyr ac mae'r data a gasglwyd wedi ein helpu i ddeall mwy am sut mae ein myfyrwyr yn integreiddio â'u hastudiaethau ac â'u profiad yn y brifysgol.

Myfyrio/effaith
Hyd yn hyn, rydym wrth ei boddau gyda'r ffordd mae'r myfyrwyr wedi ymgysylltu â'r offer. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gydag ychydig dros 80% o'r ymatebwyr yn dweud bod yr ymarferion wedi bod yn ddefnyddiol. Mae'r lefel o fyfyrio aeddfed gan y myfyrwyr am eu hymagwedd eu hunain at eu hastudiaethau a sut y gellid gwella hyn wedi bod yn ganlyniad cadarnhaol iawn.

Mae ymagwedd y Brifysgol at annog defnydd arloesol o ddysgu a gafodd ei wella drwy dechnoleg yn sicr wedi helpu gyda'r prosiect hwn, ac felly hefyd cefnogaeth cydweithwyr yng Ngwasanaethau Dysgu a Chymorth Corfforaethol y Brifysgol.

CYNLLUN TYWYSWYR CYFOEDION
BANGOR

Geiriau allweddol
Myfyrwyr yn cefnogi Myfyrwyr; ledled y sefydliad, cymhareb uchel o recriwtio ac felly cynigir cymorth eang

I gynnig cymorth i gyfoedion i fyfyrwyr newydd wrth iddynt drawsnewid i fywyd ym Mangor. Mae'r prif bwyslais ar y cyfnod croesawu ond bydd Tywyswyr Cyfoedion yn parhau'n hirach os bydd angen.

Disgrifiad/ymagwedd
Strwythur: Mae gan y Cynllun Tywyswyr Cyfoedion strwythur deuol, hynny yw fe'i cydlynir yn ganolog fel y caiff ei adnabod fel cynllun ledled y sefydliad. Rôl y cydlynydd canolog yw cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun a sicrhau safon gweithredu ledled y sefydliad. Ymgymerir â sgrinio ymgeiswyr, hyfforddi a gwerthusiadau yn ganolog ac mae seremoni bob blwyddyn pan fydd y sefydliad yn dangos ei fod yn gwerthfawrogi gwaith caled y Tywyswyr Cyfoedion. Mae pob Tywysydd Cyfoedion yn derbyn tystysgrif a cheir dyfarniad arbennig ar gyfer Tywysydd Cyfoedion y Flwyddyn.

Yn ogystal â hyn mae cydlynydd ym mhob ysgol academaidd sy'n arwain o ran recriwtio'r Tywyswyr Cyfoedion i'r Ysgol ac sy'n dyrannu dyletswyddau i'r Tywyswyr Cyfoedion unigol ar ôl cwblhau casglu'r geirdaon a'r hyfforddi'n llwyddiannus. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r cynllun i fodloni anghenion yr ysgolion unigol.

Gweithgareddau'r Tywyswyr Cyfoedion
Mae Tywyswyr Cyfoedion yn cyfarfod â myfyrwyr newydd â'u cyfarch ar safle'r Neuaddau ac yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol gyda'r nos dros y Penwythnos Croesawu. Maent wedyn ar gael drwy gydol yr Wythnos Groesawu yn yr ysgolion academaidd yn sicrhau bod y myfyrwyr newydd yn cael hyd i'r ffordd i fynd ac yn mynychu'r holl sesiynau sydd angen iddynt wneud. Maent yn trefnu teithiau, mynd â nhw i Serendipity (y ffair glybiau a chymdeithasau) ac yn cynnig cyngor cyfeillgar ac anffurfiol lle bynnag mae ei angen. Mae'r cymorth hwn hefyd yn ymestyn i deithiau o gwmpas y dref ac amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol.

Ar ôl yr Wythnos Groesawu, mae disgwyl i Dywyswyr Cyfoedion gadw cysylltiad llacach â'r myfyrwyr newydd am 'mor hir â sydd eu hangen.' Nid yw llawer o fyfyrwyr newydd eisiau parhau ond mae niferoedd sylweddol dal i fod mewn cysylltiad â'u Tywyswyr Cyfoedion pan gynhelir y gwerthusiadau blynyddol ar ddiwedd y tymor cyntaf. Drwyddi draw, os bydd y myfyrwyr newydd yn cael problemau penodol, mae'r Tywyswyr Cyfoedion yn eu cyfeirio at gymorth mwy proffesiynol.

Mae'r Tywyswyr Cyfoedion hefyd yn helpu ar Ddiwrnodau Agored, eto drwy gynnal teithiau a rhoi persbectif myfyriwr ar fywyd ym Mangor.

Canlyniadau a ddisgwylir
Disgwylir y bydd y cynllun yn helpu i hwyluso'r broses trawsnewid ar gyfer myfyrwyr newydd. Mae hyn ynddo'i hun yn debygol o helpu i gadw myfyrwyr. Mae'r rhan mae'r Tywyswyr Cyfoedion yn ei chymryd yn y Diwrnodau Agored hefyd yn bwysig ar gyfer recriwtio.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae gwerthusiadau'n dangos lefel sy'n gyson o uchel o ran gwerthfawrogi'r Tywyswyr Cyfoedion. Er bod y ffigyrau manwl gywir yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, fel arfer gwerthusir Tywyswyr Cyfoedion i fod yn dda neu'n dda iawn gan 75% neu'n fwy o fyfyrwyr newydd. Mae Tywyswyr Cyfoedion yn rhoi cymorth i niferoedd sylweddol o fyfyrwyr sy'n cael problemau wrth ymgyfarwyddo (15%) neu sy'n meddwl am adael (20%) - fel y dywedwyd eisoes, maent yn cefnogi'r myfyrwyr hyn drwy eu cyfeirio ymlaen. Newidiwyd y gwerthusiadau cyfredol fel y bydd yn bosibl adnabod at bwy y cyfeirir y myfyrwyr newydd.

Mae tystiolaeth storïol o'r sylwadau ar yr arolygon yn awgrymu y gwerthfawrogir y Tywyswyr Cyfoedion am y ffordd y maent yn gwneud y broses ymgyfarwyddo'n haws ac mae llawer yn sôn am eu cyfeillgarwch, eu parodrwydd i wrando ac i helpu lle y gallant. Mae rhai hyd yn oed yn dweud eu bod yn 'lleddfu poen' y broses ymgyfarwyddo a cheir ambell i sylw y byddai pobl wedi gadael heb help eu Tywysydd Cyfoedion. Awgrymir hefyd bod Tywyswyr Cyfoedion yn creu argraff gadarnhaol ac i rai mae'r cynllun Tywyswyr Cyfoedion yn weddol bwysig o ran eu penderfyniad i ddewis Bangor.

Myfyrio/effaith
Mae cadw myfyrwyr yn amlwg yn fater cymhleth ac mae Tywys Cyfoedion ond yn un agwedd ar y profiad ym Mangor. Yn gyffredinol mae Bangor yn perfformio'n dda mewn perthynas â'i meincnod ac o ystyried y gwerthusiadau uchod mae'n rhesymol i ddod i'r casgliad bod Tywys Cyfoedion yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu. Yn yr un modd mae'n rhesymol i ddod i'r casgliad bod y Tywyswyr Cyfoedion hefyd yn helpu recriwtio.

Mae llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar gymorth gan bob lefel. Cefnogir y seremoni gan yr uwch Reolwyr, lleolir y Cydlynydd Canolog yn y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyfleoedd sy'n rhan o'r Gofrestrfa Academaidd a disgwylir y bydd pob ysgol academaidd yn darparu aelod o staff i weithio fel cydlynydd ar gyfer yr ysgol ac i ymgymryd â'r dyletswyddau perthnasol. Mae'r un olaf fel arfer yn aelod o'r staff academaidd ond weithiau mae'n weinyddwr ar lefel uwch.

YMSEFYDLU MYFYRWYR SYDD WEDI EU LLEOLI GARTREF
BANGOR

Geiriau allweddol
Ffurfio rhwydweithiau cefnogol; ymgysylltu'n gynnar â'r Brifysgol, meithrin ymdeimlad o gymuned a hunaniaeth.

Nod
I roi cyfle i fyfyrwyr sy'n byw gartref i ymgysylltu â'r Brifysgol ar gam cynnar; i'w helpu i sefydlu ymdeimlad o hunaniaeth gyda'r Sefydliad a chyda chyd-fyfyrwyr; i feithrin a sefydlu rhwydweithiau o gefnogaeth cyn yr Wythnos Groesawu; i oresgyn ofnau.

Disgrifiad/ymagwedd
Rydym yn cynnal digwyddiad ymsefydlu un neu ddau ddiwrnod cyn yr Wythnos Groesawu ac yn gwahodd pob myfyriwr sy'n byw gartref. Mae ein hymagwedd yn anffurfiol: ein nod yw rhoi cymaint o gyfle i fyfyrwyr gyfarfod â myfyrwyr newydd eraill yn eu Hysgol/Hadran ag sy'n bosibl fel eu bod yn dechrau ffurfio rhwydweithiau cefnogol, ac i gyfarfod â myfyrwyr presennol sydd hefyd yn byw gartref er mwyn rhoi hintiau ac awgrymiadau iddynt ar fod yn fyfyriwr gartref.

Mae gennym ddiwrnod llawn o weithgareddau nad ydynt yn seiliedig ar gyflwyniadau; mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau torri'r garw; sesiynau gwybodaeth gyda chyd-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol (tywyswyr cyfoedion); teithiau o gwmpas y Brifysgol; ffurfio grwpiau sy'n astudio yn yr un adran gyda chinio y caiff aelodau o staff eu gwahodd iddo; sesiynau holi ac ateb; cyngor am arian. Ar y rhaglen ymsefydlu dau ddiwrnod rydym hefyd wedi cynnwys sesiynau a arweinir gan staff cynghori 'gartref ond nid yn unig' (menter sy'n dilyn arweinyddiaeth y prosiect Trawsnewid a Chadw Myfyrwyr (STAR)) a staff gyrfaoedd.

Caiff Undeb y Myfyrwyr eu gwahodd, a'r llynedd cynlluniwyd y digwyddiad gan fyfyriwr gartref presennol, a oedd yn defnyddio ei phrofiadau ei hun i baratoi'r rhaglen; ar ôl cael y digwyddiad yn ddefnyddiol iawn iddi hi ei hun, roedd yn awyddus i gymryd rhan.

Canlyniadau a ddisgwylir
Arolwg o fyfyrwyr a oedd wedi gadael a gynhaliwyd bedair blynedd yn ôl, ac a roddodd tystiolaeth i ni fod myfyrwyr sy'n byw gartref yn teimlo bod ganddynt lai o gysylltiad â'r Brifysgol na'u cyfoedion, a bod ganddynt lawer llai o wybodaeth am y gwasanaethau a darpariaeth gymorth (megis y ddarpariaeth sgiliau astudio) sydd ar gael iddynt. Roedd hefyd yn ymddangos nad oedd ganddynt rwydweithiau cefnogol o gyd-fyfyrwyr. Dyfeisiwyd y rhaglen i fynd i'r afael â'r materion hyn; i helpu ffurfio rhwydweithiau cefnogol; i gynyddu gwybodaeth am y Brifysgol, ei chyfleusterau a'i darpariaeth Cefnogi Myfyrwyr; i leihau pryder. Er nad yw cyfraddau cadw myfyrwyr yn bryder penodol i'r Brifysgol, mae gwella cyfraddau cadw myfyrwyr ar gyfer y grŵp hwn yn ganlyniad a ddisgwylir.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Cynhaliwyd gwerthusiadau bob blwyddyn gyda llawer o adborth cadarnhaol; caiff achosion o fyfyrwyr yn gadael eu monitro. Cynhelir gwaith dilynol eleni drwy grwpiau ffocws groups.

Mae adborth gan fyfyrwyr yn dangos y cafodd cyfeillgarwch gwerthfawr a rhwydweithiau cefnogol dros y diwrnodau hyn, sydd wedi parhau drwy gydol cyrsiau'r myfyrwyr. Mae presenoldeb yn nigwyddiadau pellach e.e. sesiynau

myfyrwyr hŷn wedi bod llawer yn uwch; mae gwybodaeth am ac ymgysylltiad â gwasanaethau cefnogi myfyrwyr megis cynghori yn uwch ymhlith y grŵp hwn nag o'r blaen.

Wedi nodi bod myfyrwyr gartref yn ymddangos yn unig mewn digwyddiadau yn ystod yr wythnos croesawu - mae staff academaidd a gweinyddwyr ysgol yn adrodd bod y rhai a fynychodd y sesiwn ymsefydlu nawr wedi ffurfio cysylltiadau cynnar ac maent wedi'u hymgysylltu'n fwy.

Myfyrio/effaith
Mae'r digwyddiad ymsefydlu cyn ymuno ar gyfer myfyrwyr gartref wedi cael effaith sylweddol yn ein tyb ni o ran lleddfu ofnau a phryderon astudio yn y Brifysgol ar gyfer y grŵp hwn o fyfyrwyr; sydd yn fyfyrwyr hŷn yn bennaf. Mae wedi eu helpu i ffurfio rhwydweithiau cefnogol cyn dechrau'r tymor, sydd yn aml yn parhau drwy gydol eu cyrsiau; mae wedi cael effaith fawr ar eu gwybodaeth o'r Brifysgol a'i chyfleusterau.

CDP AR GYFER MYFYRWYR ISRADDEDIG
BANGOR

Geiriau allweddol
portffolio, myfyrio, gweithio mewn grwpiau bach

Nod
Cynrychiolwyr myfyrwyr Blwyddyn 1 o bedair gradd wahanol – Gwyddor Chwaraeon (Gweithgareddau Awyr Agored), Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol (SHAPE), Gwyddor Chwaraeon (SS) a Gwyddor Chwaraeon ac Addysg Gorfforol SS(PE).

Disgrifiad/ymagwedd
Cymryd rhan mewn cynllun peilot CDP y Brifysgol i fyfyrio ar y set sgiliau cyfredol a nodau yn ystod Tymor 1 a 2 gyda myfyrio ac adolygiad ar ôl pob tymor. Gellir cael hyd i fwy o wybodaeth ar y fenter hon ar y wiki.

Canlyniadau a ddisgwylir
Gweld a yw sgiliau wedi gwella dros gyfnod y flwyddyn academaidd; cymharu'r cynllun peilot CDP hwn â modiwl CDP presennol yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
I'w penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd

Myfyrio/effaith
I'w penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd

TIWTORIAETH BERSONOL – TYSTYSGRIF MEWN CEFNOGI MYFYRWYR
ABERYSTWYTH

Geiriau allweddol
Cefnogi Myfyrwyr

Disgrifiad/ymagwedd
Rhaglen hyfforddi achrededig ar gyfer aelodau staff anacademaidd (ond yn agored i'r holl staff), i ddatblygu arfer da o ran cefnogi myfyrwyr. Targedwyd hyfforddi a datblygu yn y maes hwn yn draddodiadol at diwtoriaid personol academaidd neu at weithwyr proffesiynol yn y maes Cefnogi Myfyrwyr, fodd bynnag mae'n bosibl na fydd yr ymyriadau hyn ar gael yn syth i fyfyriwr sy'n wynebu anawsterau.

Mae'r rhaglen "Cefnogi Myfyrwyr" yn adeiladu arfer gorau presennol ac yn annog staff i fyfyrio a datblygu eu hymagweddau at gefnogi anghenion poblogaeth fyfyrwyr amrywiol a gellir ei theilwra at ofynion rôl unigol.

Cynllunnir y rhaglen ar gyfer aelodau o staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n "wynebu'r myfyrwyr". Ei nod yw darparu trosolwg eang o gefnogi materion myfyrwyr o fewn Prifysgol Aberystwyth a'r sector addysg uwch.

Alinir y rhaglen hon â chenhadaeth a chynllun corfforaethol y Brifysgol, yn ogystal â'r strategaeth dysgu ac addysgu, a chafodd ei llywio gan faterion ledled y sector megis cefnogi, trawsnewid, recriwtio a chadw myfyrwyr.

Cafodd y rhaglen ei meincnodi yn erbyn gwerthoedd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Safonau Proffesiynol a'r Gymdeithas Staff a Datblygiad Addysgol (SEDA) a chafodd ei datblygu ar y cyd â Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Hefyd cafodd y rhaglen ei hachredu gan Brifysgol Aberystwyth drwy'r Fframwaith Addysg Gydol Oes. Rydym yn credu mai dyma'r rhaglen ffurfiol gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig i gael ei hanelu at staff anacademaidd.

Canlyniadau a ddisgwylir
Y bwriad yw ar ôl i'r rhaglen gael ei chwblhau'n llwyddiannus, bydd staff mewn sefyllfa i ddeall yr ystod eang o faterion a all godi wrth gefnogi myfyrwyr a byddant yn gallu cyfeirio'r myfyrwyr at y gwasanaeth ymyrryd priodol.

Bydd staff yn fwy ymwybodol o fyfyrwyr a'r materion a all effeithio ar eu profiad yn y brifysgol ac yn cydnabod yr angen, lle bo'n briodol, i wrando arnynt neu eu cyfeirio at wasanaeth ymyrryd priodol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Dim ond yn ddiweddar mae'r rhaglen wedi dechrau felly ni ellir cadarnhau'r canlyniadau gwirioneddol eto. Fodd bynnag, o fewn deuddydd o hysbysebu'r argaeledd roedd y cwrs wedi'i lenwi. O fewn ychydig rhagor o ddyddiau roedd y nifer oedd â diddordeb wedi cynyddu cymaint fel bod gennym restr aros i lenwi dau gwrs pellach. Mae hyn yn dangos y diddordeb gan staff o ran datblygu a gwella sgiliau yn y maes hwn.

PROSIECT DISGWYLIADAU MYFYRWYR A STAFF
UWIC

Nod
Nod yr arolwg peilot hwn oedd casglu barn myfyrwyr a staff o ran disgwyliadau myfyrwyr ar ymuno ag addysg uwch. I helpu UWIC i ddod o hyd i ffyrdd o reoli disgwyliadau a gwella profiadau myfyrwyr y flwyddyn gyntaf, a fydd yn y pen draw yn cael effaith ar lefelau o fodlonrwydd myfyrwyr.

Disgrifiad/ymagwedd
Ym mis Tachwedd 2008, cynhaliodd yr Uned Datblygiad Dysgu ac Addysgu arolwg peilot ar ddisgwyliadau myfyrwyr ar-lein, yn seiliedig ar y we er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddisgwyliadau myfyrwyr wrth iddynt gyrraedd addysg uwch. Hefyd cynhaliwyd arolwg ochr yn ochr ag ef am bersbectifau staff ar fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Nodwyd cwestiynau yn dilyn ymchwil desg i arolygon tebyg a gynhaliwyd mewn mannau eraill. Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y setiau o gwestiynau i fyfyrwyr a staff ar yr un materion.

Canolbwyntiodd y materion ar:

- wybodaeth cyn ymuno;
- parodrwydd a chymhelliant y myfyrwyr ar gyfer astudio;
- ymsefydlu a'r wythnos gyntaf;
- gweithgareddau dysgu ac addysgu yn ystod yr wyth wythnos gyntaf;
- cynrychiolaeth y myfyrwyr;
- adnabod ffactorau ar gyfer profiad myfyriwr blwyddyn gyntaf llwyddiannus.

Canlyniadau a ddisgwylir
I gynhyrchu data cymharol sy'n ymwneud â phersbectifau myfyrwyr a staff ar faterion dysgu ac addysgu ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Denodd arolwg y myfyrwyr nifer fawr o sylwadau agored. Caiff y data ansoddol a gynhyrchwyd gan yr arolwg ei goladu i adroddiadau manwl i Ysgolion ac Unedau ar gyfer camau pellach.

Myfyrio/effaith
Caiff y data ansoddol a meintiol a gafodd ei gynhyrchu gan yr arolygon ei goladu i adroddiadau manwl i Ysgolion ac Unedau i helpu gyda:-

- Hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau datblygiad proffesiynol ar ymsefydlu ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn gyntaf;
- Ymgysylltiad y myfyrwyr â chynllunio gweithredol a'u dylanwad arno. Bydd Undeb Myfyrwyr UWIC a Chynrychiolwyr y Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn trafod canlyniadau'r arolygon a chynhyrchu taflen cynghori/tudalen ar y we ar gyfer myfyrwyr newydd;
- Dylanwadu ar a chefnogi gwaith gweithgorau sefydliadol allweddol (e.e. Grŵp Croesawu Wythnos Un UWIC sy'n trefnu rhaglen o ddigwyddiadau cychwynnol ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn gyntaf);
- Helpu gyda marchnata rhaglenni'n gywir;
- Dylanwadu ar ymwybyddiaeth o hawliau, gwasanaethau a chymorth dysgu i fyfyrwyr.

YSTAFELL DDYDDIADUR UWIC
UWIC

Geiriau allweddol
Llais Myfyrwyr, disgwyliadau myfyrwyr, dull ymchwil arloesol, clipiau fideo, datblygu staff

Nod
Cyflwynwyd cysyniad yr ystafell ddyddiadur i geisio osgoi gorlwytho'r myfyrwyr ag arolygon, i geisio annog ymatebion mwy agored a manwl gan fyfyrwyr na fyddai'n ymateb i ddull arolygu traddodiadol. I gael y myfyrwyr i ymgysylltu â'r broses werthuso drwy ddefnyddio dulliau a fyddai'n gyfarwydd iddynt o feysydd diwylliant modern/pop. Y gobaith oedd y byddai'n cynhyrchu dull a fyddai'n cael effaith gref o ran cyflwyno'r canlyniadau i adael i'r canfyddiadau allweddol ddod i'r amlwg. Byddai hyn yn ei dro'n caniatáu creu cynlluniau gweithredu mwy manwl a'r holl staff yn prynu i mewn i'r materion dan sylw.

Disgrifiad/ymagwedd
Defnyddiwyd llawer o ddulliau o gyfathrebu rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr i'w hysbysu am y prosiect gan gynnwys papur newyddion y myfyrwyr, 'Retro', defnyddio llysgenhadon o fyfyrwyr i ddosbarthu taflenni ar ddiwrnod yr ystafell ddyddiadur ac i annog y myfyrwyr i gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ystafell ddyddiadur ar y pedwar campws i gyd (deuddydd yr un) a chyflwynwyd y cwestiynau i'r myfyrwyr drwy ryngwyneb gliniadur a gynlluniwyd gan y Swyddog Datblygu Dysgu (Arbenigwr y Cyfryngau). Gofynnwyd 8 cwestiwn i'r myfyrwyr ar feysydd o bryder strategol cyfredol e.e. tiwtoriaeth bersonol, CDP, asesu ac adborth. Gofynnwyd i'r myfyrwyr i gyd lofnodi ffurflen cydsynio yn caniatáu i'r clipiau gael eu defnyddio at ddibenion Dysgu ac Addysgu yn y dyfodol ac a hoffent gystadlu mewn raffl i ennill £50.

Canlyniadau a ddisgwylir
Ffordd newydd o glywed llais y myfyrwyr, cynhyrchu clipiau gweledol a ellid eu defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd ar gyfer staff a myfyrwyr, ymateb ledled y campws.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Aeth dros 100 o fyfyrwyr i mewn i'r ystafell ddyddiadur o nifer o raglenni gwahanol, cynhyrchodd hyn dros 10 awr o recordiadau i'w dadansoddi. Cafwyd nifer o geisiadau gan staff i ddefnyddio'r clipiau fideo ar gyfer gweithgareddau niferus gan gynnwys yn ystod yr wythnos ymsefydlu i ddangos yr hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl. Gwnaed sylwadau bod y sylwadau ansoddol yn ddefnyddiol iawn gan gyfarwyddwyr rhaglenni wrth iddynt ddadansoddi ac ailgynllunio eu rhaglenni. Defnyddiwyd y clipiau fel rhan o sesiynau trafod datblygiad staff.

Myfyrio/effaith
wedi ei chynnal ar y dechrau fel cynllun peilot cynhaliwyd yr ystafell ddyddiadur unwaith eto ac ar adeg wahanol y flwyddyn gyda chanolbwynt gwahanol i'r cwestiynau. Mae hi wedi denu myfyrwyr nad oeddem yn disgwyl eu denu – e.e. myfyrwyr rhyngwladol ac mae hi wedi darparu digonedd o ddata ansoddol. Roedd hyrwyddo ac amseru'n hanfodol i lwyddiant y prosiect ac felly hefyd eglurder y cwestiynau. Drwy gydol yr holl broses roedd cynnwys cyrff y myfyrwyr a'r myfyrwyr eu hunain yn hanfodol i'r llwyddiant ac mae'n bwysig cofio cau'r ddolen adborth a rhoi gwybod i'r rhai a gymerodd ran am ganlyniadau eu hymdrechion. Bydd yn parhau i redeg ddwywaith y flwyddyn ochr yn ochr â mentrau eraill cyhyd â bod y myfyrwyr yn parhau i fynd i mewn i'r ystafell ddyddiadur. Cafodd ei rhagbrofi hefyd ar gyfer y staff.

FFORYMAU CEFNOGI DYSGWYR
Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Geiriau allweddol
arweiniad, gwneud dechreuad, trefnu eich hun yn barod i astudio

Cynigwyd y fforymau trafod canlynol fel cynlluniau peilot a gynlluniwyd i ddod o hyd i'r model gorau ar gyfer fforymau yn y dyfodol. Er enghraifft, ni chynigwyd y fforymau gwneud dechreuad a dewis cwrs i bob myfyriwr ond i fyfyrwyr a oedd yn astudio meysydd pwnc penodol.

Fforymau gwneud dechreuad:
— dechrau astudio Gwyddor Gymdeithasol neu Fusnes
— dechrau astudio Gwyddoniaeth neu Dechnoleg
— dechrau astudio Ieithoedd

Fforymau ar gyfer myfyrwyr ag anableddau:
— trefnu eich hun ar gyfer astudio

Cadw i fyny â fforymau astudio:
— awgrymiadau astudio ar gyfer myfyrwyr y Celfyddydau

Fforymau dewis cwrs:
— dewis eich cwrs Hanes
— dewis eich cwrs Cymdeithaseg neu Bolisi Cymdeithasol

Nod
Mae fforymau ar gael i bob myfyriwr cofrestredig ond bwriedir y fforymau 'Gwneud Dechreuad yn arbennig ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau Lefel 1.

Disgrifiad/ymagwedd
Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu ystod o fforymau cyngor drwy gydol y flwyddyn. Bydd y rhan fwyaf o fforymau'n rhedeg am tua mis. Ar ôl hyn maent yn aros ar gael fel fforymau i'w darllen yn unig am tua blwyddyn. Gall myfyrwyr ond rhoi neges i fyny tra bydd y fforymau ar agor. Caiff pob fforwm ei safoni gan gynghorwyr a thiwtoriaid profiadol a gwahoddir myfyrwyr i:

— siarad â myfyrwyr eraill
— gofyn am gyngor gan diwtoriaid profiadol y Brifysgol Agored
— darganfod mwy am gymuned y Brifysgol Agored o fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr
— darganfod mwy am wasanaethau ar-lein y Brifysgol Agored megis llyfrgell y Brifysgol Agored.

Caiff y rhain eu hatodi gan wefan Cychwyn Arni: www.open.ac.uk/learning/induction/undergraduate/index-home.php

Canlyniadau a ddisgwylir
Y gobaith yw y bydd ymwneud â'r fforymau hyn yn annog myfyrwyr i ymgysylltu â'r broses o ddysgu o bell o gam cynnar yn eu hastudio. Nid yn unig gall myfyrwyr elwa ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad arbenigol gan staff sy'n gweithredu fel cymedrolwyr, gallant hefyd ennill cymorth cyfoedion gan fyfyrwyr eraill.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Cymerodd dros 10,000 o fyfyrwyr ran mewn fforymau Cefnogi Dysgwyr yn 2008. Gwnaeth y rhai a gymerodd ran werthfawrogi'r help gan y staff cynghori a'r cymorth gan y myfyrwyr eraill. Mae sampl o fyfyrwyr a gymerodd ran yn cael ei ddilyn i weld a yw'n ymddangos bod unrhyw gysylltiad rhwng cyfranogi a chynnydd ar y cwrs.

Myfyrio/effaith:
Mae'r fforymau'n creu awyrgylch sy'n grymuso'r myfyriwr i ofyn cwestiynau ac yn creu ymdeimlad o gymuned a chefnogaeth y naill i'r llall wrth i fyfyrwyr gyfnewid profiadau ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol i'w gilydd.

FFORYMAU GYRFAOEDD A WIKIS
Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Geiriau allweddol
fforwm, cynllunio gyrfa, cyngor ac arweiniad

Nod
Mae Fforymau a Wikis ar gael ar gyfer pob myfyriwr cofrestredig a'r nod yw:

- gwneud gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yn hygyrch ddydd a nos i fyfyrwyr sy'n rheoli eu hastudio ochr yn ochr â'u bywydau prysur. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yn aml yn gweithio'n amser llawn ac/neu'n ymdopi â theuluoedd ac mae fforwm ar-lein yn eu galluogi i ofyn cwestiynau a chael mynediad at yr atebion ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy;
- annog myfyrwyr i feddwl am eu dewisiadau gyrfa yn gynnar yn eu cyfnod astudio – mae llawer o fyfyrwyr yn dweud wrthym eu bod yn edifarhau nad oeddent wedi dechrau ar eu cynllunio yn gynharach;
- codi proffil Y Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd.

Disgrifiad/ymagwedd
Cynigir fforwm ar-lein i fyfyrwyr gyfrannu ato am gyfnod o fis. Wedyn gellir ei ddarllen yn unig am gyfnod o flwyddyn. Cânt eu safoni bob amser gan Gynghorydd Gyrfaoedd cymwysedig i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael y cyngor a'r arweiniad mwyaf cywir. Cynigir y fforymau mewn gwahanol ffyrdd:

- Ar feysydd gyrfa penodol, e.e. mynd i mewn i Addysgu neu'r Gyfraith;
- Mae defnyddio Cyflogwyr i ateb ymholiadau'r myfyrwyr wedi ein galluogi i ddyblygu mor agos â phosibl y cyfle i gyfarfod â chyflogwyr wyneb yn wyneb a gynigir gan brifysgolion campws ac mae hyn wedi profi i fod yn effeithiol iawn;
- Cafodd fforymau'n seiliedig ar bwnc hefyd eu cynnig sy'n helpu'r myfyrwyr i weld pa ddewisiadau sy'n agored iddynt mewn maes pwnc penodol. Ariennir y rhain gan Ganolfan Gymorth Integredig wedi'i Phersonoli y Brifysgol Agored ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu (PILS CETL);
- Mae Wikis ar ysgrifennu CVau a Gwirfoddoli hefyd wedi bod yn boblogaidd ac maent yn rhoi'r cyfle i wneud cysylltiad o'n gwefan ni i'r adnoddau hyn, sy'n gwneud y wefan yn fwy dynamig.

Canlyniadau a ddisgwylir
- Caiff ymholiadau sydyn y myfyrwyr eu hateb yn fwy effeithlon nag y byddent pe bai'r myfyrwyr yn gwneud apwyntiad. Lle bo'n briodol ar gyfer ymholiadau mwy cymhleth caiff myfyrwyr eu cyfeirio at y cynghorwr gyrfaoedd yn eu canolfan rhanbarth neu genedl hwy ar gyfer cyfweliad arweiniad llawn;
- Mae llawer o fyfyrwyr yn dweud wrthym, drwy fynd at y fforymau maent wedi dod o hyd i gwestiynau a oedd ganddynt eisoes a hefyd i rai nad oeddent yn gwybod bod angen iddynt eu gofyn;
- Gall cynnwys a gynhyrchir ddod yn adnawdd ar gyfer cyhoeddiadau gyrfaoedd a deunyddiau gwe yn y dyfodol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol:
- Myfyrwyr yn rhyngweithio â Chynghorwyr Gyrfaoedd;
- Myfyrwyr yn rhyngweithio â myfyrwyr eraill;
- Astudiaethau achos o fyfyrwyr yn dod yn ôl gyda'u hanesion o 'lwyddiant';
- Ymwelodd10,000 o fyfyrwyr â fforymau yn 2008;
- Ymwelodd dros 4400 o fyfyrwyr fforwm ar Ddechrau Addysgu ym mis Tachwedd 2008;
- Ail yn y categori dyfarniad TGCh yn 2007 gan Gymdeithas Gwasanaethau Cynghori ar Yrfaoedd i Raddedigion;
- Mae myfyrwyr yn tueddu i fod yn gadarnhaol iawn o ran eu hadborth.

Myfyrio/effaith
Mae cymryd rhan yn y Fforymau a'r Wikis wedi cael effaith ar gymuned y Brifysgol Agored mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft:

- gwnaeth alluogi a grymuso myfyrwyr i wneud eu hymchwil eu hunain ac i ystyried gyrfaoedd yn gynnar yn eu cyfnod o astudio gyda'r Brifysgol Agored;
- darparodd datblygiad staff da ar gyfer safonwyr;

— roedd yn ddefnyddiol i ddangos i staff academaidd y maint a'r math o gwestiynau ar yrfaoedd mae eu myfyrwyr yn eu gofyn;
— rhoddodd ysgogiad ar gyfer gwneud cysylltiadau â chyflogwyr. Mae hefyd yn helpu i addysgu'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y fforymau am ein poblogaeth fyfyrwyr;
— gwnaeth y Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd yn fwy hygyrch ar gyfer poblogaeth fyfyrwyr amrywiol;
— gwnaeth ein galluogi ni i ddarparu adnodd cyfredol i fyfyrwyr gael mynediad ato ar ôl cau'r fforwm i ymholiadau pellach;
— helpodd i godi proffil y gwasanaeth;
— paratôdd y ffordd i feysydd eraill o Wasanaethau i Fyfyrwyr gynnig fforymau i fyfyrwyr yn seiliedig ar lwyddiannau'r fforymau gyrfaoedd.

CYMORTH RHAGWEITHIOL I FYFYRWYR
Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Geiriau allweddol
Cymorth Rhagweithiol i Fyfyrwyr (PaSS), croeso, cymhelliant, anogaeth, sgiliau astudio, parodrwydd i astudio

Nod
Targedir myfyrwyr ledled y DU a nodwyd fel rhai 'bregus' gan fodel ystadegol y Brifysgol ar gyfer cymorth ychwanegol cyn i'w cyrsiau ddechrau. Mae meini prawf ar gyfer eu dethol yn cynnwys: myfyrwyr ar eu cyrsiau cyntaf yn y Brifysgol Agored, myfyrwyr o dan 25 oed, myfyrwyr heb unrhyw gymwysterau addysgol blaenorol, myfyrwyr sy'n derbyn dyfarniad ariannol. Fodd bynnag, yng Nghymru, cafodd hyn ei ymestyn i bob myfyriwr newydd, boed iddynt gael eu hystyried yn 'fregus' neu beidio.

Disgrifiad/ymagwedd
Rhoddir galwad ffôn rhagweithiol i fyfyrwyr sy'n newydd i'r Brifysgol Agored ac sy'n cael eu gweld yn 'fregus' o ran rhoi'r gorau i'w cyrsiau, i'w cyflwyno i wasanaethau Cymorth i Ddysgwyr ac i'w hannog i feddwl am ffyrdd effeithiol o ymdrin â'r cwrs. Mae Cynghorwyr Arbenigol yn cysylltu â'r myfyrwyr i roi'r cyfle iddynt drafod eu cymhelliant ar gyfer astudio, unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddechrau'r cwrs ac i drafod y system Rhith-amgylchedd Dysgu gyda hwy. Mae cwestiynau'n cynnwys:

— A ydych wedi derbyn eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar gyfer y cyfrifiadur?
— A ydych wedi logio ymlaen i StudentHome (Rhith-amgylchedd Dysgu'r Brifysgol Agored)?
— A ydych wedi derbyn eich holl ddeunyddiau cwrs?
— A oes gennych unrhyw gwestiynau penodol am agwedd TG eich cwrs?
— A gaf i wirio bod yr holl fanylion cysylltu sydd gennym i chi'n gywir?
— A oes unrhyw beth y gallaf eich helpu gydag ef?

Mae'r cyswllt hwn yn gweithredu fel system rhybuddio brys sy'n ein galluogi i adnabod unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fyfyrwyr o bosibl a hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'r broses ddysgu o bell o'r cychwyn cyntaf. Yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, rydym wedi ymestyn y cyswllt hwn i bob myfyriwr newydd, boed iddynt gael eu hystyried yn fregus neu beidio mewn ymgais i gynyddu cadw myfyrwyr.

Canlyniadau a ddisgwylir
Mae'n annog myfyrwyr i feddwl am sut maent yn mynd i ymdrin â'u hastudio'n gynnar a'u paratoi yn well i astudio gyda'r Brifysgol Agored. Mae'r math hwn o gyswllt rhagweithiol hefyd yn meithrin perthynas â Chymorth i Ddysgwyr sy'n annog y myfyrwyr i gysylltu â ni os aiff rhywbeth o'i le. Cynlluniwyd hyn i gyd i gynyddu cadw myfyrwyr a gwneud cynnydd gyda hwy.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Ers cyflwyno gwaith PaSS yn 2004, mae cadw myfyrwyr wedi cynyddu 7% ledled y Brifysgol Agored yn ei chyfanrwydd.

Yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, cynyddodd cadw myfyrwyr 3% rhwng 2003/04 a 2005/06.

Myfyrio/effaith
Mae'r math hwn o gyswllt hefyd yn helpu myfyrwyr sy'n astudio o bell i deimlo'n rhan o'r sefydliad gan y gall astudio'n rhan-amser o bell deimlo'n weddol unig.

Y nod yw canolbwyntio ar gymorth i fyfyrwyr o'r cychwyn cyntaf i greu dysgwyr ymreolaethol sy'n hapus i gysylltu â'r sefydliad wrth i broblemau godi.

HYFFORDDIANT LLYFRGELL AR-LEIN
Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Geiriau allweddol
Elluminate, Llyfrgell, hyfforddiant ar-lein

Nod
I ddarparu dewis arall i'r sesiwn ymsefydlu a hyfforddi wyneb yn wyneb yn y llyfrgell y caech pe baech yn fyfyriwr neu'n aelod o staff mewn prifysgol gampws 'draddodiadol'.

Disgrifiad/ymagwedd
Mae Gwasanaethau Llyfrgell yn cynnig rhaglen o sesiynau hyfforddi ar-lein cydamserol i holl staff a myfyrwyr y

Brifysgol Agored gan ddefnyddio'r offeryn gwegynadledda Elluminate Live!

Dechreuodd y rhaglen hon ym mis Tachwedd 2008 ac mae hi erbyn hyn yn cynnwys y sesiynau canlynol:

- Cyflwyno Myfyrwyr i Wasanaethau Llyfrgell;
- Cyflwyno Darlithwyr Cyswllt i Wasanaethau Llyfrgell;
- Sut i ddod o hyd i e-gyfnodolyn;
- Sut i sefydlu rhybuddion e-gyfnodolion;
- Sut i roi nod tudalen cymdeithasol;
- Sut i ddod o hyd i wybodaeth yn leithoedd;
- Sut i ddod o hyd i wybodaeth yn Busnes a Rheolaeth.

Mae rhagor o sesiynau'n cael eu datblygu a'u hintegreiddio i'r rhaglen. Ers mis Tachwedd, 2008 cynigiwyd 18 o sesiynau ac mae 109 o fyfyrwyr ac 8 o aelodau staff wedi eu mynychu. O'r myfyrwyr a fynychodd, mae 40% ohonynt ar gyrsiau lefel gyntaf ac mae dros chwarter yn astudio yn y Brifysgol Agored o'r newydd.

Canlyniadau a ddisgwylir
Bydd y myfyrwyr a'r staff yn dysgu am yr adnoddau a gynigir gennym drwy'r llyfrgell ar-lein a byddant yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r adnoddau wrth iddynt astudio/ysgrifennu cyrsiau/ gwneud ymchwil/addysgu.

Byddant yn darganfod yr ystod eang o wasanaethau a gynigir gennym, yn enwedig y cynllun Mynediad SCONUL sy'n galluogi myfyrwyr y Brifysgol Agored i gael mynediad at lyfrgelloedd prifysgolion eraill a chael benthyg llyfrau am ddim. Mae'r myfyrwyr a'r staff hefyd yn cael gwybodaeth am yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt drwy Ddesg Gymorth y Llyfrgell.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Atebodd 91% o'r myfyrwyr a fynychodd y digwyddiad 'Yn bendant' i'r cwestiwn 'A fyddech yn argymell y digwyddiad hwn i fyfyrwyr eraill?'

Dyma rai enghreifftiau o adborth ansoddol gan fyfyrwyr:

Mae'r tiwtorialau hyn yn syniad mor wych – maent wir yn ddefnyddiol.

Roeddwn eisiau diolch i chi am gynnal y sesiwn ar-lein hon. Mwynheais yn fawr ac rwyf yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn sesiynau yn y dyfodol. Erbyn hyn mae gennyf well gwerthfawrogiad o'r gwahaniaethau rhwng e-gyfnodolion a chronfeydd data a sut y trosglwyddir y wybodaeth.

Diolch am diwtorial llyfrgell y Brifysgol Agored – mae'n drueni na fyddai wedi dod yn gynharach oherwydd byddai wedi osgoi cymaint o'r oriau rhwystredig a dreuliais i.

Sicrhaodd traddodi clir, cryno a chyfeillgar y cyflawnwyd yr holl amcanion a bod y cyfranogwyr wedi'u hysgogi'n dda i ymchwilio i wasanaethau llyfrgell ar-lein y Brifysgol Agored ymhellach.

Mae hyn wir yn bwysig. Mae angen i holl fyfyrwyr y Brifysgol Agored ddechrau defnyddio adnoddau'r Llyfrgell, ond doeddwn i ddim wir yn gwybod sut i fynd atyn nhw o'r blaen.

Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn – yn gyflymach ac yn fwy diddorol na darllen trwy'r arweinlyfrau.

Dylai hyn fod yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob myfyriwr newydd.

Gwelais fod y sesiwn yn ddefnyddiol iawn ac yn werth treulio awr arni. Roedd cael Steve yn dangos i ni sut i wneud cais am fynediad llyfrgell yn llyfrgelloedd prifysgolion lleol hefyd yn ddefnyddiol.

Sylw mewn fforwm cwrs: "Gwnes i gwrs llyfrgell ddoe ac roedd yn ddefnyddiol iawn. Gallwch gofrestru yn y llyfrgell, mae am ddim ac ar-lein ac rwyf yn ei argymell yn gryf. Dim ond awr a hanner o'ch amser mae'n cymryd"

Byddwn hefyd yn anfon ffurflenni gwerthuso dilynol cyn hir. Mae'r ffurflenni hyn yn gofyn i gyfranogwyr werthuso effaith bosibl y sesiwn hyfforddi a dangos a ydynt wedi defnyddio unrhyw un o'r adnoddau neu'r gwasanaethau y soniwyd amdanynt.

Myfyrio/effaith
Efallai nad yw ein myfyrwyr, sy'n brin o amser, yn ymwybodol bod ganddynt fynediad at lyfrgell ar-lein ragorol oherwydd mae llawer ohonynt nad oes gofyn iddynt ymgysylltu â hi yn eu cyrsiau. Mae'r cyrsiau hyfforddi hyn, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth, hefyd yn rhoi hyder a sgiliau i'r myfyrwyr ddefnyddio adnoddau llyfrgell ar-lein drostynt eu hunain.

GWEFAN SGILIAU AR GYFER ASTUDIO YN Y BRIFYSGOL AGORED
Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Geiriau allweddol
sgiliau astudio, dysgu o bell, magu hyder, rheoli straen, paratoi ar gyfer arholiadau, defnyddio Saesneg academaidd

Nod
Nod y wefan hon yw gweithio fel adnodd sgiliau astudio ar gyfer myfyrwyr a thiwtoriaid y Brifysgol Agored. Mae gan yr holl fyfyrwyr fynediad at hyn, ond mae'n arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n astudio ar lefel 1.

Disgrifiad/ymagwedd:
Mae'r wefan (www.open.ac.uk/skillsforstudy) yn cynnwys ystod o ddeunydd sgiliau astudio sydd wedi'i gynllunio i helpu myfyrwyr ddatblygu sgiliau astudio yn y meysydd canlynol:

— Aseiniadau;
— Adolygu, arholiadau ac asesu;
— Saesneg ar gyfer dysgu;
— Datblygu strategaethau astudio effeithiol;
— Meddwl, darllen a gwneud nodiadau;
— Gweithio gydag eraill;
— Defnyddio mathemateg ac ystadegau wrth astudio.

Gall myfyrwyr lawrlwytho copïau o'r 'pecynnau cymorth' hyn neu ofyn am gopïau caled oddi wrth Wasanaethau Myfyrwyr. Mae ymarferion yn cynnwys 'ysgrifennu yn eich geiriau eich hun', 'pum cam i ddarllen yn well' a gweithgareddau iaith Saesneg. Gweir myfyrwyr yn ymwybodol o argaeledd yr adnoddau hyn drwy'r tîm cymorth i ddysgwyr yn y swyddfa yng Nghaerdydd, o'u tudalennau cofnodion myfyrwyr ar-lein (sef Student Home) ac yn arbennig drwy adrannau ymsefydlu/paratoi eu deunyddiau cwrs.

Canlyniadau a ddisgwylir
Anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r gweithgareddau hyn i ychwanegu at eu dysgu. Cyfeirir myfyrwyr sy'n cael anawsterau mewn meysydd penodol at yr adnoddau hyn gan eu tiwtoriaid a chan staff Gwasanaethau Myfyrwyr.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae myfyrwyr yn adrodd eu bod yn gweld yr adnoddau hyn yn hynod o ddefnyddiol, ond nid oes unrhyw ddadansoddiad ansoddol/meintiol ar gael.

Myfyrio/effaith
Cynllunnir pecynnau cymorth fel adnoddau ar gyfer astudio'n breifat. Mae hyn yn annog myfyrwyr i arbrofi gyda gwahanol strategaethau astudio i ddarganfod beth sy'n gweithio orau iddynt hwy ac i greu dysgwyr ymreolaethol.

MENTORA CYFOEDION
UWIC

Geiriau allweddol
Mentora cyfoedion, cymorth i fyfyrwyr, cydlyniad grwpiau

Nod
I ddatblygu system a fyddai'n darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y myfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf sydd o bosibl â chwestiynau am eu cyrsiau ac am fywyd fel myfyrwyr yn gyffredinol a hefyd creu mwy o gydlynu ac ymgysylltu ymhlith y gwahanol grwpiau blwyddyn ar y rhaglen.

Disgrifiad/ymagwedd
Aeth y tîm darlithio BSc (Anrh) mewn Seicoleg at yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu yn dilyn cyflwyniad a wnaed ar ddefnyddio mentora cyfoedion a'r materion y gallai helpu gyda hwy. Mae ganddynt dderbyniad mawr ar gyfer y flwyddyn gyntaf a thros 120 o fyfyrwyr yn aml yn mynychu darlithoedd. Roeddent eisiau cyflwyno system a fyddai'n caniatáu mwy o ymgysylltu ymhlith y myfyrwyr ag eraill ar y cwrs o fewn y flwyddyn gyntaf a hefyd yn yr ail a'r drydedd flwyddyn a darparu cyfeiriad ychwanegol at y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o fewn UWIC. Roedd y mentoriaid i gyd yn yr ail flwyddyn neu'r drydedd ac aethant trwy brynhawn o hyfforddi ar sgiliau cyfathrebu ayyb. Aseiniwyd grŵp tiwtorial iddynt i gyd i'w fentora a gwnaethant gyfarfod â'r myfyrwyr yn ystod eu hail ddiwrnod yn y Brifysgol i gael sesiwn holi ac ateb am fywyd fel myfyriwr. Gellid cysylltu â'r mentoriaid drwy e-bost a ffôn (os oedd y myfyriwr yn dymuno rhoi'r wybodaeth hon allan). Rhoddwyd hefyd le iddynt ar y Byrddau Trafod Seicoleg o fewn Blackboard i fyfyrwyr cael gofyn cwestiynau wrth i'r tymor fynd yn ei flaen. Roeddent hefyd yn cymryd rhan mewn trefnu digwyddiad cymdeithasol ar ddechrau'r flwyddyn.

Canlyniadau a ddisgwylir
Mwy o gydlyniad ymhlith y garfan newydd o fyfyrwyr a phorthladd galw ychwanegol ar gyfer myfyriwr os ydynt yn cael unrhyw anawsterau gydag ochr academaidd neu ochr gymdeithasol bywyd yn y brifysgol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Erbyn hyn sefydlwyd system y gellir ei rhedeg o flwyddyn i flwyddyn y gall yr holl fyfyrwyr ymgysylltu â hi ac sy'n ymdrin â materion cymdeithasol ac academaidd. Roedd y myfyrwyr yn teimlo'n fwy abl i siarad ag aelodau eraill eu cwrs ac roeddent yn teimlo y gallent ofyn i fyfyrwyr eraill am gyngor pan na fyddent o reidrwydd yn siarad ag aelod o staff.

Myfyrio/effaith
Roedd yn bwysig cael cydbwysedd rhwng cynllun ffurfiol iawn ac un anffurfiol. Roedd y myfyrwyr yn mwynhau cwrdd â'r myfyrwyr ar ddechrau'r wythnos gyntaf a gofyn cwestiynau efallai na fyddai darlithwyr yn gallu eu hateb. Roedd y digwyddiad cymdeithasol hefyd yn helpu'r grwpiau blwyddyn gwahanol i gymysgu. Cyflwynwyd defnydd y bwrdd ar ôl y cam peilot gan fod y myfyrwyr yn gofyn am le lle gallent roi cwestiynau i fyny i'w cael eu hateb a'u datblygu gan y myfyrwyr i gyd boed yn ymwneud â darn o waith neu ble i gael help gyda phroblem.

Ledled yr Ysgol neu'r Gyfadran

MECANWEITHIAU CEFNOGI MYFYRWYR
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
Disgwyliadau'r myfyrwyr, Modiwlau cyffredin, arfer a sgiliau proffesiynol

Disgrifiad/ymagwedd
Mae'r Ysgol Iechyd a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn cynnal modiwlau craidd ar gyfer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf i gyd sy'n cynnwys nid yn unig cyflwyniad cynnar i Ymchwil (ac felly'n cyflwyno "stori" ehangach Addysg Uwch iddynt) ond hefyd Sgiliau ar gyfer Amgylcheddau Proffesiynol – sy'n helpu myfyrwyr newydd werthfawrogi'r sgiliau y bydd angen arnynt i ddatblygu a dod yn fyfyrwyr llwyddiannus a dysgwyr annibynnol. Ochr yn ochr â'r ymagwedd hon, mae gwerthusiad cynhwysfawr o brofiadau myfyrwyr newydd yn nhrydedd wythnos y tymor cyntaf yn bwriadu canfod arwyddion cynnar o anawsterau a'r angen am gymorth pellach.

Canlyniadau a ddisgwylir
Mewn maes sydd â phwyslais ar arfer proffesiynol, anogir myfyrwyr ar gam cynnar i roi eu hastudio yng nghyd-destun darlun ehangach gyda'r bwriad o'u helpu i ddeall pam y strwythurwyd eu cyrsiau yn y fath ffordd, a sut y bydd hyn yn eu helpu i wneud cynnydd ar y llwybr gyrfaol a ddewiswyd ganddynt.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae gwerthusiadau'r myfyrwyr o'r modiwlau cyffredin dan sylw wedi bod yn gadarnhaol iawn ond mae'n anodd penderfynu a yw lefelau o ymgysylltu wedi cynyddu oherwydd hyn yn unig gan fod llawer o fentrau cadarnhaol ar y gweill ar yr un pryd o fewn yr Ysgol a'r Brifysgol. Fodd bynnag, mae'n deg i ddweud bod yr adolygiad yn y drydedd wythnos wedi amlygu sawl achos o gymorth ychwanegol mae'n bosibl na fyddai wedi cael ei ganfod pe na bai'r broses wedi'i sefydlu.

Myfyrio/effaith
Mae adeiladu hyder cynnar ar gyfer myfyrwyr sy'n ymwneud â disgyblaethau sy'n gysylltiedig ag arfer proffesiynol yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bodlonrwydd drwy gydol rhaglenni ymdrechgar iawn. Mae'r gweithgaredd hwn yn cyflawni hyn ond yn galluogi myfyrwyr i ddod yn gyfarwydd â myfyrwyr eraill mewn meysydd disgyblaeth tebyg.

ETHOS YSGOL AR GYFER MYFYRWYR Y FLWYDDYN GYNTAF
CASNEWYDD

Geiriau allweddol
Disgwyliadau'r myfyrwyr, creu cymunedau, cyfathrebu myfyrwyr, ymgysylltu'r myfyrwyr

Disgrifiad/ymagwedd
Gwahoddir holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf ar raglen Ffotograffiaeth Ddogfennol i fynychu digwyddiad preswyl cyfeirio ac adeiladu cymunedau am ddwy noson i ffwrdd o'r campws yn ystod y tymor cyntaf.

Canlyniadau a ddisgwylir
Y canlyniad a fwriedir yw cynhyrchu ysbryd y grŵp o'r cychwyn cyntaf wrth i fyfyrwyr gymryd rhan yn y rhaglen astudio academaidd fawreddog hon.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers sefydlu'r arfer hwn, mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr wedi llwyddo i fynychu (ar eu cost eu hunain) gyda'r canlyniad o sefydlu cysylltiad agos rhwng y myfyrwyr gyda'i gilydd a chyda'r staff academaidd sy'n cynnal y rhaglen astudio hon sydd yn aml yn ymdrechgar ac o dan bwysau.

Myfyrio/effaith
Mae natur y gweithgaredd hwn nid yn unig wedi cynorthwyo'n fawr gydag ymgysylltiad y myfyrwyr â'u hastudio – ond ynddo ei hun mae wedi bytholi'r canfyddiad mawreddog sy'n cyd-fynd â'r cwrs arobryn hwn. Er nad yw efallai'n bosibl gyda charfannau mwy, gwelir yr ymagwedd hon gan bawb fel dull rhagorol o baratoi myfyrwyr i weithio'n galed fel grŵp tuag at nod o lwyddiant personol a grŵp ac i fytholi enw'r rhaglen sy'n enwog yn rhyngwladol.

PORTFFOLIO O SGILIAU ACADEMAIDD
BANGOR

Geiriau allweddol
sgiliau addysg uwch generig

Disgrifiad/ymagwedd
— Dysgu mewn grwpiau bach (25) sydd wedi'i gynllunio i wella sgiliau academaidd sylfaenol sy'n drosglwyddadwy ac a fydd yn cynnal sgiliau dysgu mewn modiwlau eraill;
— Yn gysylltiedig â'r modiwl JXH1018 Materion

Chwaraeon, Ymarfer Corff a Gweithgareddau Awyr Agored ar gyfer gweithdai ar Ddarllen ac Ysgrifennu Academaidd. Mae testunau traethawd ar gael ar y wiki;
— Yn gysylltiedig â'r system Tiwtor Personol/Mentor;
— Mae amlinelliad o'r modiwl ar gael ar y wiki.

Canlyniadau a ddisgwylir
— Wedi cwblhau'r modiwl bydd y myfyrwyr wedi cael dealltwriaeth o'r sgiliau academaidd sydd eu hangen ar gyfer gradd BSc;
— Adnabod pobl sydd "mewn perygl" neu sy'n "gyflawnwyr uchel" a'u cyfeirio at ddosbarthiadau sgiliau astudio neu ddosbarthiadau meistr priodol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
— Roedd y myfyrwyr yn mwynhau cysylltu'r modiwl Materion gan ei fod yn gysylltiedig â'u gradd ac nid yn generig felly roeddent yn uniaethu'n haws gyda'r testunau traethawd;
— Roedd rhai myfyrwyr a oedd "mewn perygl" yn cael y darlithoedd yn anodd ond roedd y cyflawnwyr uchel yn teimlo bod rhai dosbarthiadau'n rhy hawdd felly weithiau roedd yn anodd cael cydbwysedd.

Myfyrio/effaith
— Weithiau mae'n anodd i diwtor y modiwl ei gyflwyno oherwydd lefelau gallu amrywiol yn enwedig os mai dim ond mewn un ddarlith roedd y pwnc yn cael ei gyflwyno.

CDP YN DEFNYDDIO WEB 2.0
UWIC

Geiriau allweddol
CDP, Rhith-amgylchedd dysgu, Porth Myfyrwyr, Myfyrio, Tiwtor Personol, Adborth, E-bortffolio

Nod
I ymgysylltu holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Chwaraeon Caerdydd mewn proses CDP.

Disgrifiad/ymagwedd
Rhoddwyd cyfarwyddiadau i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf ar sut i greu eu ffolder CDP Blwyddyn 1 o fewn eu safle porth myfyrwyr. Wedyn gwnaeth y myfyrwyr alluogi i'w tiwtor personol gael mynediad at y ffolder hwn. Wedyn crëwyd cysylltiad blog o Blackboard i'w ffolder porth myfyrwyr y mae dim ond y tiwtor personol a'r myfyriwr yn cael mynediad ato.

Ers sefydlu'r ffolder hwn, mae'r holl fyfyrwyr wedi bod yn cyflwyno gwaith yn uniongyrchol i'r ffolder porth myfyrwyr, gan gynnwys eu myfyrdodau ar eu profiad yn y Brifysgol.

Mae tiwtoriaid personol yn cael mynediad at y ffolderi unigol er mwyn edrych arnynt a hefyd er mwyn rhoi adborth i bob myfyriwr.

Canlyniadau a ddisgwylir
Dyma'r flwyddyn gyntaf i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf greu e-bortffolio. Y canlyniad ar gyfer y portffolio hwn yw bod holl waith y myfyrwyr yn hygyrch yn uniongyrchol i'w tiwtor personol ac mae hefyd yn ardal i diwtoriaid personol roi adborth yn uniongyrchol i fyfyrwyr unigol.

Hefyd dyma'r fenter gyntaf i ddefnyddio technoleg i wella'r broses hon, hyd yma cofnodwyd pob portffolio ar fformat papur.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol:
Cafodd y cynllun peilot hwn groeso gan y myfyrwyr a'r staff fel ei gilydd. Y nod cyffredinol yw ehangu'r model hwn i gynnwys holl fyfyrwyr yr ail flwyddyn, y drydedd flwyddyn a myfyrwyr ôl-raddedig Ysgol Chwaraeon Caerdydd. Mae defnyddio blog sy'n cysylltu â phorth y myfyrwyr yn fenter newydd a llwyddiannus.

Myfyrio/effaith
Mae porth y myfyrwyr yn galluogi preifatrwydd llwyr ar gyfer pob myfyriwr unigol. Mae pob myfyriwr yn rhoi caniatâd i'w diwtor personol ymgysylltu â'u ffolder penodol. Mae hyn yn rhoi hyder llawn i'r myfyriwr bod eu gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae'r model hwn hefyd yn rhoi offeryn i'r myfyrwyr y gellir ei ddilyn drwy gydol eu blynyddoedd sydd i ddod yn y Brifysgol. Wedi iddynt gwblhau eu cwrs, bydd y myfyrwyr yn gallu cael mynediad at eu cyfrif myfyriwr am fis arall i roi amser ychwanegol iddynt ei arbed profiad Prifysgol llawn y myfyrwyr i ffurf arall o storio.

PODLEDIAD FIDEO O SESIWN YMSEFYDLU YN Y LLYFRGELL
UWIC

Geiriau allweddol
Llyfrgell, Ymsefydlu, YouTube

Nod
Oherwydd diffyg staff ar y pryd roeddem yn ymwybodol na fyddai'n sesiwn ymsefydlu o "gerdded a siarad" o gwmpas y llyfrgell yn bosibl. Hefyd, roedd niferoedd y rhai

a oedd yn mynychu wedi bod yn disgyn dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd llai o geisiadau yn cael eu gwneud gan y staff addysgu am y math hwn o ddigwyddiad. At hynny, rydym yn gwybod, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, caiff glasfyfyrwyr eu peledu gan bob math o wybodaeth y maent yn cael eu dadsensiteiddio'n gyflym iddi.

Penderfynom gadw'r "cerdded a siarad" ond ei grynhoi a'i roi ar-lein drwy ddolen o Hafan y Llyfrgell i . Roeddem eisiau ei gadw at 5 munud fan bellaf gan y teimlwn mai dyna am ba mor hir y byddai myfyriwr yn fodlon eistedd o flaen sesiwn ymsefydlu yn y llyfrgell! Ac roeddem eisiau ymdrin â nid yn unig daearyddiaeth sylfaenol ein llyfrgell, ond hefyd yr holl wybodaeth sylfaenol i ddefnyddwyr; yr hyn sydd ei angen arnoch i gael benthyg llyfr, sut i chwilio am lyfr, ble i fynd wedi i chi ddod o hyd iddo, sawl eitem y gallwch ei fenthyca, ble i ddod o hyd i staff i wneud ymholiadau, dirwyon(!), ayyb. Drwy ddefnyddio'r pethau sylfaenol, yn amlwg roedd yn golygu y gallai'r fideo hefyd fod o rywfaint o ddefnydd i fyfyrwyr ar safleoedd eraill: byddai'r ddaearyddiaeth yn wahanol, ond byddai'r holl elfennau eraill a drafodir yr un peth yn union.

Disgrifiad/ymagwedd

Roeddem eisiau defnyddio un o'n Cynorthwywyr Gwybodaeth Cyfnod Penodol i chwarae rôl y "myfyriwr" gan mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fyfyrwyr eu hunain sy'n gweithio'n rhan-amser yn y llyfrgell yn rhoi llyfrau ar y silffoedd ayyb. yn ystod yr oriau agor gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r myfyriwr sy'n gwylio weld ei hun yn gwneud yr un tasgau.

Sgerbwd y sgript oedd yr un a ddefnyddiwyd o'r blaen i wneud yr hen sesiynau ymsefydlu; yn marcio'r holl bwyntiau pwysicach a mwy perthnasol er mwyn caniatáu i'r myfyriwr gychwyn arni yn y llyfrgell. Eto gwnaethom y penderfyniad yn gynnar i beidio â chynnwys gormod o fanylion dwys am adnoddau, e-gyfnodolion, basau data eraill ayyb. Fel arfer daw'r wybodaeth hon yn ddiweddarach pan fydd y myfyrwyr yn dechrau cynllunio ar gyfer eu haseiniadau cyntaf - eto roedd hyn oherwydd cadw at amser cyfyngedig ond hefyd oherwydd peidio â thaflu gormod o wybodaeth at y myfyrwyr newydd yn rhy gynnar!

Ar ôl i ni lunio drafft a oedd yn ymdrin â phopeth yr oedd ei angen arnom o bersbectif y llyfrgell, buom yn gweithio gydag Ade Clark o'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu er mwyn ei droi'n rhywbeth a fyddai'n gwneud synnwyr ar ffilm. Dilynodd nifer o ddrafftiau eraill ond roedd y cyfan yn eithaf syml. Dim ond un diwrnod cymerodd y ffilmio, ac roedd angen ail ddiwrnod ar gyfer golygu, ychwanegu cerddoriaeth ac ychydig o luniau eraill, a dyna'r cwbl. Roedd uwchlwytho'r ffilm orffenedig i YouTube yr un mor syml hefyd. Ar ôl i chi agor cyfrif am ddim, gallwch chi roi unrhyw ffilmiau a wnewch yna, ychwanegu eich metadata a'ch disgrifiadau eich hun ac rydych chi wedi gorffen.

Canlyniadau a ddisgwylir

Ein gobaith ar y dechrau oedd y byddai mwy o'r myfyriwr yn ei weld nag a fyddai wedi cerdded trwy ein drws pe baem wedi aros gyda'r hen daith gorfforol brofedig o gwmpas y llyfrgell. Byddai unrhyw beth yn fwy na hynny'n fonws.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol

Mae YouTube yn cofnodi pob ymweliad ac yn caniatáu i ymwelwyr wneud sylwadau ar yr hyn maent wedi ei weld. Cafodd y fideo ei uwchlwytho mewn pryd am ddechrau'r flwyddyn academaidd, ac erbyn y Nadolig, sef cyfnod o un tymor, roedd dros 1,000 o bobl wedi ymweld a gwylio'r fideo! Yn bendant roedd hynny'n fwy nag y byddai wedi dod trwy'r drws i'n hen sesiynau ymsefydlu. Cafodd y fideo hwn ei uwchlwytho ym mis Medi 2007, mae dros 4,000 o bobl wedi ei weld ac rydym wedi derbyn pedair seren!

Myfyrio/effaith

Fel gyda phopeth mae'r fideo ychydig allan o ddydd yn barod, ac ar gael yn Saesneg yn unig. Yn ffodus mae'r myfyriwr yn y fideo yn gweithio gyda ni o hyd ac yn medru'r Gymraeg felly gellir goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn. Mae newidiadau i'r oriau agor hefyd wedi bod (maent wedi ymestyn bellach) ac i ddiogelwch (bellach mae gennym systemau a chardiau cloi newydd).

Ond mae'r wybodaeth sylfaenol i gyd yn gywir. Roedd hyn yn syniad byrfyfyr, a wnaeth ddwyn ffrwyth yn eithaf rhwydd, ond mae wedi profi i fod yn llwyddiant aruthrol. Yn awr mae angen i ni wneud amser i Ade ddod yn ôl atom i ddiweddaru a lansio "Sesiwn Ymsefydlu Llyfrgell Colchester Ave 2.0".

Lefel Rhaglen, Cynllun neu Ddyfarniad

CYFLOGADWYEDD A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL
MORGANNWG

Geiriau allweddol
Sgiliau, cyflogadwyedd, datblygiad personol a phroffesiynol.

Cyd-destun ar gyfer y fenter
Darperir y fenter fel modiwl ar flwyddyn 1 y rhaglenni Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) a'r Dystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) ym meysydd rheoli a busnes. Mae ei chynulleidfaoedd targed felly'n fyfyrwyr HND/HNC blwyddyn gyntaf fel newydd ddyfodiaid i'r amgylchedd Addysg Uwch.

Nod
Nod cyffredinol y modiwl yw datblygu sgiliau allweddol sy'n cynnal astudio academaidd a chyflogadwyedd, drwy ddatblygiad personol a phroffesiynol pellach.

Disgrifiad/ymagwedd:
Yn bennaf mae'r modiwl am fyfyrwyr yn rheoli eu datblygiad academaidd eu hunain yn gynnar, ac yn penderfynu drostynt eu hunain pa agweddau ar y sgiliau astudio sy'n cynnal eu modiwlau eraill sy'n benodol i bynciau yr hoffent ei datblygu ymhellach, dros gyfnod y flwyddyn. I gefnogi hyn, mae'r modiwl yn asesu eu sgiliau wrth ymuno yn gynnar, drwy weithgareddau hunanddiagnostig a chyfweliad un i un, ac yn gofyn i'r myfyrwyr restru meysydd ar gyfer gwella dros y flwyddyn i ddod. Mae llawlyfr y modiwl yn cynnwys ymarferion a gweithgareddau sy'n cynnal ac yn atgyfnerthu'r sesiwn gweithdy wythnosol sy'n seiliedig ar sgiliau yn gynyddol yn ogystal â darparu elfennau ar gyfer eu portffolio sy'n datblygu, sy'n cael ei asesu eu hunan fel rhan o aseiniadau 2 a 3. Ar ddiwedd y modiwl, ar ôl cwblhau gweithgareddau o rifedd a chyfathrebu sylfaenol i ddatrys problemau, ymchwil a meddwl creadigol uwch, mae'r myfyrwyr yn cyflwyno traethawd myfyriol sy'n ystyried eu datblygiad dros y flwyddyn a'u 'cynlluniau ar gyfer sgiliau' am y dyfodol - gyda phwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Maent hefyd yn mynychu cyfweliad un i un terfynol i asesu eu sgiliau wrth ymadael a'u hysgogi ar gyfer eu hail flwyddyn o astudio, blynyddoedd dilynol a'r tu hwnt i hynny.

Y fframwaith sy'n arwain y modiwl yw cylch dysgu Kolb y cyfeirir ato yn uniongyrchol ar ddechrau'r rhaglen gweithdy ac sy'n cynnal y strategaeth asesu a llawer o'r gweithgaredd gweithdy. Felly mae canlyniadau dysgu yn ymwneud â myfyrwyr yn dangos datblygiad eu sgiliau mewn nifer o ffyrdd: cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau unigol a rhai sy'n seiliedig ar grwpiau; y gallu i fyfyrio ar y profiadau hynny; y gallu i wneud casgliadau'n realistig o'r myfyrdodau; a'r gallu i gynllunio ymlaen llaw ac ymarfer sgiliau ac ymddygiad newydd.

Canlyniadau a ddisgwylir
Cynlluniwyd y modiwl i wella'r ffordd y mae myfyrwyr yn ymgysylltu â'u datblygiad academaidd a sgiliau eu hunain, yn y modiwl hwn ac mewn rhai eraill sydd ganddynt, a bod yn berchen ar y broses hon. Disgwylir erbyn diwedd y rhaglen flwyddyn, bydd y myfyrwyr wedi datblygu 'cyfeiriad meddwl ar gyfer dysgu' sy'n briodol i'w cyd-destun, eu sgiliau a'u hanghenion eu hunain; mae cynllunio ar gyfer datblygu rhagor o sgiliau, ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen a'r tu hwnt iddi, yn ganolbwynt mawr ar gyfer yr aseiniad terfynol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae natur y modiwl hwn a'i asesu'n meddwl bod tystiolaeth o'r canlyniadau a ddisgwylir bob tro'n her i'w chael; mae'r sgiliau sy'n cael eu datblygu drwy'r modiwl yn bersonol ac yn gyd-destunol felly dim ond y myfyrwyr eu hunain a all werthuso'n llawn pa mor effeithiol mae e wedi bod o ran cyflawni ei nodau, ar eu cyfer hwy fel oedolion. Mae'r effaith anuniongyrchol yn debygol o gael ei theimlo mewn modiwlau a dosbarthiadau eraill yn gynyddol drwy gydol y flwyddyn wrth i'r myfyrwyr gymhwyso'r sgiliau maent wedi dechrau eu mireinio yn ystod y sesiynau gweithdy yn eu dosbarthiadau sy'n benodol i bynciau. Erys meintoli'r gydberthynas hon, yn nhermau'r effaith 'bwydo trwodd' ar raddau'r myfyrwyr, bron yn amhosibl, fodd bynnag efallai bydd yn bosibl casglu canlyniadau o ddata rhaglen ehangach.

Yn y flwyddyn academaidd 2007/08, ar gyfer y grŵp a leolir ar gampws Trefforest Prifysgol Morgannwg, cyflwynodd pedwar a thrigain o fyfyrwyr yr aseiniad cyntaf ym mis Tachwedd a chyflwynodd trigain yr aseiniad terfynol ym mis Ebrill. Dilynodd y graddau ar gyfer yr aseiniad terfynol yn 2007/08 ddosbarthiad arferol, a oedd yn cyrraedd y brig yn yr ystod 60-69% (teilyngdod). O'r trigain a gyflwynodd eu haseiniad terfynol mae hanner cant a phedwar (90%) yn astudio yn ail flwyddyn y rhaglen yn 2008/09. Er ei bod yn amlwg y byddai'n amhriodol i awgrymu mai dim ond effaith y modiwl hwn oedd yn gyfrifol am allu'r myfyrwyr i wneud cynnydd yn eu hastudio yn y flwyddyn gyntaf, mae'r tîm modiwl yn ymfalchïo'n fawr yn y cyfraniad a wnaed

i ymgysylltiad y myfyrwyr â'r newidiadau academaidd y byddant yn eu hwynebu yn eu hastudio yn y dyfodol ac i'w gallu i aildrefnu eu blaenoriaethau o ran sgiliau yn unol â hyn.

Myfyrio/effaith
Gyda phob arolygiad mae'n ymddangos bod y myfyrwyr yn rhoi croeso i'r modiwl, ym Morgannwg ac ar draws rhwydwaith y Brifysgol o Golegau Addysg Bellach Partner lle caiff y rhaglen hon hefyd ei haddysgu. Mae'r fformat addysgu mewn tîm a fabwysiadwyd ar gyfer niferoedd mawr o fyfyrwyr ym Morgannwg, wedi'i gyfuno â'r ymagwedd tîm addysgu sy'n datblygu drwy gydol y rhwydwaith Colegau Partner, yn gwneud hyn yn fodiwl diddorol sydd wedi'i gynnal yn dda, ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan. Mae sylwadau gan gydweithwyr am newidiadau diweddar o ran llwythiad asesu i ail-ganolbwyntio sylw ar y drafodaeth a'r portffolio myfyriol terfynol, yn benodol, wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Nodyn terfynol: mae arweinwyr y modiwl yn dymuno cydnabod cyfraniad amhrisiadwy'r cydweithwyr sy'n darparu ac yn datblygu'r modiwl hwn ar hyn o bryd o fewn y rhwydwaith Colegau Partner, ac i'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn creu a datblygu'r cwrs hwn yn ei ymgnawdoliadau cynharach; ni fuasem wedi llwyddo i ddatblygu menter mor llwyddiannus heb eich cymorth.

SYSTEM CYFEILLIO WIRFODDOL
MORGANNWG

Geiriau allweddol
Cefnogaeth i fyfyrwyr, integreiddio, profiad

Nod
Targedir y system cyfeillio wirfoddol at fyfyrwyr ciropracteg blwyddyn un a myfyrwyr ciropracteg yn y flwyddyn sylfaen (blwyddyn 0).

Disgrifiad/ymagwedd
Er mwyn integreiddio myfyrwyr newydd o fewn y corff sefydledig o fyfyrwyr ciropracteg, mae gan yr Adran Ciropracteg system wirfoddol lle y cysylltir myfyrwyr ym mlwyddyn 2 â myfyrwyr blwyddyn 1 sy'n dod i mewn. Bu'r system hon yn llwyddiannus iawn a chafodd ei hymestyn i gynnwys derbyniad blwyddyn 0 y flwyddyn y dechreuodd y cwrs hwn. Mae'r Adran Ciropracteg yn darparu'r gefnogaeth weinyddol ar gyfer y cynllun, fodd bynnag mae myfyrwyr blwyddyn 2 a Chymdeithas y Myfyrwyr Ciropracteg yn trefnu ac yn rheoli'r digwyddiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Mae adborth gan y myfyrwyr yn dangos y caiff hyn groeso mawr a chafodd ei gydnabod fel model o arfer gorau o fewn y Brifysgol.

Canlyniadau a ddisgwylir
Datblygwyd y rhaglen i greu mecanwaith cynnal ychwanegol ar gyfer myfyrwyr ciropracteg newydd (blwyddyn 0 a blwyddyn 1) a reolir gan fyfyrwyr blwyddyn 2 ac a oruchwylir gan Gymdeithas y Myfyrwyr Ciropracteg. Y canlyniadau a ddisgwyliwyd oedd gwella integreiddio a chyfathrebu myfyrwyr blwyddyn 0 a blwyddyn 1 o fewn rhaglen astudio newydd mewn amgylchedd newydd.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae'r Adran wedi derbyn adborth da gan fyfyrwyr newydd a threfnwyr y rhaglen yn uniongyrchol a thrwy gyngor y myfyrwyr ciropracteg sy'n cyfarfod unwaith y tymor.

Myfyrio/effaith
Mae'r rhaglen hon yn ymgais i groesawu ac integreiddio myfyrwyr newydd mewn addysg broffesiynol a leolir mewn prifysgol i mewn i'r corff myfyrwyr presennol a darparu lefel arall o gefnogaeth fel rhan o'u profiad cyffredinol. Mae'r rhaglen hon yn personoli ac yn annog cyfathrebu a chyfeillgarwch rhwng y grwpiau blwyddyn gan fod y myfyrwyr yn y rhaglen ciropracteg yn rhyngweithio drwy gydol y cyfnod addysg bedair blynedd mewn llawer o ffyrdd sy'n gysylltiedig â dysgu ac asesu. Maent hefyd yn datblygu cysylltiadau proffesiynol cryf a fydd o fudd yn y dyfodol ar ôl iddynt raddio wrth iddynt gychwyn ar eu gyrfa broffesiynol. Cynlluniwyd y rhaglen hon hefyd i roi hyder yn gynnar yn y broses addysgol.

GRWPIAU FFOCWS AR ASESU
CAERDYDD

Geiriau allweddol
asesu, grwpiau ffocws, ymgysylltu

Disgrifiad/ymagwedd
Er mwyn darganfod sut y defnyddir asesu yn y radd BA o fewn Ysgol Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol (JOMEC) ac yn benodol sut mae'r myfyrwyr yn gweld asesu yn y flwyddyn gyntaf, cynhaliwyd wyth grŵp ffocws yn ystod mis Mai 2007.

Gwelwyd bod y myfyrwyr yn mwynhau'r broses o asesu parhaus gan ei fod yn eu hysgogi i weithio drwy gydol y tymor, a'u bod eisiau cael eu herio'n fwy. Gwelwyd bod gan y myfyrwyr ofn 'methu' a bod posibilrwydd o gael trafferth gyda thasgau sydd yn gofyn am annibyniaeth fel dysgwyr.

Ni welwyd y system draethodau fel system asesu yn offeryn dysgu defnyddiol. Roedd y myfyrwyr eisiau mwy o waith portffolio a phrofion bach. Roedd hefyd ymdeimlad bod angen i'r flwyddyn gyntaf gyfrif rhywfaint tuag at y marc gradd terfynol fel y gall y myfyrwyr deimlo bod eu gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw'n bwysig.

Roedd diffyg ymdeimlad o hunaniaeth yr Ysgol, ac roedd y myfyrwyr yn teimlo eu bod yn dod i mewn, yn gwneud eu gwaith ac yn gadael. Roedd eisiau adborth cynharach fel y gellid gwneud defnydd o hyn fel offeryn dysgu. Nodwyd cymryd rhan mewn seminarau fel arfer da, cyhyd â'i fod yn gysylltiedig â strwythur seminarau da. Soniwyd am ymatebion asesu a darllen ffurfiannol gan y myfyrwyr fel ffyrdd o ymgysylltu â thasg, ac â'i gilydd.

Canlyniadau a ddisgwylir

— Newidiadau i'r Cwricwlwm yn y Flwyddyn Gyntaf, a ddigwyddodd. Sefydlwyd modiwl newydd o'r enw Ysgoloriaeth Gyfryngau ym mis Medi 2008
— Dealltwriaeth fwy ar lefel uwch o fentrau a greoedd ymagwedd o gymuned yn yr Ysgolio
— Newidiadau i'r broses ymsefydlu. Erbyn hyn mae myfyrwyr yn treulio mwy o amser gyda'u tiwtoriaid yn yr wythnos gyntaf.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol

Mae'r canfyddiadau hyn wedi ysgogi nifer o newidiadau ar gyfer myfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf yn yr Ysgol. Ceir rhaglen ymsefydlu sydd wedi gwella er mwyn meithrin ymdeimlad gwell o fod yn perthyn i gymuned dysgu. Cyflwynwyd modiwlau mwy heriol yn y flwyddyn gyntaf yn ogystal â Modiwl Ysgoloriaeth Gyfryngau sy'n seiliedig ar sgiliau, ac sy'n golygu cyflwyniad gr**ŵ**p, 'blog' ymatblyg, ac adolygiad llenyddiaeth gyda llyfryddiaeth anodedig a thrywydd ymchwil. At hyn, mae cyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus wedi helpu datblygu ymdeimlad o ymgysylltu â'r Ysgol.

GWELLA CYMORTH BUGEILIOL
BANGOR

Geiriau allweddol

cadw myfyrwyr, amgylchedd cefnogol, cyfathrebu rhwng y tiwtor a'r myfyrwyr

Nod

Nod yr adolygiadau yn ein cynllun gofal bugeiliol oedd darparu gofal bugeiliol rhagorol i'n myfyrwyr i gyd, (yn enwedig y rhai yn y flwyddyn gyntaf), i helpu i gadw myfyrwyr, ac i ddarparu amgylchedd cefnogol i'r myfyrwyr drwy gydol eu cyfnodau astudio.

Disgrifiad/ymagwedd

Caiff ein myfyrwyr blwyddyn gyntaf i gyd eu dyrannu i diwtor personol sy'n aelod pwrpasol o Dîm Addysgu'r Ysgol ac sydd wedi'i leoli yn Adeilad Wheldon (y ganolfan ar gyfer myfyrwyr Seicoleg). Rydym yn gofyn i'r holl fyfyrwyr gyfarfod â'u tiwtoriaid ar adegau penodol y flwyddyn:

Myfyrwyr Blwyddyn Un – yn ystod yr Wythnos Groesawu; ar ddiwedd yr ail dymor er mwyn iddynt dderbyn eu canlyniadau ar gyfer y tymor cyntaf, ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Myfyrwyr Blwyddyn Dau a Thri – yn wythnos gyntaf y tymor cyntaf, ar ddechrau'r ail dymor er mwyn iddynt dderbyn eu canlyniadau ar gyfer y tymor cyntaf, ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Caiff myfyrwyr sydd ym mlwyddyn dau a thri o'u graddau eu dyrannu i aelod o staff sy'n weithgar o ran ymchwil fel eu tiwtor am weddill eu cyfnod astudio.

Yn ogystal â hyn, bydd gan bob tiwtor fynediad at system ar-lein ar y we, sy'n caniatáu i diwtoriaid personol adnewyddu unrhyw amgylchiadau lliniarol ar gyfer eu myfyrwyr. Mae'r nodiadau ond ar gael i diwtor personol y myfyrwyr, yr Uwch Diwtor a Gweinyddwr Myfyrwyr yr Ysgol.

Canlyniadau a ddisgwylir

Fel y dywedwyd yn flaenorol, roeddem yn gobeithio cynyddu cadw myfyrwyr a gallu'r myfyrwyr.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol

Ers i ni gyflwyno'r system newydd mae ein llwyddiant i gadw myfyrwyr ar draws y tair blynedd o astudiaethau israddedig wedi cynyddu'n ddramatig. Yn ogystal â hyn mae bodlonrwydd y myfyrwyr o ran y cynllun gofal bugeiliol hefyd wedi cynyddu.

BYWYD TRWY LENS –PROSIECT FFOTOGRAFFIAETH Y CYFNOD YMSEFYDLU
UWIC

Geiriau allweddol

Dyddlyfr o ffotograffau, Profiadau'r Glasfyfyrwyr

Roed hyn yn cynnwys dwy raglen – BSc (Anrh) Seicoleg a BA (Anrh) Addysg Gymunedol, a leolir ar wahanol gampysau – Llandaf a Chyncoed.

Nod
Prif nod y prosiect oedd cael barn y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o'r hyn a oedd yn bwysig iddynt hwy drwy gydol 3 wythnos gyntaf y tymor. Yr hyn yr oeddent wedi'i hoffi neu nad oeddent wedi'i hoffi er mwyn deall yr hyn yr oeddent yn gweld yn brofiad negyddol neu gadarnhaol a gwella'r profiad cyntaf hwnnw'n academaidd ac yn gymdeithasol. Y nod oedd gwneud hyn drwy gyfrwng arall yn hytrach nag arolwg ayyb.

Disgrifiad/ymagwedd
Rhoddwyd llyfr nodiadau, ysgrifbin, camera tafladwy a thaflen yn esbonio'r prosiect i'r holl fyfyrwyr. Roddwyd tair wythnos iddynt ddychwelyd y camerau a'r llyfrau gorffenedig. Bob tro gwnaethant dynnu ffotograff gofynnwyd iddynt ysgrifennu pam y gwnaethant ei dynnu a'r hyn yr oedd yn ei olygu iddynt hwy. Rhoddwyd enghreifftiau iddynt o'r hyn y gallent o bosibl dynnu ffotograff ohono mewn dwy restr - rhywbeth sy'n peri i chi wenu a rhywbeth sy'n eich gwylltio neu sy'n eich oedi. Esboniwyd iddynt wedyn beth fyddai'n digwydd i'r lluniau a'u sylwebaeth. Ar ôl iddynt gael eu casglu proseswyd y ffotograffau a'u paru gyda sylwadau'r myfyrwyr. Rhannwyd y rhain wedyn yn themâu a chynhyrchwyd dyddlyfr o ffotograffau gyda'r themâu hyn fel y penawdau gwahanol yn dangos lluniau a sylwadau'r myfyrwyr.

Canlyniadau a ddisgwylir
Casgliad o syniadau a barn y myfyrwyr mewn cyfrwng gwahanol, i'w galluogi i'w gyflwyno i fyfyrwyr yn y dyfodol ac i'w ddefnyddio gyda darpar fyfyrwyr ar gyfer eu trafod. Casgliad o themâu a welir yn bwysig gan y myfyrwyr a'r staff - yn academaidd ac yn gymdeithasol.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Cynhyrchu dros 400 o ffotograffau mewn llyfrgell i ddewis ohonynt yn ymwneud â phrofiadau cyntaf o UWIC. Sylwebaeth ar yr hyn a welwyd yn gadarnhaol ac yn negyddol ochr yn ochr â'r lluniau. Cynhyrchu dyddlyfr ffotograffau a phosteri sy'n disgrifio barn y myfyrwyr a'r hyn a welwyd ganddynt yn bwysig dros yr ychydig o wythnosau cyntaf i'w dosbarthu yn Ffair y Glasfyfyrwyr.

Myfyrio/effaith
Roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn hapus i ymgysylltu â'r prosiect er bod angen i Arolygydd y Rhaglen ei fonitro'n agos ar gyfer casglu'r dyddiadur a'r camerâu. Teimlai'r myfyrwyr y gallent dynnu lluniau heb boeni am beth a pham yr oeddent wedi'u tynnu a gwnaethant ddarparu digonedd o sylwebaeth i gydfynd â'r lluniau. Roeddent yn meddwl ei bod yn ffordd dda o gofnodi'r tair wythnos gyntaf a gwnaethant ofyn i gopïau o'r ffotograffau gael eu dychwelyd iddynt. Cafwyd cydbwysedd rhwng materion academaidd a materion cymdeithasol a gwnaeth llawer o'r myfyrwyr sylwadau ar ymdopi gyda'r profiad o fyw i ddydd i ddydd.

Lefel modiwl neu bwnc

ASESU CYFOEDION AR Y CYFRIFIADUR
MORGANNWG

Geiriau allweddol
cefnogi cyfoedion, asesu cyfoedion, crynodol, ffurfiannol

Disgrifad/ymagwedd
Ceir pryderon yn aml o ran darlithio i fyfyrwyr israddedig mewn perthynas â'u gallu i ddatblygu dealltwriaeth o'r maes pwnc a hefyd i ddatblygu eu sgiliau cyflwyno i'r safon a ddisgwylir mewn addysg uwch. Cafodd ei gynnig y byddai nifer o asesiadau ffurfiannol yn darparu proses datblygiadol sylweddol iddynt. Fodd bynnag, mae dau rwystr mawr a all gael effaith ar lwyddiant y broses hon.

a) yn aml ni fydd myfyrwyr yn gwneud unrhyw ymdrech ynglŷn â thasgau ffurfiannol h.y. ni chânt eu gwobrwyo;

b) nid yw'n ymarferol i diwtoriaid ddarparu adborth am ddatblygiad oherwydd cyfyngiadau amser.

Gwnaeth yr astudiaeth a ddisgrifir yn y fenter hon ddefnydd o asesu/cefnogi cyfoedion gan y myfyrwyr mewn ymgais i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn flaenorol. Mewn modiwl i astudio Pensaernïaeth Gyfrifiadurol dyma asesiad safonol posibl: datblygu traethawd a fydd yn rhoi canllawiau i ddefnyddiwr brynu cyfrifiadur addas ar gyfer defnydd personol yn caniatáu mynediad at y Rhyngrwyd. Er mwyn cyflwyno'r asesiad hwn gellir disgwyl i'r myfyriwr ymdrin â meysydd megis caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol a mynediad at y rhyngrwyd.

Gwnaeth yr astudiaeth hon ddefnydd o'r fath aseiniad ond fe'i dorrodd i lawr i'r tair rhan y soniwyd amdanynt yn flaenorol h.y. traethawd ar galedwedd, traethawd ar feddalwedd a hefyd traethawd ar fynediad at y rhyngrwyd. Ac yntau'n ddosbarth eithaf mawr byddai marcio a darparu adborth ar wahân gan y tiwtor wedi bod yn dasg sylweddol drwm.

Penderfynwyd felly gwneud defnydd o'r CAP (system gyfrifiadurol ar gyfer asesu cyfoedion) fel ffordd o gynnal asesiadau'r tair tasg hon. Yn y modd hwn gallai'r myfyrwyr sydd â phrofiad blaenorol yn y maes pwnc gefnogi'r rhai sydd â chefndir cyfrifiadurol cyfyngedig. Hefyd gallai'r myfyrwyr llai profiadol hyn weld enghreifftiau o arfer da ac arfer gwael gan eu cyfoedion. Wedi symud ymlaen drwy'r broses hon disgwyliwyd i'r myfyrwyr ysgrifennu, fel yn y

gorffennol, draethawd 'safonol' yn ymdrin â'r holl feysydd astudio ac a gâi ei farcio gan y tiwtor. Felly ni chynyddodd baich y tiwtor, er y gellid cyfuno'r camau adborth sy'n gysylltiedig â'r tair tasg gyda'i gilydd fel canllaw ar gyfer y cyflwyniad terfynol (dylid nodi na ddylai unrhyw fyfyriwr a oedd heb gyflwyno traethawd i'w gael ei farcio gan gyfoedion gael gweld gwaith eu cyfoedion.

Roedd y marciau a ddyfarnwyd ar gyfer yr aseiniad hwn yn cyfrif am 50% o radd gyffredinol y modiwl. Datblygwyd rhaniad y marc hwn yn y gymhareb hon:

— 5% ar gyfer tasg un (cyfartaledd y cyfoedion)
— 5% ar gyfer tasg dau (cyfartaledd y cyfoedion)
— 5% ar gyfer tasg tri (cyfartaledd y cyfoedion)
— 30% ar gyfer y traethawd (a gynhyrchwyd gan y tiwtor)
— 5% am wneud y tri cham o farcio gan gyfoedion/adborth

Canlyniadau a ddisgwylir
Disgwyliwyd y byddai'r myfyrwyr yn datblygu drwy gydol cyfnod y modiwl gan weithredu ar adborth eu cyfoedion. Trwy dorri'r gwaith yn dair elfen wahanol byddai hyn yn caniatáu i fyfyrwyr o gryfderau gwahanol ddatblygu traethawd terfynol sy'n bodloni safonau gofynnol asesiad y modiwl.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Roedd y canlyniadau o'r aseiniad hwn yn gadarnhaol iawn a gwnaeth dros 90% o'r myfyrwyr gyflwyno a marcio gan gyfoedion o ran y tair tasg gychwynnol. Roedd y myfyrwyr a oedd wedi cael marciau gweddol isel gan eu cyfoedion ar gyfer y dasg gynnar wedi gwella drwy gydol y broses asesu. Roedd yr adborth a gafwyd gan y myfyrwyr yn rhagorol ac yn dangos ansawdd adeiladol sylweddol. Sicrhaodd yr astudiaeth yr arhosodd y myfyrwyr yn ddienw a dim ond yr adborth a gafodd y myfyrwyr ei weld, nid y marciau a roddwyd gan eu cyfoedion.

Myfyrio/effaith
Roedd y myfyrwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn gefnogol iawn o'i dulliau gweithredu. Datblygodd ymdeimlad o agosrwydd o fewn y grŵp a chefnogodd fyfyrwyr gwannach ar gyfnod cynnar eu hastudio yn y maes pwnc ac yn eu sgiliau cyflwyno. Ni wnaeth y cydbwysedd o ddatblygu personol ac asesu adolygol a gynigwyd gan yr astudiaeth hon gynyddu baich gwaith y tiwtoriaid o ran marcio ond caniataodd i'r tiwtoriaid weld yr adborth gan fyfyrwyr i'w cyfoedion. Yn ei ffordd ei hun caniataodd hyn i gynnydd y myfyrwyr gael ei fonitro gan fod angen iddynt ddangos gwybodaeth o'r pwnc eu hunain er mwyn gwerthuso eu cyfoedion. Roedd yr adborth a ddarparwyd gan y myfyrwyr dipyn yn fwy manwl na'r hynny byddai tiwtor wedi'i ddarparu (oherwydd cyfyngiadau amser) ac roedd yn ddymunol gweld y myfyrwyr yn cynyddu maint eu hadborth wrth i'r astudiaeth fynd yn ei blaen.

CEFNOGAETH GAN GYFOEDION AR GYFER ASTUDIO (PASS)
ABERTAWE

Geiriau allweddol
Dysgu ar y cyd; dysgu wedi'i bersonoli; cymunedau dysgu cymdeithasol; sgiliau astudio; sgiliau cyfathrebu ac arwain; cyflogadwyedd; cyflawni potensial, cadw myfyrwyr; profiad y myfyrwyr; partneriaeth

Nod
— Cynnal profiad y myfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf drwy drafodaeth archwiliadol ar y cyd
— Gwella profiad dysgu a Datblygiad Personol Arweinwyr PASS
— Gwella perfformiad a llwyddiant academaidd a chynyddu cadw myfyrwyr
— Darparu mecanwaith ychwanegol ar gyfer cyfathrebu ac adborth rhwng staff addysgu a myfyrwyr.

Disgrifiad/ymagwedd
— Gwella dysgu drwy gynllun cymorth o fyfyriwr i fyfyriwr
— Mae myfyrwyr sydd wedi hyfforddi fel arweinwyr PASS yn hwyluso sesiynau astudio ar gyfer grwpiau o fyfyrwyr yn y blynyddoedd is
— Mae PASS yn wirfoddol ac fe'i bwriedir i gynnig lle diogel, cyfeillgar i helpu myfyrwyr
— Gwella eu hymwybyddiaeth o gyfeiriad a disgwyliadau'r cwrs
— Mae'r cynnwys yn seiliedig ar ddeunyddiau cwrs ac ymgysylltir arweinwyr PASS â rhannu eu profiadau a hwyluso trafodaeth yn hytrach nag ail-addysgu'r pwnc.

Canlyniadau a ddisgwylir
Lefel Sefydliadol a Chyfadran
— Gwella profiad a pherfformiad academaidd y myfyrwyr
— Lleihau cyfraddau myfyrwyr yn gadael.

Lefel Ysgol a Disgyblaeth
— Rhoi adborth rheolaidd a chyfredol i staff
— Wedi'i amlygu fel arfer da gan y QAA
— Mae'n gwella sgiliau astudio'r myfyrwyr
— Meithrin ymdeimlad o gymuned.

Lefel y Myfyriwr
— Yn darparu cymorth ac arweiniad
— Nid yw'n fygythiol nac yn adferol
— Buddion cymdeithasol
— Mwy o hyder academaidd
— Gwell cyfathrebu, gwaith tîm, datrys problemau ar y cyd a sgiliau rhyngbersonol.

Arweinwyr PASS
— Cyfle ar gyfer datblygu personol
— Datblygu sgiliau – arweinyddiaeth, cyfathrebu, gwaith tîm ayyb
— Cyfle i fyfyrio, adolygu ac ail-werthuso
— Gwell perfformiad academaidd
— Cydnabyddiaeth a Gwobrwyo.

Tystiolaeth o ganlyniadau gwirioneddol
Mae'r cynllun peilot yn dechrau ym mis Hydref 2009 a chaiff ei fonitro yn 09/10 yn gorffen gyda gwerthusiad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Myfyrio/effaith
Mae'n rhy gynnar i fyfyrio ar hyn.

Cyfeiriadau

Beder (1997). "Addressing the Issues of Social and Academic Integration for First Year Students." *ultiBASE*.

Crosling, G., Thomas, L. a Heagney, M., Golygyddion (2008). *Improving Student Retention in Higher Education.* Abingdon, Routledge.

Rhodes, C. a Nevill, A. (2004). "Academic and Social Integration in Higher Education: a survey of satisfaction and dissatisfaction within a first-year education studies cohort at a new university." *Journal of Further & Higher Education* 28(2): 179-193.

Tinto, V. (1997). "Classrooms as Communities." *Journal of Higher Education* 68(6): 599-623.

Wilcox, P., Winn, S. a Fyvie-Gauld, M. (2005). "'It was nothing to do with the university, it was just the people': the role of social support in the first-year experience of higher education." *Studies in Higher Education* 30(6): 707-722.

Yorke, M. a B. Longden (2007). *The first-year experience in higher education in the UK.* York, Higher Education Academy.

The Higher Education Academy

www.heacademy.ac.uk

The Higher Education Academy
Innovation Way
York Science Park
Heslington
York YO10 5BR

Tel: +44 (0)1904 717500
Fax: +44 (0)1904 717505

ISBN 978-1-907207-06-8
© The Higher Education Academy
October 2009

All rights reserved. Apart from any fair dealing for the purposes of research or private study, criticism or review, no part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted, in any other form or by any other means, graphic, electronic, mechanical, photocopying, recording, taping or otherwise, without the prior permission in writing of the publishers.

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Academy.